# Bywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched

Canllawiau Ymarferol i Gwmnïau Technoleg

Cyhoeddwyd ar 25 Tachwedd 2025

Fersiwn Saesneg ar gael

# Cynnwys

**RHYBUDD: MAE'R CANLLAWIAU HYN YN CYNNWYS DEUNYDD A ALLAI BERI GOFID NEU DRALLOD.**

## Adran


Rhagair ........ 3

1. Cyflwyniad ........ 4

2. Beth yw niwed ar-lein ar sail rhywedd? ........ 12

3. Cymryd cyfrifoldeb ........ 31

4. Atal niwed ........ 51

5. Darparu cefnogaeth ........ 76


## Atodiad


A1. Geirfa ........ 94

# Rhagair

Pan fyddwn yn siarad â menywod a merched sydd wedi profi cam-drin ar-lein, mae eu straeon yn aros yn y cof. Mae goroeswyr yn dweud wrthym sut y gwnaeth delwedd bersonol a rannwyd heb ganiatâd chwalu eu hymdeimlad o ddiogelwch. Mae newyddiadurwyr, gwleidyddion ac athletwyr yn disgrifio'r cam-drin ar-lein di-baid y maent yn ei wynebu wrth wneud eu gwaith.

Wrth i Ofcom ysgrifennu'r Canllawiau hyn, gwnaethom wrando'n ofalus ar y gweithwyr cymorth rheng flaen, ymchwilwyr, ac eiriolwyr sydd wedi treulio blynyddoedd yn cefnogi menywod ac yn ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal niwed ar-lein sy'n seiliedig ar rywedd. Mae eu neges yn glir: mae'r byd digidol yn methu â mynd i'r afael â niwed i fenywod a merched. Mae'n methu â'u hamddiffyn rhag cam-drin rhywiol sy'n seiliedig ar ddelweddau, stelcio a rheolaeth orfodol, aflonyddu torfol a chydgysylltiedig, a'r diwylliant maleisus o gam-drin menywod sy'n ffynnu ar-lein.

Mae'r Canllawiau hyn yn nodi camau ymarferol ac uchelgeisiol ar gyfer gwasanaethau ar-lein i wneud eu platfformau'n fwy diogel. Gall nodweddion syml fel rhybuddion a therfynau ar bostiadau helpu i atal troseddwyr rhag cam-drin menywod ar-lein. Gall sicrhau bod lleisiau goroeswyr a dioddefwyr yn cael eu clywed helpu i adeiladu offer diogelwch a systemau adrodd haws, symlach a gwell. Yn hollbwysig, rhaid i gwmnïau technoleg gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch o'r cychwyn cyntaf, gan brofi eu cynhyrchion am sut y gellir eu camddefnyddio cyn iddynt eu cyflwyno, bod yn fwy tryloyw ynghylch profiadau eu defnyddwyr, a gwneud yn siŵr bod gan eu timau'r adnoddau a'r hyfforddiant priodol.

Yn Ofcom rydym yn glir iawn na ddylai diogelwch byth ddod ar draul tawelu dadl gyfreithlon ar-lein. Mae rhyddid mynegiant yn gonglfaen o fywyd democrataidd, a rhaid ei amddiffyn ar-lein. Mae'r hawl i siarad, i herio, i greu, ac i gysylltu, heb ofni camdriniaeth, yn hanfodol. Nid tawelu lleisiau yw ein nod, ond sicrhau bod mannau digidol yn caniatáu i bawb gymryd rhan lawn.

Byddwn yn dwyn cwmnïau technoleg i gyfrif. Gall cwmnïau ddisgwyl wynebu camau gorfodi lle nad ydynt yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol. A byddwn yn taflu goleuni ar dryloywder, fel ei bod hi'n glir i'r cyhoedd a yw cwmnïau technoleg yn gwneud cynnydd ystyrlon tuag at ddod â niwed ar-lein sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched i ben.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 ('y Ddeddf') yn gosod gofynion clir ar ddarparwyr gwasanaethau ar-lein (‘darparwyr gwasanaethau’)[1] i fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon, sy'n cynnwys niwed ar sail rhywedd fel camddefnyddio delweddau personol, stelcio a rheolaeth orfodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau i ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol arall, fel niwed ar sail rhywedd fel cam-drin a thrais sy'n gysylltiedig â chasineb at fenywod, a'u hamddiffyn rhag cynnwys pornograffig. Rydym wedi cyhoeddi Codau Ymarfer a chanllawiau asesu risg sy'n nodi sut rydym yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon a diogelu plant.[2]

1.2 Gan fod y dyletswyddau hyn mewn grym erbyn hyn, rôl Ofcom yw dal darparwyr gwasanaethau i gyfrif, gan ddefnyddio ein pwerau gorfodi cadarn yn ôl yr angen. Bydd yr amddiffyniadau sylfaenol sydd wedi'u nodi yn ein Codau a'n canllawiau asesu risg o fudd i fenywod a merched yn ogystal â holl ddefnyddwyr gwasanaethau ar-lein yn y DU.

1.3 Yn ogystal, wrth basio'r Ddeddf, roedd Senedd y DU wedi cynnwys gofyniad ar Ofcom i gynhyrchu canllawiau pwrpasol ychwanegol ar ddiogelwch menywod a merched. Mae'r Canllawiau hyn yn nodi sut gall darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys apiau cwrdd â chariadon, cyfryngau cymdeithasol, gemau, safleoedd pornograffi[3] a gwasanaethau chwilio, fynd i'r afael â chynnwys a gweithgarwch sy'n effeithio menywod a merched yn anghymesur.[4]

1.4 Mae tystiolaeth yn dangos yn glir bod menywod a merched yn wynebu risgiau unigryw a difrifol ar-lein. Maen nhw mewn mwy o berygl o weld eu delweddau personol - gan gynnwys ffugiadau dwfn - yn cael eu rhannu heb eu cydsyniad, maen nhw'n cael eu targedu'n anghymesur gan gam-drin misogynistaidd ac ymosodiadau torfol, a nhw yw prif oroeswyr a dioddefwyr rheolaeth drwy orfodaeth a stelcio.[5]

1.5 Drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Canllawiau hyn, rydym wedi clywed gan sefydliadau ar y rheng flaen sy'n mynd i'r afael â'r niwed hwn, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cefnogi goroeswyr a dioddefwyr, sefydliadau sy'n gweithio gyda dynion a bechgyn, ac arbenigwyr sy'n ymchwilio i sut mae'r niwed hwn yn dod i'r amlwg. Yn bwysicaf oll, rydym wedi siarad â

---

[1] Diffinnir gwasanaethau o'r fath o dan Ran 3 y Ddeddf ac maent yn cynnwys gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr. Drwy gydol y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at y llwyfannau ar-lein fel ‘gwasanaethau’, a’r endid cyfreithiol sy’n darparu’r gwasanaeth fel ‘darparwr gwasanaeth’ neu ‘ddarparwr’.

[2] Fe wnaethom gyhoeddi ein datganiad ar Godau Cynnwys Anghyfreithlon a Chanllawiau Asesu Risg ym mis Rhagfyr 2024, gan nodi sut mae'n rhaid i wasanaethau fynd i'r afael â'u dyletswyddau newydd sy'n ymwneud â niwed anghyfreithlon, ac fe wnaethom gyhoeddi'r Codau Amddiffyn Plant a'r Canllawiau Asesu Risg ym mis Ebrill 2025.

[3] Nid yw’r Canllawiau’n berthnasol i wasanaethau Rhan 5 (darparwyr sy’n cyhoeddi neu’n arddangos cynnwys pornograffig eu hunain, heb unrhyw ryngweithio defnyddiwr-i-ddefnyddiwr na chynnwys chwilio). Mae Ofcom wedi cynhyrchu canllawiau ar wahân ar gyfer y gwasanaethau hyn.

[4] Dywed Adran 54 y Ddeddf fod yn rhaid i'r Canllawiau ganolbwyntio ar 'gynnwys a gweithgarwch....y mae gan ddarparwyr o'r fath ddyletswyddau mewn perthynas â nhw, a nodir yn [Rhan 3] neu Ran 4 y Ddeddf’ ac 'sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched'.

[5] Ym Mhennod 2 y Canllawiau, rydym yn rhoi trosolwg o ffynonellau tystiolaeth allweddol ar niwed i fenywod a merched ar-lein. I gael trosolwg manylach o sut mae niwed yn amlygu ei hun ar-lein, gan gynnwys risgiau i fenywod a merched, gweler ein Cofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon, a'n Cofrestr Risgiau Plant.

goroeswyr a dioddefwyr sydd wedi dweud wrthym eu bod am weld darparwyr yn gwneud newidiadau ystyrlon ac ymarferol i'w gwasanaethau er mwyn iddynt fod yn fwy diogel i'r miliynau o fenywod a merched ledled y DU sy'n eu defnyddio bob dydd.

1.6 Mae'r Canllawiau hyn yn nodi naw cam gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â niwed ar-lein ar sail rhywedd. Rydym yn dangos y camau hyn gydag enghreifftiau ymarferol o'r mesurau sydd wedi'u nodi yn ein Codau a'n canllawiau ar Niwed Anghyfreithlon[6], Amddiffyn Plant[7] a Thryloywder[8] - i liniaru niwed ar sail rhywedd. Mae'r 'camau sylfaenol' hyn yn dwyn ynghyd y mesurau perthnasol a amlinellir yn ein Codau Ymarfer sy'n amlinellu sut gall darparwyr gydymffurfio â'r dyletswyddau gorfodadwy o dan y Ddeddf sy'n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon ac amddiffyn plant. Rydym yn barod i gymryd camau gorfodi os nad yw darparwyr yn cydymffurfio â'u dyletswyddau.

1.7 Ond mae'r Canllawiau hyn yn mynd ymhellach hefyd. Rydym hefyd yn dangos y camau gweithredu gydag arferion da ychwanegol - nodweddion, offer a phrosesau - y gall darparwyr eu defnyddio i gyflawni newidiadau uchelgeisiol ac ystyrlon tuag at fywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched a phawb y mae niwed ar-lein ar sail rhywedd yn effeithio arnynt. Er nad yw rhai o'r niweidiau hyn yn anghyfreithlon, a rhaid i ddarparwyr hefyd sicrhau bod eu defnyddwyr yn dal i allu mynegi eu hunain yn rhydd, mae'r Canllawiau'n adlewyrchu profiadau go iawn menywod a merched ac yn rhoi llais i'w galwadau am well amddiffyniadau a mwy o ddewis gan y gwasanaethau ar-lein maen nhw'n eu defnyddio.

1.8 Rydym yn galw ar ddarparwyr i flaenoriaethu diogelwch menywod a merched. Er bod y Canllawiau'n canolbwyntio ar niwed sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, bydd gwneud hynny'n helpu i godi canlyniadau diogelwch i unrhyw un y gallai'r niwed effeithio arno. Bydd hyn yn creu bywyd mwy diogel ar-lein i bawb ac yn sicrhau bod pob defnyddiwr yn gallu elwa o'r cyfleoedd i gymryd rhan weithredol mewn gwasanaethau ar-lein. Rydyn ni'n bwriadu monitro a thynnu sylw at sut mae darparwyr gwasanaethau'n dewis diogelu eu defnyddwyr, gan gynnwys sut maen nhw wedi defnyddio'r Canllawiau hyn, i helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu profiadau ar-lein.

1.9 Yn ogystal â dyletswyddau eraill Ofcom[9], rhaid i Ofcom gyflawni ei swyddogaethau'n gyson â hawliau sylfaenol yn unol â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, gan gynnwys yr hawl i ryddid mynegiant o dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.[10] Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r hawliau a ddiogelir gan y Confensiwn wrth

---

[6] Gweler y Codau Cynnwys Anghyfreithlon a'r Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon.

[7] Gweler y Codau Amddiffyn Plant a'r Canllawiau ar Gynnwys Niweidiol i Blant.

[8] Gweler y Datganiad Adrodd ar Dryloywder.

[9] Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan adran 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003 (CA 2003), dyletswydd i gynnal a chyhoeddi asesiad effaith o dan adran 7 Deddf Cyfathrebiadau 2003, dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn adran 11 Deddf Cyfathrebiadau 2003, dyletswyddau o dan adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998, a dyletswyddau mewn perthynas â safonau'r Gymraeg. Wrth baratoi'r Canllawiau, rydym hefyd wedi ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol y Llywodraeth ar gyfer Diogelwch Ar-lein.

[10] Mae Erthygl 10 (1) yn nodi bod yr hawl i ryddid mynegiant yn cynnwys y rhyddid i gael barn ac i dderbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus. Mae Erthygl 10(2) yn datgan y gellir cyfyngu'r hawl hon er budd diogelwch gwladol, uniondeb tiriogaethol neu ddiogelwch y cyhoedd, er mwyn atal anhrefn neu droseddu, er mwyn diogelu iechyd neu foesau, er mwyn diogelu enw da neu hawliau pobl eraill, er mwyn atal datgelu gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol, neu er mwyn cynnal awdurdod a didueddrwydd y farnwriaeth. Rhaid i unrhyw gyfyngiad ar yr hawl i ryddid mynegiant gael ei ragnodi gan y gyfraith, ceisio nod dilys a bod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Er mwyn bod yn 'angenrheidiol', rhaid i'r cyfyngiad gyfateb i angen cymdeithasol dybryd, a rhaid iddo fod yn gymesur â'r nod cyfreithlon a geisir.

baratoi'r Canllawiau hyn.[11] Rydym yn fodlon bod y Canllawiau'n gymesur â'r nod cyfreithlon o ddiogelu menywod a merched, a phobl yn y DU yn fwy cyffredinol, rhag niwed ar-lein.

1.10 Mae'r Canllawiau hyn yn ymdrin â'r canlynol:

- Mae **Pennod 1** yn cyflwyno cysyniadau a ddefnyddir drwy gydol y Canllawiau.
- Mae **Pennod 2** yn edrych ar sut mae niwed sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched yn dod i'r amlwg ar-lein, a'r effeithiau difrifol ac eang maen nhw'n eu cael, gan gynnwys ar allu menywod a merched i fynegi eu hunain yn rhydd a chymryd rhan ddiogel mewn bywyd ar-lein.
- Mae **Pennod 3**, **Pennod 4**, a **Phennod 5** yn nodi naw maes gweithredu ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein i fynd i'r afael â'r niwed hwn.
- Mae **Atodiad 1** yn cynnwys geirfa gyda diffiniadau o'r termau rydym wedi'u defnyddio drwy gydol y Canllawiau.

## Ar ba niwed rydyn ni'n canolbwyntio yn y Canllawiau hyn?

1.11 Mae ein Canllawiau'n canolbwyntio ar gynnwys a gweithgarwch lle mae gan ddarparwyr gwasanaethau ddyletswyddau o dan y Ddeddf ac sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. Mynd i'r afael â'r math hwn o gynnwys a gweithgarwch yn gyffredinol, mae angen deall sut mae niwed ar sail rhywedd yn gorgyffwrdd a sut maen nhw'n torri ar draws cynnwys a gweithgarwch anghyfreithlon, [12] a chynnwys a gweithgarwch sy'n niweidiol i blant.[13]

1.12 Mae'r cynnwys a'r gweithgaredd hwn yn cynnwys ffyrdd niweidiol y mae gwasanaethau ar-lein yn cael eu defnyddio i reoli, i ecsbloetio, i fonitro, i dawelu, i fychanu, i gam-drin ac i fygwth menywod a merched oherwydd eu rhywedd. Mae ymchwil yn dangos bod y rheini sydd â nifer o nodweddion gwarchodedig, fel cymunedau LHDTC+ a menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, yn wynebu risgiau ychwanegol o niwed.[14]

---

[11]Mewn perthynas â'r camau sylfaenol yn y Canllawiau, roeddem hefyd wedi rhoi ystyriaeth ofalus i effeithiau ein Codau a'n canllawiau ar hawliau dynol wrth baratoi ein datganiadau Niwed Anghyfreithlon a Diogelu Plant.

[12]I gael rhestr lawn o droseddau blaenoriaeth sy'n dod o dan y Ddeddf, ac a allai gyfrif fel cynnwys anghyfreithlon, gweler Trosolwg o Niwed Anghyfreithlon sy'n diffinio ac yn categoreiddio dros 130 o 'droseddau blaenoriaeth'. Edrychwch ar ein Cofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon i gael trafodaethau manwl ar sut mae niwed anghyfreithlon yn dod i'r amlwg a'r effeithiau ehangach, gan gynnwys sut mae mathau penodol o niwed fel camddefnyddio delweddau personol, ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched.

[13]I gael rhestr lawn o'r cynnwys a nodir o dan y Ddeddf sy'n niweidiol i blant, gweler y Canllawiau ar Gynnwys Niweidiol i Blant. Mae'r Ddeddf yn pennu tri math o gynnwys, ac mae rhai ohonynt yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. Mae cynnwys prif flaenoriaeth yn cyfeirio at gynnwys pornograffig, cynnwys hunanladdiad, cynnwys hunan-niweidio a chynnwys anhwylderau. Mae cynnwys blaenoriaeth yn cyfeirio at amrywiaeth o niwed gan gynnwys deunydd cam-drin, cynnwys sy'n cymell casineb, cynnwys sy'n annog trais, a chynnwys bwlio. Mae cynnwys heb ei ddynodi yn cyfeirio at gynnwys, nad yw wedi'i gynnwys yn y Ddeddf, sy'n peri risg sylweddol o niwed i nifer sylweddol o blant. O dan y Ddeddf, mae'n rhaid i wasanaethau atal plant rhag dod ar draws cynnwys prif flaenoriaeth sy'n niweidiol i blant, ac amddiffyn plant mewn grwpiau oedran y bernir eu bod mewn perygl o niwed o gynnwys blaenoriaeth a chynnwys heb ei ddynodi. I gael trafodaethau manwl am dystiolaeth ynghylch cynnwys sy'n niweidiol i blant, gweler ein Cofrestr Risgiau Plant.

[14]The Global Partnership, 2023. Technology-Facilitated Gender-Based Violence: Preliminary Landscape Analysis. [cyrchwyd 03 Tachwedd 2025].

1.13 Mae'r effeithiau'n ddifrifol ac yn eang, o atal diogelwch a chyfranogiad menywod a merched mewn mannau ar-lein - gan effeithio yn y pen draw ar eu gallu i ymgysylltu a mynegi eu hunain yn rhydd ar-lein - i normaleiddio agweddau ac ymddygiadau misogynistaidd. Canfu [ymchwil Ofcom] fod menywod yn llawer llai tebygol na dynion o gredu bod manteision bod ar-lein yn drech na'r risgiau, ac o ddweud eu bod yn gallu rhannu eu barn a chael llais ar-lein. Mae cynnwys niweidiol posibl ar-lein hefyd yn fwy tebygol o gael effaith niweidiol ar fenywod a merched. Ar yr un pryd, mae tystiolaeth yn dangos bod y ffordd mae darparwyr yn gweithredu ac yn moneteiddio cynnwys yn gallu gwthio dynion a bechgyn tuag at gynnwys sy'n normaleiddio, yn mawrygu ac yn annog camdriniaeth fisogynistaidd a thrais rhywiol.[15] Mae diwylliannau ar-lein sy'n hyrwyddo gweithredoedd ac agweddau sy'n difrïo, gormesu ac fel arall yn niweidio menywod a merched yn cael dylanwad ehangach ar agweddau ac ymddygiad ar-lein ac yn y byd all-lein.

1.14 Ar gyfer y Canllawiau hyn, rydym yn canolbwyntio ar bedwar math o niwed sy'n gorgyffwrdd o ganlyniad i gynnwys a gweithgarwch sy'n dod o dan y dyletswyddau o dan y Ddeddf ac sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. Rydym yn cyfeirio at y rhain gyda'i gilydd fel **niwed ar-lein ar sail rhywedd**:[16]

- **Cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol:** Mae hyn yn disgrifio cylchredeg – neu hyrwyddo – cynnwys camdriniol, cas a threisgar sy'n mynd ati'n weithredol i annog neu gadarnhau syniadau neu ymddygiadau sy'n gysylltiedig â chasineb at fenywod, gan gynnwys drwy normaleiddio trais rhywiol. Mae hyn yn cynnwys deunydd anghyfreithlon (e.e. bygythiadau a cham-drin anghyfreithlon) a chynnwys sy'n niweidiol i blant (e.e. cynnwys camdriniol, cas a threisgar), sy'n aml yn cael ei ehangu'n algorithmig a'i dargedu at ddynion a bechgyn ifanc.
- **Beirniadu torfol ac aflonyddu ar-lein**: Mae hyn yn disgrifio achosion lle mae grwpiau o bobl yn cydlynu i dargedu menyw neu ferch benodol, neu grwpiau o fenywod a merched gyda chamdriniaeth, casineb a bygythiadau treisgar. Yn yr un modd â thrais rhywiol a cham-drin misogynistaidd, gall hyn gynnwys deunydd anghyfreithlon (e.e. bygythiadau a chamddefnyddio delweddau personol) a chynnwys sy'n niweidiol i blant (e.e. cynnwys treisgar, cas a chamdriniol). Er bod beirniadu torfol yn gallu digwydd i unrhyw ddefnyddiwr, mae'n aml yn targedu menywod mewn bywyd cyhoeddus, fel newyddiadurwyr a gwleidyddion.
- **Stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth**: Mae hyn yn disgrifio troseddau sy'n ymwneud â defnyddio technoleg ar gyfer (a) stelcio; neu (b) ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli yng nghyd-destun perthynas agos neu deuluol.
- **Cam-drin rhywiol ar sail delweddau**: Mae hyn yn cyfeirio at droseddau (a) camddefnyddio delweddau personol (rhannu delweddau personol heb ganiatâd) a (b)

---

[15] Cymorth i Fenywod, 2023. Influencers and Attitudes: How will the next generation understand domestic abuse?. [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; Vera-Gray, F., McGlynn, C., Kureshi, I., Butterby, K., 2021. Sexual violence as a sexual script in mainstream online pornography, *The British Journal of Criminology*, 61 (5). [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; Vodafone, 2024. AI 'Aggro-rithms': young boys are served harmful content within 60 seconds of being online. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[16] Dyma'r term rydym yn ei ddefnyddio i ddisgrifio ein dull gweithredu ar gyfer 'cynnwys a gweithgarwch sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched' fel y nodir yn adran 54 y Ddeddf. Mae termau cyffredin eraill i ddisgrifio'r niwed hwn, gan gynnwys trais ar-lein yn erbyn menywod a merched (VAWG) a thrais ar sail rhywedd a hwylusir gan dechnoleg. Er bod y termau eraill hyn yn cyfeirio at is-set debyg o niwed, rydym wedi dewis niwed ar-lein ar sail rhywedd gan ei fod yn adlewyrchu cwmpas y Canllawiau orau.

seiberfflachio (anfon delweddau anweddus at rywun heb ei ganiatâd). Rydyn ni hefyd yn ymdrin â delweddau anweddus sydd wedi cael eu cynhyrchu gan yr unigolyn.[17]

1.15 Er bod y niwed hwn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, nad yw'r niwed wedi'i gyfyngu'n llwyr i fenywod a merched. Gall unrhyw un gael ei dargedu gan ymosodiadau torfol, camddefnyddio delweddau personol, stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth. Ar ben hynny, mae cynnwys misogynistaidd camdriniol yn aml yn cael ei wthio tuag at fechgyn ac roedd adborth gan randdeiliaid yn tynnu sylw at y ffaith bod bechgyn yn aml yn teimlo bod y cynnwys hwn yn peri gofid iddynt. Gall normaleiddio naratifau a chredoau niweidiol ynghylch gwrywdod sy'n effeithio arnynt.[18] Rydym yn rhoi rhagor o fanylion am sut mae'r niwed hwn yn dod i'r amlwg a'i effeithiau ym Mhennod 2.

1.16 Fel y nodwyd uchod, rydym wedi ystyried goblygiadau'r Canllawiau hyn yn ofalus. Yn benodol nodwyd amrywiaeth eang o gynnwys, ar hawliau defnyddwyr a rhyddid sylfaenol, gan gynnwys rhyddid mynegiant. Rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod y Canllawiau hyn yn gymesur â'r risg o niwed, gan ystyried y risg o niwed a all ddod i'r amlwg all-lein. Yn unol â'r ystyriaeth hon, mae'n bwysig nodi nad ydym yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau ddileu na monitro'n drwm yr holl gynnwys a gweithgarwch sy'n dod o dan y categori niwed eang. Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod yn iawn i ddarparwyr fabwysiadu dull cyfannol wrth archwilio effaith eu gwasanaethau ar ddiogelwch menywod a merched, gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu polisïau, eu hadnoddau a'r nodweddion maent yn eu cynnig i ddefnyddwyr, a sut gallai'r dewisiadau hynny effeithio ar ddiogelwch menywod a merched.

## Pa gamau yr ydym yn gofyn i ddarparwyr gwasanaethau eu cymryd?

1.17 Mae'r Ddeddf yn pwysleisio dull diogelwch drwy ddylunio i ddarparwyr leihau'r risgiau ar eu gwasanaethau o'r cychwyn cyntaf.[19] Mae hyn yn cynnwys gwella systemau neu nodweddion presennol ar wasanaethau hirsefydlog, yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau neu nodweddion newydd yn cael eu dylunio gyda diogelwch mewn golwg o'r cychwyn cyntaf.

1.18 Gan ddefnyddio'r dull diogelwch drwy ddylunio hwn, rydym yn nodi naw cam y gall darparwyr eu cymryd i fynd i'r afael â her niwed ar sail rhywedd ar-lein ar draws pob cam o ran gweithredu a dylunio eu gwasanaeth.[20] Mae Ffigur 1 yn nodi'r naw cam gweithredu, sydd wedi'u rhannu ar draws Pennod 3, Pennod 4, a Phennod 5:

---

[17]Mae Delweddau anweddus a gynhyrchwyd ganddyn nhw eu hunain (SGII) yn cyfeirio at ddelweddau rhywiol sy'n cael eu creu gan y plentyn ei hun. Mae holl SGII yn cael eu dosbarthu fel deunydd cam-drin plant yn rhywiol ac felly maent yn anghyfreithlon.

[18]Ofcom / Bwrdd Crwn Dynion a Bechgyn, 29 Mai 2025.

[19] Gweler, er enghraifft, adran 1(3) y Ddeddf sy'n egluro bod y dyletswyddau a osodir ar ddarparwyr yn y Ddeddf yn ceisio sicrhau (ymysg pethau eraill) bod gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan y Ddeddf hon yn ddiogel drwy ddyluniad.

[20]Mae ein dull yn seiliedig ar waith blaenorol sy'n defnyddio cysyniadau tebyg i ddangos sut mae mynd i'r afael â niwed ar-lein ar sail rhywedd a diogelwch ar-lein yn fwy cyffredinol, gan gynnwys llenyddiaeth academaidd ar ddiogelwch drwy ddylunio ac adroddiad gan y Comisiynydd eDdiogelwch ar fynd i'r afael â 'thrais ar sail rhywedd' drwy ddiogelwch drwy ddylunio. [cyrchwyd 03 Tachwedd 2025].




**Ffigur 1: Naw maes gweithredu ym Mhennod 3, Pennod 4, a Phennod 5**

1.19 Ar gyfer pob cam gweithredu, rydym yn egluro'n gyntaf lle rydym eisoes wedi nodi'r mesurau y gall darparwyr eu cymryd i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf sy'n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon ac amddiffyn plant. Daw'r wybodaeth hon o'r Codau a'r canllawiau asesu risg rydym wedi'u cyhoeddi ar draws ein gwaith ar niwed anghyfreithlon, amddiffyn plant, a thryloywder (dim ond fel sy'n berthnasol i nifer llai o ddarparwyr). Rydym yn cyfeirio at y rhain gyda'i gilydd fel **'camau sylfaenol'**. Mae'r camau hyn yn eang ac yn ymdrin â meysydd gan gynnwys cynnal asesiadau risg[21], adrodd ar dryloywder[22] a Chodau sy'n ymwneud â gwella diogelwch defnyddwyr.[23] Ar gyfer rhai o'r

---

[21]Bwriad ein canllawiau asesu risg yw helpu gwasanaethau i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y Ddeddf sy'n ymwneud ag asesiadau risg. Nid yw'n gyfres o gamau gorfodol y mae'n rhaid i wasanaethau eu cymryd. Cyhoeddwyd y Canllawiau Asesu Risg Cynnwys Anghyfreithlon ym mis Rhagfyr 2024. Cyhoeddwyd y Canllawiau Asesu Risg i Blant ym mis Ebrill 2025.

[22]Mae hyn yn berthnasol i wasanaethau wedi'u categoreiddio yn unig. Mae Adran 78(1) y Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer gwasanaethau o'r fath ynghylch y fframwaith adrodd ar dryloywder, ac rydym wedi cyhoeddi canllawiau yn unol â'r ddyletswydd honno.

[23]Mae codau'n disgrifio mesurau a argymhellir at ddibenion cydymffurfio â dyletswyddau. Os bydd darparwyr gwasanaethau'n rhoi mesurau a argymhellir mewn Codau ar waith, bydd gwasanaethau'n cael eu trin fel rhai sy'n cydymffurfio â'r dyletswyddau perthnasol. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn caniatáu i ddarparwyr

camau sylfaenol hyn, rydym yn cynnwys **astudiaethau achos** i ddangos sut y gallai gweithredu edrych mewn cyd-destun penodol, a sut y bydd y camau sylfaenol yn mynd i'r afael â niwed i fenywod a merched. Mae'r 'camau sylfaenol' yn berthnasol i wahanol wasanaethau ar sail swyddogaeth, risg a maint. Mae gwybodaeth am ba gam sylfaenol sy'n berthnasol i ba wasanaeth wedi'i nodi yn y ddogfen Cipolwg ar y Canllawiau.

1.20 Yn ail, rydym yn cynnwys **'camau arferion da'** sy'n nodi ffyrdd ymarferol y gall darparwyr fynd ymhellach i ddangos ymrwymiad i gymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch defnyddwyr ac atal ac ymateb i niwed ar-lein ar sail rhywedd.

Mae'r camau arferion da hyn yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys gweithdai a gynhaliwyd gennym gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ddiwedd 2024, yn ogystal â thystiolaeth a gasglwyd drwy'r broses ymgynghori. Rydym hefyd wedi defnyddio ymchwil academaidd, adroddiadau arbenigol, arferion y diwydiant a'n gwaith o dan ein dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.[24] Ar gyfer rhai o'r camau arferion da hyn, rydym hefyd yn cynnwys astudiaethau achos i ddangos sut y gallai gweithredu edrych mewn cyd-destun penodol, ac yn dangos sut gall ddarparwyr fynd i'r afael â meysydd niwed penodol fel cam-drin misogynistaidd neu gamddefnyddio delweddau personol.

1.21 Er bod y camau sylfaenol yn gysylltiedig â'r dyletswyddau y mae'n rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â nhw o dan y Ddeddf mewn perthynas â chynnwys anghyfreithlon ac amddiffyn plant, mae'r camau arferion da yn dangos ffyrdd ymarferol ac dichonadwy o fynd ymhellach. Rydym yn galw ar ddarparwyr i flaenoriaethu ymateb cyfannol i gam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol, ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol, stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth, a cham-drin rhywiol sy'n seiliedig ar ddelweddau.

1.22 Wrth gymryd unrhyw gamau, dylai darparwyr hefyd nodi'r angen i gydymffurfio ag unrhyw ddeddfau diogelu data perthnasol. Mae darparwyr yn dal yn atebol am eu rhwymedigaethau o dan y gyfraith diogelu data wrth weithredu unrhyw un o'r camau a nodir yn y Canllawiau.[25]

## Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol?

1.23 Mae'r Canllawiau'n nodi sut gall darparwyr gwasanaethau fynd i'r afael â chynnwys a gweithgarwch sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. I wneud hyn, rydym yn cynnwys nifer o gamau sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â niwed ar-lein ar sail rhywedd. Mae'r rhain yn amrywio o gynnal asesiadau risg gwell, i gyflwyno rhagosodiadau cryfach,

gwasanaethau fabwysiadu mesurau eraill, ar yr amod eu bod yn cadw cofnod o'r hyn maen nhw wedi'i wneud ac yn egluro sut maen nhw'n meddwl mae'r dyletswyddau diogelwch perthnasol wedi cael eu cyflawni. Daeth y Codau Cynnwys Anghyfreithlon i rym ym mis Mawrth 2025. Daeth y Codau Amddiffyn Plant i rym ym mis Gorffennaf 2025.

[24] Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac i gynnal ymchwil i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau o dan adran 11 Deddf Cyfathrebiadau 2003, gan gynnwys gwaith penodol sy'n ymwneud â chynnwys a gweithgarwch sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. Lle bo'n berthnasol, rydym yn defnyddio'r ddyletswydd hon a'n gwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i ddangos arferion da ar gyfer gwasanaethau ar-lein. Rydyn ni'n diffinio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fel "y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau ar draws nifer o fformatau a gwasanaethau".

[25] Mae canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ('ICO') ar GDPR y DU yn cynnig arweiniad ar asesu'n ofalus pa mor angenrheidiol a chymesur yw prosesu gwybodaeth bersonol, gan bennu faint o wybodaeth bersonol sydd ei hangen i gyflawni'r diben a fwriadwyd. Bydd angen i ddarparwyr hefyd sicrhau bod ganddynt sail gyfreithiol dros brosesu data personol o dan Erthygl 6 GDPR y DU. Gweler canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar seiliau cyfreithlon.

adroddiadau mwy cefnogol a rheolaethau defnyddwyr gwell i bawb ar y gwasanaeth. Pan fydd darparwyr yn cymryd y camau hyn, rydym yn disgwyl y bydd y safon diogelwch yn codi i unrhyw un sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac unrhyw un sy'n cael ei dargedu neu ei effeithio gan y niwed hwn.

1.24 Nid yw'r camau arferion da a nodir yn y canllawiau hyn yn gynhwysfawr. Mae technoleg yn esblygu'n gyflym ac mae'n debygol bod yna ymyriadau uchelgeisiol, effeithiol ac arloesol i sicrhau diogelwch menywod a merched nad ydym wedi'u cynnwys neu y gallem eu datblygu wrth i dechnoleg diogelwch ddatblygu. Byddem yn annog darparwyr gwasanaethau i archwilio'r atebion newydd hyn sy'n dod i'r amlwg a, lle bo'n bosibl, eu cyflwyno i'w systemau a'u prosesau.

1.25 Mae niwed yn esblygu'n gyflym ac rydym yn disgwyl i ddarparwyr edrych yn rheolaidd ar yr hyn y gallai fod angen iddynt ei wneud i ymateb i fygythiadau a risgiau sy'n newid o ganlyniad i niwed ar-lein ar sail rhywedd. Byddem hefyd yn disgwyl i wasanaethau sydd â'r risg uchaf a'r cyrhaeddiad mwyaf wneud mwy i sicrhau profiadau mwy diogel i fenywod a merched.

1.26 Yn olaf, nid ydym yn disgwyl y bydd angen i bob darparwr gwasanaeth gyflwyno'r holl gamau arfer da rydym wedi'u nodi o dan bob cam gweithredu, nac y byddant yn gallu gwneud hynny. Efallai mai dim ond i rai gwasanaethau penodol y bydd rhai camau'n berthnasol (er enghraifft oherwydd maint y sylfaen defnyddwyr, lefel risg, demograffeg defnyddwyr, dyluniad y gwasanaeth neu’r model busnes) ac rydym yn nodi hyn drwyddi draw. Er enghraifft, byddai'r ffordd mae niwed ar-lein ar sail rhywedd yn dod i'r amlwg ar wasanaethau chwilio yn wahanol i sut gallent ddod i'r amlwg ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, cwrdd â chariadon, chwarae gemau, pornograffi, rhannu ffeiliau agwasanaethau negeseuon.

# 2. Beth yw niwed ar-lein ar sail rhywedd?

2.1 Mae'r bennod hon yn egluro ein dealltwriaeth o niwed ar-lein ar sail rhywedd. Rydym yn nodi sut mae'r niwed hwn yn berthnasol i gynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant o dan y Ddeddf.[26] Rydym yn amlinellu tystiolaeth am sut mae niwed ar-lein ar sail rhywedd yn dod i'r amlwg, y tactegau gwahanol sy'n cael eu defnyddio gan y rheini sy'n cyflawni'r niwed hwn. Rydym yn nodi sut gall y camau arferion da yn y canllawiau hyn helpu darparwyr i fynd i'r afael â'r niwed hwn ar eu gwasanaethau.

2.2 I gael rhagor o wybodaeth am achosion ac effeithiau'r mathau o niwed penodol y cyfeirir atynt, gweler y Gofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon a'r Gofrestr Risgiau Plant. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn deall beth sydd o fewn ac y tu allan i gwmpas y mathau hyn o niwed, darllenwch ein Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon a'n Canllawiau ar Gynnwys Niweidiol i Blant.

## Cefndir

2.3 **Mae niwed ar-lein ar sail rhywedd yn systemig ac yn groestoriadol.** Maent yn ail-greu ac yn ehangu'r gwahaniaethu presennol ar sail rhywedd, gan gyflwyno mathau newydd o niwed weithiau.[27] Mae tystiolaeth yn dangos bod menywod a merched sydd â ffactorau ychwanegol gan gynnwys oedran, hil, ethnigrwydd, statws economaidd-gymdeithasol, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, anabledd a chrefydd, yn wynebu risgiau ac effeithiau mwy dwys a phenodol o niwed ar-lein sy'n seiliedig ar rywedd.[28] [29]

2.4 **Mae niwed ar-lein ac all-lein yn aml yn cyd-ddigwydd ac yn gorgyffwrdd.** Mae hyn yn arbennig o wir am fathau o niwed ar-lein sy'n seiliedig ar ryw sy'n cynnwys patrymau ymddygiad. Dywedodd y Llinell Gymorth Stelcio Genedlaethol fod pob achos sy'n cael ei gyflwyno i'r llinell gymorth yn cynnwys elfennau ar-lein.[30] Ar ben hynny, mae gwahanol fathau o niwed ar-lein ar sail rhywedd yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Er enghraifft, gall camddefnyddio delweddau personol fod yn fath o reolaeth drwy orfodaeth.[31]

---

[26] Am restr lawn o gynnwys anghyfreithlon a nodir o dan y Ddeddf, gweler Trosolwg o Niwed Anghyfreithlon sy'n diffinio ac yn categoreiddio dros 130 o 'droseddau blaenoriaeth'. Am restr lawn o gynnwys sy'n niweidiol i blant a nodir o dan y Ddeddf, gweler Canllawiau ar Gynnwys sy'n Niweidiol i Blant.

[27] The Global Partnership, 2023. Technology-Facilitated Gender-Based Violence: Preliminary Landscape Analysis. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[28] Crenshaw, K., 2013. Demarginalizing the Intersection of Race and Sex: A Black Feminist Critique of Antidiscrimination Doctrine, Feminist Theory and Antiracist Politics, *University of Chicago Legal Forum*, 1989 (1). [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; Gray, K. L. (2011). INTERSECTING OPPRESSIONS AND ONLINE COMMUNITIES: Examining the experiences of women of color in Xbox Live. *Information, Communication & Society*. [cyrchwyd 18 Awst 2025];

[29] Department for Science, Innovation & Technology and PUBLIC, 2025. Platform Design and the Risk of Online Violence Against Women and Girls. [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; The Global Partnership, 2023. Technology-Facilitated Gender-Based Violence: Preliminary Landscape Analysis. [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; UNESCO, 2023. Exposing Technology-Facilitated Gender-Based Violence in an Era of Generative AI. [cyrchwyd 24 Medi 2025].

[30] Suzy Lamplugh Trust, 2021. Unmasking Stalking: A Changing Landscape. [cyrchwyd 11 Awst 2025].

[31] Refuge, 2020. The Naked Threat. [cyrchwyd 30 Medi 2025].

2.5 **Mae niwed ar-lein ar sail rhywedd yn cael ei waethygu gan normau cymdeithasol fel beio dioddefwyr.** Dywedir yn aml wrth fenywod a merched sy'n cael eu cam-drin y dylent fod wedi gwneud mwy i gadw eu hunain yn ddiogel ac y gellir eu beio am fod ar-lein. Mae hyn yn arwain at faich diangen ar fenywod a merched i osgoi, ymateb ac ymdopi â niwed ar sail rhywedd.[32] Gelwir hyn yn 'waith diogelwch'[33] ac mae'n amharu ar eu gallu i gyfranogi'n rhydd mewn bywyd ar-lein.

2.6 **Gall niwed ar-lein ar sail rhywedd gyfyngu ar hawliau dynol menywod a merched.** Gall dioddef niwed ar-lein ar sail rhywedd effeithio ar hawl menywod a merched i fyw'n rhydd rhag trais ac ofn a gall hefyd effeithio ar eu hawl i breifatrwydd. Gall camdriniaeth, neu ofn camdriniaeth, gyfyngu ar allu menywod a merched i fynegi eu hunain yn rhydd a chymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol.

## Niwed ar-lein ar sail rhywedd

2.7 Mae'r argymhellion yn y Canllawiau hyn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â phedwar categori o niwed ar-lein ar sail rhywedd, y mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched:

- **a)** Cam-drin a thrais misogynistaidd;
- **b)** Ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol;
- **c)** Stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth; a
- **d)** Cham-drin rhywiol ar sail delweddau, gan gynnwys camddefnyddio delweddau personol, delweddau anweddus wedi'u cynhyrchu gan yr unigolyn a seiberfflachio.

2.8 Nid yw'r pedwar categori hyn yn cynnwys pob math o ddeunydd a gweithgarwch niweidiol a allai effeithio ar brofiadau menywod a merched ar-lein,[34] fel meithrin perthynas amhriodol at ddibenion cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSEA), caethwasiaeth fodern a masnachu pobl, a deunydd anhwylderau bwyta. Mae'r mathau hyn o niwed naill ai'n droseddau blaenoriaeth ar gyfer niwed anghyfreithlon neu'n gynnwys prif flaenoriaeth ar gyfer amddiffyn plant o dan y Ddeddf. Rydym yn nodi ein hargymhellion ar gyfer sut gall darparwyr gwasanaethau asesu a lliniaru'r risg o'r niwed hwn yn ein Codau a'n canllawiau sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

2.9 Mae niwed ar-lein ar sail rhywedd yn esblygu'n gyson ochr yn ochr â datblygiadau technolegol. Mae hyn yn golygu bod mathau newydd o niwed, a ffyrdd newydd y mae niwed sy'n bodoli eisoes yn cael eu hamlygu, yn dod i'r amlwg drwy'r amser. Mae'r Canllawiau hyn yn nodi'r camau lefel uchel y gall darparwyr eu cymryd i fynd i'r afael â niwed ar-lein ar sail rhywedd beth bynnag fo'r tactegau neu'r technolegau a ddefnyddir gan gyflawnwyr.

---

[32] Vera-Gray, F. and Kelly, L., 2020. Contested gendered space: public sexual harassment and women's safety work, *International Journal of Comparative and Applied Criminal Justice*, 44 (4). [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[33] Gillett, R., 2021. "This is not a nice safe space": investigating women's safety work on Tinder, *Feminist Media Studies*, 23 (1). [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[34] Rydym yn cydnabod bod rhai mathau o gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ('CSEA') yn effeithio'n anghymesur ar ferched. Er enghraifft, mae merched mewn mwy o berygl o brofi meithrin perthynas amhriodol a chael eu portreadu mewn deunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM). Nid ydym yn canolbwyntio ar CSEA yn y canllawiau hyn, ond rydym yn tynnu sylw at fesurau CSEA a nodir yn y Cod Cynnwys Anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr fel y maent yn berthnasol i ferched. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai o'r ffyrdd y mae CSEA yn dod i'r amlwg ar-lein, fel delweddau anweddus wedi'u cynhyrchu gan yr unigolyn, yn gorgyffwrdd â thrais ar sail rhywedd ar-lein. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar Adran 2 Cofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon.

2.10 Gall fod yn heriol i ddarparwyr adnabod niwed ar-lein ar sail rhywedd. Dylai darparwyr ystyried y cyd-destun ychwanegol sydd ar gael am gynnwys a gweithgarwch perthnasol, a sut mae'n cael ei gyflwyno ar y gwasanaeth. Gallai hyn gynnwys defnyddio geiriau cod, a oes patrwm ymddygiad ehangach yn bresennol, a lle bo hynny'n briodol, gwybodaeth am y cyflawnwr.

## Ein dull gweithredu

2.11 Mae'r Canllawiau hyn yn canolbwyntio ar y pedwar categori o niwed ar-lein ar sail rhywedd a restrir uchod. Ar gyfer pob un o'r meysydd niwed hyn, fe wnaethom ymgysylltu â thystiolaeth ansoddol a meintiol i ddeall yr effaith anghymesur ac unigryw y mae'r niwed yn ei chael ar fenywod a merched - gallai hyn fod ar y sail bod menywod a merched yn fwy tebygol o brofi'r niwed, bod y niwed yn cael effaith anghymesur ar fenywod a merched, neu'r ddau.

2.12 Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau o ran yr ymchwil a'r data sydd ar gael ar niwed ar-lein ar sail rhywedd. Yn gyntaf, mae tan-adrodd yn debygol ar draws yr holl fathau o niwed ar-lein sy'n seiliedig ar rywedd, oherwydd rhai grwpiau, gan gynnwys dynion a bechgyn a menywod a merched â nodweddion ychwanegol, yn wynebu rhwystrau penodol a stigma cymdeithasol ynghylch riportio. Gall hyn effeithio ar ein dealltwriaeth o ba mor eang yw niwed ar-lein sy’n seiliedig ar ryw a phwy sy'n ei brofi. Yn ail, mae tirwedd a therminoleg niwed ar-lein ar sail rhywedd wedi datblygu dros amser. Mae hyn yn golygu nad oes gan y sylfaen dystiolaeth sy'n mynd i'r afael â sut mae niwed hyn yn dod i'r amlwg ddiffiniadau cyson bob amser, sy'n gwneud cymariaethau cadarn yn heriol.[35]

2.13 Rydym hefyd yn ystyried pa niwed sy'n cael effaith benodol ar fenywod a merched. At ddibenion y Canllawiau hyn, rydym yn edrych ar dystiolaeth ynghylch effaith niwed ar-lein ar sail rhywedd ar faterion fel normaleiddio cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol a phrofiadau penodol menywod mewn bywyd cyhoeddus sy'n cael eu targedu gan ymosodiadau torfol.

2.14 Nid yw'r un o'r niweidiau ar-lein ar sail rhywedd rydym yn canolbwyntio arnynt yn effeithio ar fenywod a merched yn unig. Gall unrhyw un ddod ar draws y niweidiau hyn neu fod yn darged i gyflawnwyr. Felly, bydd y camau arferion da a nodir yn y Canllawiau hyn yn lleihau niwed yn fwy eang, drwy wella sut mae darparwyr gwasanaethau yn cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch defnyddwyr, yn atal y niweidiau hyn rhag digwydd, ac yn ymateb iddynt pan fyddant yn gwneud hynny.

2.15 Wrth archwilio effeithiau anghymesur ar fenywod a merched, rydym yn ystyried sut gall nifer o nodweddion gyfuno i wneud pobl yn fwy agored i niwed ar-lein sy’n seiliedig ar ryw. Er enghraifft, mae gwleidyddion benywaidd o grwpiau ymylol yn fwy tebygol o gael eu targedu gan bobl sy'n cyflawni ymosodiadau torfol oherwydd eu hil neu ethnigrwydd,[36] a gall mathau o wahaniaethu sy'n gorgyffwrdd effeithio ar sut mae gwasanaethau yn canfod ac yn

[35] King's Global Institute for Women's Leadership (Schmid, C., Fearnside, H., and Rohregger, N.), 2024. Measuring Gender Equality in the UK: Data on Violence Against Women and Girls. [Cyrchwyd 10 Hydref 2025].
[36] Mewn astudiaeth gan Amnest Rhyngwladol, derbyniodd ASau sy'n fenywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) bron i hanner (41%) y trydariadau sarhaus yn y cyfnod cyn etholiad 2017, er bod bron i wyth gwaith yn fwy o ASau gwyn yn yr astudiaeth. Ffynhonnell: Amnesty International UK, 2017. Black and Asian Women MPs Abused More Online. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

ymateb i hyn hefyd.[37] Gall niwed ar-lein ar sail rhywedd hefyd gael effaith anghymesur ar ddynion a bechgyn sydd â nodweddion gwarchodedig ychwanegol. Mae pobl drawsryweddol[38] ac anneuaidd[39] yn wynebu mwy o risg o niwed ar-lein ar sail rhywedd. Yn dibynnu ar faint sampl yr ymchwil, ni ellir bob amser nodi effaith nodweddion croestoriadol drwy ymchwil feintiol. Fodd bynnag, drwy gydol y Canllawiau hyn rydym wedi ceisio tynnu sylw at dystiolaeth ynghylch lle gallai ein pedwar maes niwed allweddol effeithio'n anghymesur ar y rheini sydd â nodweddion ychwanegol.

## Cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol

2.16 Yn yr adran hon ar gam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol, rydym yn canolbwyntio ar gam-drin, trais a chasineb sydd wedi'u targedu at fenywod a merched fel grŵp. Mae hyn yn cynnwys bygythiadau a cham-drin, sy'n cael sylw yn y Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon. Mae hefyd yn ymdrin â'r mathau canlynol o gynnwys sy'n niweidiol i blant, sy'n cael sylw yn y Canllawiau ar Gynnwys sy'n Niweidiol i Blant: cynnwys difrïol a chas a chynnwys treisgar. Rydym hefyd yn trafod cynnwys sy'n dangos trais rhywiol, gan gynnwys rhai mathau o gynnwys pornograffig.

2.17 Mae cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol yn disgrifio cynnwys a gweithgarwch sy'n normaleiddio, yn annog neu'n atgyfnerthu agweddau ac ymddygiadau sy'n hyrwyddo cam-drin, trais neu gasineb wedi'i dargedu at fenywod a merched. Nid yw cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol yn cael ei dargedu at ferch neu fenyw benodol bob amser, ond gall gynnwys syniadau niweidiol a gwahaniaethol am fenywod a merched yn gyffredinol neu am glamoreiddio trais yn eu herbyn, megis post sy'n mynegi'r farn y dylai menywod a merched gael eu darostwng gan ddynion neu sylw sy'n gogoneddu ymddygiad gorfodol a rheoli.

2.18 Drwy ddiffiniad, mae cam-drin misogynistaidd yn cael effaith benodol ar fenywod a merched oherwydd mai nhw yw'r grŵp sy'n cael ei dargedu. Maen nhw'n fwy tebygol o weld neu brofi cynnwys neu iaith ar-lein sy'n gwrthrycholi, diraddio neu fel arall yn portreadu menywod yn negyddol, ac maen nhw'n fwy tebygol o fod yn bryderus iawn am y niwed

[37] Wilson Center (Jankowicz, N., Hunchak, J., Pavliuc, A., Davies, C., Pierson, S. and Kaufmann, Z.), 2021. Malign Creativity: How Gender, Sex, and Lies are Weaponized Against Women Online. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].
[38] Ymatebion i'n hymgynghoriad ym mis Chwefror 2025: Galop, p.1-4; The Minderoo Centre for Technology and Democracy at the University of Cambridge, p.2; NSPCC, pp.7-8.
[39] Mae tystiolaeth yn awgrymu bod pobl anneuaidd yn cael profiadau ar-lein gwahanol, er bod meintiau sampl bach yn cyfyngu ar gymariaethau ar draws grwpiau. Yn ymchwil ehangach Ofcom ar ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU, nododd 62 o ymatebwyr 18 oed+ eu bod yn anneuaidd. Mae'r canfyddiadau'n dangos eu bod yn fwy tebygol na dynion 18 oed+ o ddod ar draws cynnwys a allai fod yn niweidiol: portreadau sy'n gwrthrycholi neu'n diraddio menywod (51% o'i gymharu â 17%), codi cywilydd ar grwpiau ar sail safbwyntiau (35% o'i gymharu â 13%), a seiber-stelcio neu aflonyddu (13% o'i gymharu â 5%). Ffynhonnell: Ofcom, 2025. Online Experiences Tracker – Wave 8.

hwn.[40] Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos bod dynion a bechgyn hefyd yn dod i gysylltiad â'r cynnwys hwn, a bod y cynnwys hwn yn cael effaith negyddol arnynt.[41]

2.19 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod credoau misogynistaidd sy'n dechrau ar-lein yn gallu arwain at drais all-lein, mewn mannau cyhoeddus a phreifat.[42]

## Cam-drin misogynistaidd

2.20 Mae cam-drin misogynistaidd yn cael eu cyflawni a'u gweld mewn amrywiaeth o fannau ar-lein, ar draws gwasanaethau mwy sy'n gwasanaethu llawer o gynulleidfaoedd, a gwasanaethau a chymunedau llai sydd wedi ymrwymo i ledaenu agweddau ac ymddygiad misogynistaidd.

2.21 Ar wasanaethau mwy, gall cam-drin misogynistaidd gynnwys deunydd sy'n cymell casineb tuag at fenywod ac sy'n normaleiddio syniadau niweidiol am sut y dylai dynion a bechgyn ymddwyn tuag at fenywod a merched, gan gynnwys drwy ganmol camdriniaeth.

2.22 Mae llawer o'r cynnwys mwyaf poblogaidd yn cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr â llawer o ddilynwyr. Mae'r cynnwys wedi'i fframio fel adloniant, sy'n cyd-fynd â diddordebau fel hunanwella neu chwarae gemau, a defnyddio fformatau fel memynnau a straeon ysbrydoledig.[43]

2.23 Mae tystiolaeth yn tynnu sylw at ddylanwad y rheini sy'n creu cynnwys misogynistaidd, neu 'ddylanwadwyr', ar y cynnydd mewn misogynedd mewn ysgolion yn y Deyrnas Unedig.[44] Mae bechgyn yn llawer mwy tebygol na merched o fod wedi gweld cynnwys gan ddylanwadwyr o'r fath, a'u bod yn llawer mwy tebygol o fod â barn gadarnhaol am y cynnwys maen nhw'n ei gynhyrchu.[45] Mae'r amlygiad cyson hwn i gam-drin misogynistaidd yn normaleiddio agweddau niweidiol at fenywod a merched, ac yn creu canfyddiadau afiach o berthnasoedd, yn ogystal â chanfyddiad gwyrgam o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddyn llwyddiannus a deniadol. Er enghraifft, mae plant a phobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r cynnwys hwn bron i bum gwaith yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad bod “brifo rhywun yn gorfforol yn iawn os ydych chi'n ymddiheuro wedyn”.[46]

---

[40] Mae menywod sy'n defnyddio'r rhyngrwyd sy'n 18 oed a hŷn yn y DU yn fwy tebygol na dynion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd sy'n 18 oed a hŷn yn y DU o ddweud eu bod wedi gweld neu brofi rhywbeth ar-lein yn ystod y pedair wythnos diwethaf sy'n gwrthrycholi, yn difrïo neu'n portreadu menywod mewn ffordd negyddol fel arall (23% o ddefnyddwyr benywaidd, o'i gymharu â 17% o ddefnyddwyr gwrywaidd). Mae menywod sy'n defnyddio'r rhyngrwyd hefyd yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn poeni'n fawr am y cynnwys hwn (60% o ddefnyddwyr benywaidd, o'i gymharu â 38% o ddefnyddwyr gwrywaidd). Ffynhonnell: Ofcom, 2025. Online Experiences Tracker – Wave 8.

[41] Ofcom, 2025. Online Experiences Tracker – Wave 8.

[42] Institute for Strategic Dialogue (Bundtzen, S.), 2023. Misogynistic Pathways to Radicalisation: Recommended Measures for Platforms to Assess and Mitigate Online Gender-Based Violence. [cyrchwyd 31 Hydref 2025].

[43] Regehr, K., Shaughnessy, C., Zhao, M. and Shaughnessy, N., 2024. Safer Scrolling: algorithms popularise and gamify online hate and misogyny for young people. [cyrchwyd 20 Awst 2025]; Cymorth i Fenywod, 2023. Influencers and Attitudes: How will the next generation understand domestic abuse?. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[44] Das NETTZ, Textgain, and Federal Association for Countering Online Hate, 2024. Tracing Online Misogyny: An analysis of misogynist ideologies and practices from a German-international perspective. [cyrchwyd 03 Tachwedd 2025].

[45] Internet Matters, 2023. “It's really easy to go down that path": Young people's experiences of online misogyny and image-based abuse. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[46] Roedd 19% o'r cyfranogwyr 7-18 oed a oedd wedi dod i gysylltiad â chynnwys gan ddylanwadwyr misogynistaidd yn credu bod “brifo rhywun yn gorfforol yn iawn os ydych chi'n ymddiheuro ar ôl eu brifo”, o'i

2.24 Mae'n bosibl y bydd gwasanaethau, a chrewyr cynnwys unigol, yn elwa'n ariannol o gynnwys sy'n fwy 'dychrynllyd' neu 'eithafol'. Mae tystiolaeth yn dangos bod systemau argymell yn gwobrwyo dylanwadwyr sy'n creu cynnwys sy'n hyrwyddo cam-drin misogynistaidd gyda mwy o gyrhaeddiad, yn enwedig ymysg bechgyn a dynion ifanc.[47] Mae hyn yn digwydd oherwydd bod algorithmau wedi'u hoptimeiddio ar gyfer ymgysylltu uchel, sy'n gallu cymell cynhyrchu a dod i gysylltiad â chynnwys sy'n polareiddio a niweidio.[48] Mae'r effeithiau hyn yn cael eu gwaethygu gan nodweddion dylunio gwasanaeth fel ffrydiau diddiwedd a gosodiadau awtochwarae gan fod defnyddwyr yn llai tebygol o ddewis y darn nesaf o gynnwys maen nhw'n ymgysylltu ag ef. Er enghraifft, mae ymchwil wedi canfod bod pobl ifanc sy'n chwilio am ffrindiau, cyngor neu grwpiau a rennir yn derbyn cynnwys sy'n fwyfwy misogynistaidd drwy eu ffrydiau argymell.[49]

2.25 Yn y Canllawiau hyn, rydym yn tynnu sylw at gamau arferion da y gall darparwyr gwasanaethau eu cymryd i leihau cylchrediad a gwelededd cynnwys niweidiol, megis cam-drin misogynistaidd. Mae'r rhain yn cynnwys dadflaenoriaethu cynnwys niweidiol mewn algorithmau argymell a dad-foneteiddio cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr sy'n hyrwyddo niwed ar-lein ar sail rhywedd.

2.26 Mae cam-drin misogynistaidd hefyd yn gallu cael ei gyflawni mewn gwasanaethau neu gymunedau penodol, llai. Gall pobl ifanc sy'n unig, yn ynysig, neu sydd â phryderon iechyd meddwl gael eu denu i gymunedau mwy radical a misogynistaidd.[50] Er eu bod yn amrywio o ran maint, gweithrediad a threfniadaeth, mae cymunedau o'r fath yn debyg o ran hyrwyddo, dychmygu a threfnu agweddau ac ymddygiadau hynod fisogynistaidd, sy'n aml yn gorgyffwrdd â safbwyntiau gwahaniaethol [51] ac eithafol eraill.

2.27 Mae cyflawnwyr mewn cymunedau misogynistaidd yn aml yn defnyddio delweddau fel rhan o'u camdriniaeth. Gall hyn gynnwys creu a rhannu 'delweddau semen'[52] neu ddelweddau sy'n portreadu senarios personol yn seiliedig ar gyd-destunau diwylliannol neu grefyddol penodol.[53] Gall cam-drin yn erbyn pobl LHDT+ hefyd gynnwys delweddau sy'n datgelu rhywioldeb person sy'n arwain at 'wahaniaethu' a delweddau ffugiad dwfn sy'n 'dad-drawsio' pobl drawsryweddol.[54]

---

gymharu â 4% o'r rheini nad ydyn nhw wedi dod i gysylltiad â hynny. Ffynhonnell: Cymorth i Fenywod, 2023. Influencers and Attitudes: How will the next generation understand domestic abuse?. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[47] Vodafone, 2024. AI 'Aggro-rithms': young boys are served harmful content within 60 seconds of being online. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[48] Ofcom, 2025. Children's Register of Risks.

[49] Internet Matters, 2023. "It's really easy to go down that path": Young people's experiences of online misogyny and image-based abuse. [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; Vodafone, 2024. AI 'Aggro-rithms': young boys are served harmful content within 60 seconds of being online. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[50] Das NETTZ, Textgain, and Federal Association for Countering Online Hate, 2024. Tracing Online Misogyny: An analysis of misogynist ideologies and practices from a German-international perspective. [cyrchwyd 03 Tachwedd 2025]; Griffin, J., 2021. Incels: Inside a dark world of online hate, BBC News, 13 August. [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; Vodafone, 2024. AI 'Aggro-rithms': young boys are served harmful content within 60 seconds of being online. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[51] Das NETTZ, Textgain, and Federal Association for Countering Online Hate, 2024. Tracing Online Misogyny: An analysis of misogynist ideologies and practices from a German-international perspective. [cyrchwyd 03 Tachwedd 2025].

[52] Delweddau neu fideos lle mae semen yn cael ei ddarlunio ar ben delwedd nad yw'n bersonol.

[53] Comisiwn y Gyfraith, 2022. Intimate image abuse: a final report. [cyrchwyd 28 Hydref 2025].

[54] Ymateb i'n hymgynghoriad ym mis Chwefror 2025: Galop, p.4.

2.28 Mae rhai o'r cymunedau hyn yn hyrwyddo anhysbysrwydd defnyddwyr drwy normau cymunedol neu swyddogaethau gwasanaeth. Mae rhai cymunedau, fel grwpiau 'incel', yn defnyddio iaith a symbolau wedi'u codio nad ydynt yn cael eu hadnabod na'u deall yn eang.[55]

2.29 Mae natur gaeedig a phenodol y cymunedau hyn yn golygu efallai na fydd rhai o'r camau arferion da yn y Canllawiau hyn, fel galluogi adroddiadau defnyddwyr, yn effeithiol yn y cyd-destunau hyn. Fodd bynnag, gall darparwyr gwasanaethau fynd i'r afael â'r cymunedau hyn o hyd, er enghraifft drwy gynnal asesiadau risg ac ymateb yn briodol pan fydd niwed yn digwydd.

## Trais rhywiol

2.30 Math cyffredin o gynnwys treisgar sy'n targedu menywod a merched yw cynnwys sy'n dangos, yn galw, yn annog neu'n normaleiddio trais rhywiol. Mae trais rhywiol yn targedu menywod yn anghymesur ac mae portreadau ar-lein o drais rhywiol yn amlygu ac yn atgyfnerthu patrymau presennol o drais all-lein.[56]

2.31 Gall hyn gynnwys rhai mathau o bornograffi eithafol sy'n gynnwys anghyfreithlon.[57] Bydd dangos unrhyw weithred o dagu mewn pornograffi hefyd yn cael ei wneud yn anghyfreithlon.[58] Fodd bynnag, gall cynnwys sy'n dangos trais rhywiol gynnwys rhai mathau o bornograffi cyfreithiol.[59] Mae tystiolaeth yn dangos bod cynnwys sy'n dangos trais rhywiol ar gael ar safleoedd pornograffi prif ffrwd a llai poblogaidd.[60]

2.32 Mae 'sgriptiau rhywiol' yn cyfeirio at yr ymddygiadau a'r agweddau rhywiol y mae unigolyn yn eu hystyried neu'n eu deall fel rhai pleserus neu dderbyniol, o ganlyniad i'w amgylchedd cymdeithasol. Mae ymchwil yn awgrymu bod edrych ar gynnwys pornograffig yn cyfrannu at y sgriptiau rhywiol sydd gan y gwyliwr.[61] Mae ymchwil yn dangos bod cynnwys sy'n dangos trais rhywiol yn cyfrannu at sgriptiau rhywiol sy'n normaleiddio ymddygiad niweidiol a gorfodol a gall arwain at ddefnyddwyr yn bod yn llai tebygol o ddeall pa weithredoedd rhywiol sy'n anghyfreithlon neu'n niweidiol. Gall hyn yn ei dro normaleiddio ymddygiad niweidiol, fel tagu,[62] a chyfrannu at sicrhau bod trais rhywiol yn

---

[55] Moonshot, 2021. Incels: A Guide to Symbols and Terminology. [cyrchwyd 25 Medi 2025].

[56] Canfu Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2022 fod menywod yn fwy tebygol o ddioddef ymosodiad rhywiol (roedd 27% o fenywod 16 oed a hŷn wedi profi ymosodiad rhywiol gan gynnwys ymdrechion ers yn 16 oed o'i gymharu â 5.7% o ddynion 16 oed a hŷn). Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Crime Survey for England and Wales 2022. [cyrchwyd 16 Hydref 2025].

[57] Mae pornograffi eithafol yn disgrifio categori o ddeunydd rhywiol anghyfreithlon sy'n cynnwys deunydd sy'n dangos ymddygiad heb gydsyniad, trais corfforol a bygythiadau i fywyd. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y Gofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon.

[58] Cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd portreadu tagu mewn pornograffi yn cael ei ddynodi'n drosedd â blaenoriaeth o dan y Ddeddf. Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, 2025. New laws to target online abuse and pornography. [cyrchwyd 13 Hydref 2025].

[59] Mae cynnwys pornograffig yn Gynnwys Prif Flaenoriaeth y mae'n rhaid amddiffyn plant rhag dod ar ei draws.

[60] Bertin, G., 2025. Creating a Safer World – the Challenge of Regulating Online Pornography. [cyrchwyd 26 Awst 2025].

[61] Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar y cysylltiad rhwng pornograffi a sgriptiau rhywiol yn canolbwyntio ar ddynion ifanc. Roedd y sampl ar gyfer yr astudiaeth ymchwil yn cynnwys 462 o ddynion oed coleg yn yr Unol Daleithiau. Ffynhonnell: Marshall, E., Miller, H. and Bouffard, J., 2018. Bridging the Theoretical Gap: Using Sexual Script Theory to Explain the Relationship Between Pornography Use and Sexual Coercion, *Journal of Interpersonal Violence,* 36 (9- 10). [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[62] Bertin, G., 2025. Creating a Safer World – the Challenge of Regulating Online Pornography. [cyrchwyd 26 Awst 2025].

dod yn fwy derbyniol yn gymdeithasol neu'n mynd heb ei adrodd.[63] Gall hefyd effeithio ar agweddau tuag at gydsyniad, gan ei fod yn aml yn cael ei awgrymu (yn hytrach na'i drafod) mewn cynnwys pornograffig.[64]

2.33 Ar ben hynny, gall systemau argymell hefyd gynyddu'r risg y bydd defnyddwyr yn dod i gysylltiad â chynnwys sy'n dangos trais rhywiol. Mae tystiolaeth yn dangos bod cynnwys rhywiol treisgar yn cael ei argymell hyd yn oed i wylwyr tro cyntaf safleoedd pornograffi[65] a chanfu astudiaeth ymchwil fod 12% o gynnwys niweidiol ar dudalennau glanio'r tri phrif wasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr i oedolion yn y DU yn disgrifio gweithgarwch rhywiol a oedd yn gyfystyr â thrais rhywiol.[66]

2.34 Yn y Canllawiau hyn, rydym yn edrych ar gamau arferion da sy'n arbennig o berthnasol i wasanaethau sy'n caniatáu cynnwys pornograffig. Er enghraifft, dylai darparwyr gwasanaethau sy'n caniatáu cynnwys pornograffig fod yn ymwybodol bod gwasanaethau o'r fath mewn mwy o berygl o westeio cynnwys rhywiol treisgar. Rydym yn nodi sut gall darparwyr ymgynghori ag arbenigwyr pwnc i ystyried sut mae mynd i'r afael â chynnwys rhywiol treisgar.

2.35 Ar ben hynny, gall rhywfaint o gynnwys nad yw'n rhywiol amlwg annog neu normaleiddio trais rhywiol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, bygythiadau o ymosodiad rhywiol neu gynnwys sy'n beio dioddefwyr sy'n diraddio goroeswyr a dioddefwyr trais rhywiol.

2.36 Mae cynnwys sy'n normaleiddio trais rhywiol hefyd yn gallu cael ei greu a'i rannu drwy sgwrsfotiau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ('GenAI'), sy'n gallu efelychu algorithmau rhagfarnllyd a data hyfforddi.[67] [68] Yng nghyd-destun sgwrsfotiau 'cariad AI' benywaidd neu wrywaidd, gellir atgyfnerthu stereoteipiau niweidiol ar sail rhywedd ynghylch perthnasoedd rhywiol, er enghraifft, y dylai menywod a merched fod yn ymostyngol a bod ar gael yn rhywiol bob amser.[69]

---

[63] Mae ymchwilwyr wedi dadlau bod argaeledd cynnwys pornograffig eithafol - gan gynnwys treisio a threiddiad rhywiol heb gydsyniad - yn cynnal diwylliant lle nad yw trais rhywiol yn cael ei gymryd o ddifri a lle mae perygl iddo gael ei normaleiddio. Ffynhonnell: Vera-Gray, F., McGlynn, C., Kureshi, I. a Butterby, K., 2021. Sexual violence as a sexual script in mainstream online pornography, *The British Journal of Criminology*, 61 (5). [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[64] BBFC and Revealing Reality, 2020. Young people, Pornography & Age-verification. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[65] Vera-Gray, F., McGlynn, C., Kureshi, I. a Butterby, K., 2021. Sexual violence as a sexual script in mainstream online pornography, *The British Journal of Criminology*, 61 (5). [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[66] Ar gyfer eu hastudiaeth, defnyddiodd yr awduron ddiffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o drais rhywiol, sy'n debygol o gynnwys cynnwys pornograffig eithafol a chynnwys pornograffig cyfreithiol. Roeddent yn canolbwyntio ar bedwar categori eang o drais rhywiol: gweithgarwch rhywiol rhwng aelodau o'r teulu; ymosodedd ac ymosod; cam-drin rhywiol ar sail delweddau a gweithgarwch rhywiol gorfodol a chamfanteisiol. Cynhaliwyd y dadansoddiad dros gyfnod o chwe mis yn ystod 2017-2018. Ffynhonnell: Vera-Gray, F., McGlynn, C., Kureshi, I. and Butterby, K., 2021. Sexual violence as a sexual script in mainstream online pornography, *The British Journal of Criminology,* 61 (5). [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[67] Feine, J., Gnewuch, U., Morana, S. and Maedche, A., 2020. Gender bias in chatbot design, *Chatbot Research and Design*. [cyrchwyd 31 Hydref 2025].

[68] Mae'r Ddeddf yn berthnasol i fathau penodol o gynnwys, sgwrsfotiau a gwasanaethau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Edrychwch ar lythyr agored Ofcom at ddarparwyr gwasanaethau ar-lein sy'n amlinellu sut bydd Deddf Diogelwch Ar-lein y DU yn berthnasol i Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol a sgwrsfotiau.

[69] Ofcom / Bwrdd Crwn Dynion a Bechgyn, 29 Mai 2025.

2.37 Rydym yn tynnu sylw at arferion da ar gyfer mynd i'r afael â chylchrediad cynnwys sy'n dangos, yn hyrwyddo neu'n annog niwed ar-lein ar sail rhywedd, gan gynnwys trais rhywiol, yn y Canllawiau hyn.

## Ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol

2.38 Yn yr adran hon ar ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol, rydym yn canolbwyntio ar gam-drin misogynistaidd sy'n targedu menywod a merched unigol mewn bywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys y mathau canlynol o gynnwys a gweithgarwch anghyfreithlon, sy'n cael sylw yn y Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon: aflonyddu, bygythiadau a cham-drin a chasineb. Mae hefyd yn ymdrin â'r mathau canlynol o gynnwys sy'n niweidiol i blant, sy'n cael sylw yn ein Canllawiau ar Gynnwys sy'n Niweidiol i Blant: cynnwys difrïol a chas a chynnwys treisgar.

2.39 Mae ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol yn ffordd gyffredin y mae menywod a merched yn cael eu targedu gan niwed ar-lein. Mae ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol yn golygu bod llawer o gyflawnwyr yn targedu dioddefwr unigol neu grŵp bach o ddioddefwyr gyda chynnwys camdriniol, cas neu fygythiol, yn aml dro ar ôl tro neu ar raddfa fawr.[70] Gall y cynnwys hwn gynnwys ymosodiadau diraddiol ar sail rhyw neu sylwadau sarhaus a brawychus.

2.40 Mae'n bwysig nodi bod llefaru a mynegiant beirniadol, neu a allai fod yn dramgwyddus, yn cael eu diogelu gan gyfraith hawliau dynol, ac mae'n hanfodol er mwyn cynnal cymdeithas rydd a democrataidd.[71] Er enghraifft, mae gan bobl yr hawl i feirniadu gwleidyddion benywaidd neu fenywod eraill mewn bywyd cyhoeddus oherwydd eu bod yn anghytuno â'u gweithredoedd neu eu safbwyntiau gwleidyddol, neu eu polisïau, a gallant wneud hynny mewn ffordd sy'n peri braw neu dramgwydd. Fodd bynnag, nid yw'r hawl i ryddid mynegiant yn absoliwt. Fel arfer, nid yw mynegiant sy'n hyrwyddo neu'n cyfiawnhau trais, casineb, senoffobia neu fath arall o anoddefgarwch yn cael ei warchod.[72] Mae aflonyddu, bygythiadau neu gam-drin anghyfreithlon yn effeithio ar hawliau pobl eraill, ac mae'r Senedd Brydeinig wedi penderfynu bod y troseddau hyn yn arwain at gynnwys anghyfreithlon â blaenoriaeth o dan y Ddeddf.

2.41 Gall ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol fod ar sawl ffurf ac mae'r dystiolaeth ar y maes niwed hwn yn amrywio yn dibynnu ar ba gategorïau niwed sy'n cael eu cynnwys a sut maen nhw'n cael eu diffinio.[73] Gall ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol gael eu cyflawni yn erbyn dynion a bechgyn, yn ogystal â menywod a merched. Fodd bynnag, mae

[70] Demos (Judson, E.), 2021. Silence, Woman: An investigation into gendered attacks online. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[71] Gweler er enghraifft Handyside v UK: “Mae rhyddid mynegiant yn un o sylfeini hanfodol cymdeithas [ddemocrataidd] o'r fath, mae’n un o'r amodau sylfaenol ar gyfer ei chynnydd ac ar gyfer datblygiad pob person. ... mae'n berthnasol nid yn unig i "wybodaeth" neu "syniadau" sy'n cael eu derbyn yn ffafriol neu sy'n cael eu hystyried yn ddiniwed neu'n fater o ddifaterwch, ond hefyd i'r rhai sy'n tramgwyddo, yn dychryn neu'n tarfu ar y Wladwriaeth neu unrhyw sector o'r boblogaeth. Cymaint yw gofynion y lluosedd, y goddefgarwch a'r eangfrydedd hwnnw fel nad oes "cymdeithas ddemocrataidd" hebddyn nhw.

[72] Perinçek v. Switzerland [GC], 2015, § 230; Zemmour v. France, 2022, § 49; European Court of Human Rights, Key Theme – Article 10 Hate Speech

[73] Roedd 12% o fenywod a 13% o ddynion 18 oed a hŷn yn y DU a oedd yn ddefnyddwyr y rhyngrwyd wedi profi neu weld “codi cywilydd ar grwpiau, boicotio, neu eithrio rhywun ar sail eu barn, eu safbwyntiau neu eu gweithredoedd, gan gynnwys 'ymosodiadau torfol' ar-lein”. Nid yw'r diffiniad hwn yn cwmpasu'n union holl elfennau ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol a amlinellir yn y bennod hon. Ffynhonnell: Ofcom, 2025. Online Experiences Tracker Wave 8.

ymchwil yn dangos bod ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol yn cael effaith anghymesur ar fenywod mewn bywyd cyhoeddus,[74] ac mae'r mathau o gynnwys sy'n eu hanelu atynt yn aml yn dangos misogynedd a thrais rhywiol.[75] Gall y profiadau hyn gael effaith iasol ar fenywod a merched, pan fo unigolion yn cuddio hunanfynegiant oherwydd ofnau am gosbau cyfreithiol neu adlach cymdeithasol, hyd yn oed heb fygythiadau uniongyrchol.

2.42 Mae menywod a merched mewn bywyd cyhoeddus fel enwogion, gwleidyddion, newyddiadurwyr, dylanwadwyr, athletwyr ac ymgyrchwyr yn wynebu mwy o risg o ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol.[76] Maent yn aml yn cael eu targedu gan ymgyrchoedd twyllwybodaeth ar sail rhywedd wedi'u trefnu, sy'n defnyddio naratifau ffug i gyflawni nodau cymdeithasol, gwleidyddol neu economaidd.[77]

2.43 Canfu ymchwil Ofcom fod menywod mewn gwleidyddiaeth yn profi casineb a cham-drin ar-lein yn gyson, yn aml gydag islais misogynaidd uniongyrchol, ac mae'n cynnwys bygythiadau'n rheolaidd. Dywedodd y cyfranogwyr yn yr ymchwil hon wrthym fod y casineb a'r cam-drin yn gwaethygu, yn dod yn fwy cyffredin, soffistigedig, ac yn ymddangos fel pe bai wedi'i normaleiddio. Mae effaith y profiadau hyn wedi gwneud i wleidyddion benywaidd deimlo'n ynysig, gan gwestiynu eu galluoedd eu hunain, a mabwysiadu tactegau penodol i gadw'n ddiogel.[78]

2.44 Nid menywod mewn gwleidyddiaeth yn unig sy'n wynebu risg uwch o ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol. Mae ymchwil yn dangos bod chwaraewyr pêl-droed benywaidd yn fwy tebygol o gael eu cam-drin ar-lein na chwaraewyr pêl-droed gwrywaidd,[79] ac mae'r cam-drin hwn yn aml yn fisogynistaidd ei natur.[80] Yn yr un modd, canfu ymchwil ar

---

[74] Canfu ymchwil yn 2023 gan Gymdeithas Fawcett fod 93% o'r menywod a oedd yn Aelodau Seneddol yn yr arolwg wedi dweud bod cam-drin ac aflonyddu ar-lein yn cael effaith negyddol ar sut maen nhw'n teimlo am fod yn Aelod Seneddol, o'i gymharu â 76% o ddynion. Ffynhonnell: Fawcett Society, 2023. A House for Everyone: A case for modernising Parliament. [cyrchwyd 25 Medi 2025].

[75] HM Government Stabilisation Unit, 2020. Quick-read guide: gender and countering disinformation. [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; US Department of State, 2023. Gendered Disinformation: Tactics, Themes, and Trends by Foreign Malign Actors. [cyrchwyd 29 Hydref 2025]. Mae ymchwil hefyd yn dangos, er enghraifft, bod gwyddonwyr benywaidd sy'n gweithio ar newid yn yr hinsawdd yn fwy tebygol o gael eu targedu ar-lein oherwydd eu rhywedd, na gwyddonwyr gwrywaidd. Ffynhonnell: Global Witness, 2023. Global Hating: How Online Abuse of Climate Scientists Harms Climate Action. [cyrchwyd 25 Medi 2025].

[76] HM Government Stabilisation Unit, 2020. Quick-read guide: gender and countering disinformation. [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; US Department of State, 2023. Gendered Disinformation: Tactics, Themes, and Trends by Foreign Malign Actors. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[77] Wilson Center (Jankowicz, N., Hunchak, J., Pavliuc, A., Davies, C., Pierson, S. and Kaufmann, Z.), 2021. Malign Creativity: How Gender, Sex, and Lies are Weaponized Against Women Online. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[78] Ofcom, 2025. Profiadau o gasineb a cham-drin ar-lein ymhlith menywod mewn gwleidyddiaeth.

[79] Cynhaliwyd yr ymchwil hon yn ystod Cwpan y Byd Merched 2023 ac roedd pêl-droedwyr benywaidd 29% yn fwy tebygol o gael eu targedu â cham-drin ar-lein o'i gymharu â Chwpan y Byd FIFA 2022. Ffynhonnell: FIFA a FIFPRO, 2023. Social Media Protection Service Report: 2023 Women's World Cup. [cyrchwyd 21 Hydref 2025]. Williams, A., Fielding-Lloyd, B., Newman, J. and Deller, R., 2025. Sports Organisations' Responses to Social Media Abuse Against Professional Sportswomen in UK Team Sports, *Communication & Sport,* 0 (0). [cyrchwyd 26 Medi 2025].

[80] Fenton, A., Ahmed, W., Hardey, M., Boardman, R., a Kavanagh, E., 2023. Women's football subculture of misogyny: the escalation to online gender-based violence, *European Sport Management Quarterly*, 24 (6). [mynediad 26 Medi 2025]. Gweler hefyd: Ofcom and Kick It Out, 2025. Online hate and abuse in sport.

gystadleuwyr teledu realaeth fod cam-drin ar-lein ar sail rhywedd yn targedu menywod yn anghymesur, gyda sylwadau misogynistaidd a sylwadau sy'n gwrthrycholi[81].

2.45 Canfu ymchwil gan y Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Newyddiadurwyr fod bron i dri chwarter (73%) o newyddiadurwyr benywaidd wedi'i brofi trais ar-lein ar ryw ffurf yn ystod eu gwaith. Gall newyddiadurwyr dderbyn miloedd o negeseuon sarhaus, yn aml mewn ymateb i ohebu ar wleidyddiaeth neu etholiadau, yn ogystal â rhywedd. Mae sylwadau'n tanseilio eu gwaith ac yn eu difrïo'n bersonol. Yn aml, maen nhw'n cael eu galw'n "dwp" neu'n "hysterig" neu mae eu bywydau personol yn cael eu hymchwilio a'u beirniadu, mae un o bob pedair yn dweud eu bod yn cael eu bygwth â thrais corfforol.[82]

2.46 Nod ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol a gyfeirir at fenywod mewn bywyd cyhoeddus yw 'tawelu' yr unigolion maen nhw'n eu targedu, a hefyd cael effaith ddychrynllyd ar gyfranogiad menywod a merched yn fwy cyffredinol. Canfu ymchwil gan Sefydliad Alan Turing nad yw 77% o fenywod yn gyfforddus yn mynegi barn wleidyddol ar-lein oherwydd eu bod yn ofni cael eu targedu gan gamdriniaeth[83], a chanfu Arolwg gan Girlguiding fod 36% o fenywod a merched ifanc yn amharod i ddilyn gyrfaoedd mewn sectorau fel gwleidyddiaeth oherwydd y gamdriniaeth y mae menywod proffil uchel yn ei hwynebu ar-lein.[84] Canfu ymchwil Ofcom fod menywod sy'n wleidyddion yn poeni'n fawr am sut mae casineb a cham-drin ar-lein yn datgymell menywod rhag mynd i fyd gwleidyddiaeth, a beth allai hyn ei olygu i ddyfodol gwleidyddiaeth, yr effaith ar ddemocratiaeth a'r wlad yn ei chyfanrwydd.[85]

2.47 Yng nghyd-destun niwed ar sail rhywedd, mae ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol yn aml yn gorgyffwrdd â cham-drin misogynistaidd a thrais rhywiol[86], gan gynnwys bygythiadau, disgrifiadau o drais rhywiol a sylwadau sy'n dad-ddyneiddio neu'n ddiraddiol.[87] Mae'r math hwn o ymddygiad cydgysylltiedig hefyd yn aml yn cynnwys docsio, lle mae cyflawnwyr yn datgelu gwybodaeth breifat yn gyhoeddus am yr unigolyn sy'n cael ei dargedu, fel eu lleoliad, eu rhif ffôn neu eu cyfeiriad e-bost.[88] Gall hyn gynyddu'r risg o drais all-lein.[89]

2.48 Mae camddefnyddio delweddau personol (yr ydym yn ei drafod yn fanylach o dan 'cam-drin rhywiol ar sail delweddau') yn aml yn chwarae rhan yn yr aflonyddu cydlynol ar fenywod yn llygad y cyhoedd. Mae ymchwil gan Security Hero yn dangos bod 94% o

[81] Demos (Judson, E.), 2021. Silence, Woman: An investigation into gendered attacks online. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].
[82] International Center for Journalists (Posetti, J. and Shabbir, N.), 2022. The Chilling: A global study of online violence against women journalists. [cyrchwyd 01 Hydref 2025].
[83] Alan Turing Institute (Stevens, F., Enock, F., Sippy, T., Bright, J., Cross, M., Johansson, P., Wajcman, J. a Margetts, H.), 2024. Understanding gender differences in experiences and concerns surrounding online harms: A nationally representative survey of UK adults. [cyrchwyd 3 Tachwedd 2025].
[84] Girlguiding, 2022. Girls' Attitudes Survey 2022. [cyrchwyd 3 Tachwedd 2025].
[85] Ofcom, 2025. Profiadau o gasineb a cham-drin ar-lein ymhlith menywod mewn gwleidyddiaeth.
[86] Demos (Judson, E.), 2021. Silence, Woman: An investigation into gendered attacks online. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].
[87] Glitch, 2023. The Digital Misogynoir Report: Online abuse against Black women allowed and enabled to thrive. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].
[88] The Global Partnership, 2023. Technology-Facilitated Gender-Based Violence: Preliminary Landscape Analysis. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].
[89] International Center for Journalists (Posetti, J. and Shabbir, N.), 2022. The Chilling: A global study of online violence against women journalists. [cyrchwyd 01 Hydref 2025].

ffugiadau dwfn rhywiol yn dangos menywod sy'n gweithio yn y diwydiant adloniant[90] a bod ffugiadau dwfn o ddelweddau personol yn cael eu defnyddio fwyfwy i dargedu menywod sy'n wleidyddion.[91]

2.49 Mae swyddogaethau a model busnes gwasanaeth - fel ail-bostio[92] a systemau argymell[93] - yn gallu cynyddu pa mor gyffredin yw cynnwys difrïol, gan gynnwys cynnwys difrïol sy'n rhan o ymosodiadau torfol.

2.50 Yn y Canllawiau hyn, rydym yn edrych ar gamau arferion da y gall darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr eu cymryd i roi mwy o reolaeth i fenywod a merched ar eu profiadau ar-lein, gan gynnwys y gallu i weithredu os ydynt yn darged ymgyrch aflonyddu dorfol neu gydlynus.

## Stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth

2.51 Yn yr adran hon ar stelcio a gorfodaeth drwy reolaeth, rydym yn canolbwyntio ar ymddygiad camdriniol sy'n cael ei gyflawni fel arfer gan un cyflawnwr yn erbyn un dioddefwr. Mae hyn yn ymdrin â'r mathau canlynol o gynnwys a gweithgarwch anghyfreithlon, sy'n cael sylw yn y Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon: aflonyddu a stelcio ac ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.

2.52 Mae technoleg yn hwyluso deinameg bresennol pŵer a rheolaeth, gan gynnwys stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth. Gall y mathau hyn o gam-drin bellach ddigwydd ar unwaith ac yn gyson a chyrraedd rhwydwaith cymdeithasol eang heb fawr o ymdrech, gan gael effaith gyflymach a mwy ar wahanol feysydd o fywyd y goroeswr a'r dioddefwr.[94]

2.53 Mae tystiolaeth yn dangos bod y rheini sy'n stelcio yn fwy tebygol o dargedu menywod.[95] Mae'r rheini sy'n defnyddio rheolaeth drwy orfodaeth hefyd yn fwy tebygol o dargedu menywod.[96]

---

[90] Security Hero, 2023. State of Deepfakes: Realities, Threats, and Impact. [cyrchwyd 26 Medi 2025].
[91] Channel 4 (Newman, C.), 2024. Exclusive: Top UK politicians victims of deepfake pornography. [cyrchwyd 10 Medi 2025].
[92] Gall aflonyddu ddechrau pan fydd cynnwys yn cael ei rannu â chynulleidfa wahanol i'r un y cafodd ei rannu â hi'n wreiddiol, gan gynnwys drwy ail-bostio. Ffynhonnell: Thrasher, S.W., 2017. Yes, there is a free speech crisis. But it's victims are not white men. The Guardian, 5 Mehefin wedi'i ddyfynnu yn Gosse, C., Veletsianos, G., Hodson, J., Houlden, S., Dousay, T.A., Lowenthal, P.R. and Hall, N., 2020. The hidden costs of connectivity: nature and effects of scholars' online harassment, *Learning, media and technology,* 46(3). [cyrchwyd 10 Tachwedd 2025].
[93] Institute for Strategic Dialogue (Thomas, E. a Balint, K.), 2022. Algorithms as a Weapon Against Women: How YouTube Lures Boys and Young Men into the 'Manosphere'. [cyrchwyd 10 Tachwedd 2025].
[94] Fernet, M., Lapierre, A., Hébert, M. and Cousineau, M., 2019. A systematic review of literature on cyber intimate partner victimization in adolescent girls and women, *Computers in Human Behaviour,* 100. [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025].
[95] Canfu Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2024 fod menywod yn fwy tebygol o ddioddef stelcio (mae 20.2% o fenywod 16 oed a hŷn wedi profi stelcio ar ryw adeg ers iddynt fod yn 16 oed o'i gymharu ag 8.7% o ddynion). Mae menywod hefyd yn fwy tebygol o brofi seiber-stelcio (mae 7.1% o fenywod 16 oed a hŷn wedi profi seiber-stelcio ar ryw adeg ers iddynt fod yn 16 oed o'i gymharu â 3.7% o ddynion). Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Crime Survey for England and Wales 2024. [cyrchwyd 19 Medi 2025]
[96] Mae tystiolaeth am reolaeth orfodol a gyflawnir ar-lein yn benodol yn gyfyngedig ond mae tystiolaeth bod cam-drin domestig yn effeithio ar fwy o fenywod na dynion. Canfu Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2024 fod 9.5% o fenywod a 6.5% o ddynion wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2023-2024) a bod 30.3% o fenywod a 21.7% o ddynion wedi profi cam-drin domestig ers iddynt fod yn 16 oed. Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), 2025. Redevelopment of domestic abuse statistics: research update May 2025. [cyrchwyd 19 Medi 2025].

## Stelcio

2.54 Mae stelcio yn fath o aflonyddu[97], a nodweddir gan batrwm o ymddygiad sefydlog, obsesiynol, digroeso ac ailadroddus sy'n ymwthiol.[98] Partner neu gyn-bartner sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o stelcio. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos y gall cyflawnwyr gynnwys aelodau o'r teulu, ffrindiau, cydweithwyr a dieithriaid.[99]

2.55 Mae stelcio yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar oroeswyr a dioddefwyr, a allent ddatblygu iselder, gorbryder, anhwylder straen wedi trawma a gor-wyliadwriaeth o ganlyniad i'w profiadau. Canfu astudiaeth ymchwil fod 87% o oroeswyr a dioddefwyr stelcio wedi nodi newidiadau i o leiaf un agwedd ar eu bywyd, gan gynnwys perthnasoedd, gwaith a chyllid.[100]

2.56 Mae stelcio yn aml yn digwydd ar yr un pryd ar draws mannau ar-lein ac all-lein, gydag ymchwil gan Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh yn dangos bod 75% o achosion stelcio yn cynnwys ymddygiad ar-lein ac all-lein.[101] Mae stelcio yn peri risg sylweddol o waethygu, gyda astudiaeth ymchwil yn canfod fod stelcio'n bresennol mewn 76% o laddiadau partner agos.[102]

2.57 Gall stelcio gynnwys amrywiaeth o ymddygiadau, o anfon negeseuon camdriniol parhaus at y dioddefwr i ffurfiau mwy cudd fel monitro eu cyfrifon neu ganfod eu lleoliad o luniau, sy'n gallu galluogi stelcio all-lein.[103] Bydd cyflawnwyr stelcio yn aml yn ailadrodd yr un ymddygiadau ac yn defnyddio amrywiaeth o dactegau i achosi ofn, braw a gofid i'r dioddefwr.[104]

2.58 Gall fod yn anodd i ddarparwyr gwasanaethau adnabod stelcio, oherwydd yn wahanol i rai mathau eraill o niwed, mae'n yn cynnwys patrwm ymddygiad yn hytrach nag un darn o gynnwys. Fodd bynnag, mae'r risg o waethygu all-lein a achosir gan y niwed hwn yn golygu ei bod yn bwysig i ddarparwyr gymryd camau amserol a rhagweithiol pan fo stelcio yn digwydd ar eu gwasanaeth.

2.59 Yn y Canllawiau hyn, rydym yn amlinellu sut gall darparwyr gymryd camau rhagweithiol yn erbyn y rheini sy'n cyflawni stelcio, gan gynnwys caniatáu i oroeswyr a dioddefwyr roi gwybod i'r darparwr am achosion all-lein o gam-drin, fel stelcio.

---

[97] Mae aflonyddu yn batrwm o ymddygiad afresymol a gormesol a gyflawnir i achosi braw neu drallod i'r dioddefwr.

[98] Mae rhagor o wybodaeth am stelcio ar gael yn Adran 3 Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon ac Adran 4 Cofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon.

[99] Suzy Lamplugh Trust, 2021. Unmasking Stalking: A Changing Landscape. [cyrchwyd 11 Awst 2025].

[100] Short, E. and Maple, C., 2011. The impact of cyberstalking: review and analysis of the ECHO pilot project. *Proceedings of the IADIS International Conferences – Web Based Communities and Social Media*. [cyrchwyd 29 Awst 2025].

[101] Suzy Lamplugh Trust, 2021. Unmasking Stalking: A Changing Landscape. [cyrchwyd 11 Awst 2025].

[102] Cynhaliwyd yr ymchwil hon mewn 10 dinas yn yr Unol Daleithiau ac roedd yn canolbwyntio ar ymddygiad stelcio all-lein. McFarlane, J., Campbell, J.C., Wilt, S., Ulrich, Y., a Xu, X., 1999. Stalking and Intimate Partner Femicide. *Homicide Studies, 3*(4). [cyrchwyd 29 Awst 2025].

[103] Freed, D., Palmer, J., Minchala, D., Levy, K., Ristenpart, T. and Dell, N., 2018. "A Stalker's Paradise": How Intimate Partner Abusers Exploit Technology. *CHI '18: Proceedings of the 2018 CHI Conference on Human Factors in Computing Systems.* [cyrchwyd 28 Hydref 2025].

[104] Suzy Lamplugh Trust, 2021. Unmasking Stalking: A Changing Landscape. [cyrchwyd 11 Awst 2025].

## Rheolaeth drwy orfodaeth

**2.60** Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn cyfeirio at gyflawni ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi dro ar ôl tro neu'n barhaus, yng nghyd-destun perthynas agos neu deuluol.[105] Gall y rhai sy'n cyflawni rheolaeth drwy orfodaeth hefyd dargedu plant goroeswyr a dioddefwyr.[106]

2.61 Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn aml yn cynnwys gwahanol fathau o gam-drin, sy'n cyd-ddigwydd ar draws nifer o ddyfeisiau a gwasanaethau dros nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn cynnwys mathau o gam-drin sy'n digwydd all-lein gan gynnwys cam-drin corfforol, neu dros wahanol fathau o gyfathrebu, fel cam-drin ariannol a cham-drin ar ddyfeisiau. Gall ystyried y niwed hwn ar ei ben ei hun danamcangyfrif maint ac effaith y cam-drin.

2.62 Mae ymddygiad sy'n gorfodi yn cael ei dan-riportio'n sylweddol. Dywedodd hanner y goroeswyr a ymatebodd i arolwg gan Refuge nad oeddent wedi dweud wrth neb am y cam-drin a dim ond cyfran fach o oroeswyr (13%) a ddywedodd eu bod wedi cael eu cam-drin wrth y llwyfan cyfryngau cymdeithasol lle cawsant eu cam-drin. Dim ond un o bob deg goroeswr oedd yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i riportio i'r heddlu.[107] Mae tan-riportio yn digwydd oherwydd cywilydd am y cam-drin a'r diffyg ymddiriedaeth mewn darparwyr gwasanaethau neu'r heddlu i fynd i'r afael â'r broblem.[108]

2.63 Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn batrwm o gam-drin sy'n gallu cynnwys amrywiaeth o ymddygiadau, fel:

a) Rheoli dyfeisiau ac apiau: mynediad heb awdurdod at gyfrifon ar-lein unigolyn, drwy ddyfalu cyfrineiriau, neu hacio.[109]
b) Monitro a gwyliadwriaeth: monitro negeseuon a phostiadau.
c) Dynwared, gan gynnwys swyno trwy dwyll (catfishing): defnyddio hunaniaeth person i gael gafael ar wybodaeth breifat; camfanteisio, codi cywilydd, dwyn anfri arnynt neu godi cywilydd arnynt; cysylltu â nhw neu eu camarwain; neu greu dogfennau twyllodrus. Gall hyn ddigwydd drwy hacio cyfrifon a gall hefyd gynnwys dwyn dogfennau ar-lein.[110] Gall hyn ymestyn i broffiliau busnes sy'n cael eu rhedeg gan y goroeswr a'r dioddefwr er mwyn cyflawni niwed economaidd.
d) Docsio: datgelu gwybodaeth breifat heb ganiatâd, fel lleoliad, rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost dioddefwr.[111] Gall hyn fod yn arbennig o niweidiol yng nghyd-destun trais ar sail

---

[105] Mae rhagor o wybodaeth am ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli ar gael yn Adran 5 ein Cofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon.
[106] NSPCC Learning, 2023. The impact of coercive control on children and young people. [cyrchwyd 03 Tachwedd 2025].
[107] Refuge, 2021. Unsocial Spaces. [cyrchwyd 05 Medi 2025].
[108] Flynn, A., Powell, A., Scott, A. and Cama, E., 2022. Deepfakes and Digitally Altered Imagery Abuse: A Cross-Country Exploration of an Emerging form of Image-Based Sexual Abuse. *The British Journal of Criminology*, 62 (6). [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025]; Ofcom Stakeholder Workshop 1 on Women and Girls Online Safety, 16 September 2024.
[109] Freed, D., Palmer, J., Minchala, D., Levy, K., Ristenpart, T. and Dell, N., 2018. "A Stalker's Paradise": How Intimate Partner Abusers Exploit Technology. *CHI '18: Proceedings of the 2018 CHI Conference on Human Factors in Computing Systems.* [cyrchwyd 28 Hydref 2025].
[110] Henry, N., Vasil, S., Flynn, A., Kellard, K. and Mortreux, C., 2021. Technology-Facilitated Domestic Violence Against Immigrant and Refugee Women: A Qualitative Study. *Journal of Interpersonal Violence*, 37. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].
[111] The Global Partnership, 2023. Technology-Facilitated Gender-Based Violence: Preliminary Landscape Analysis. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

anrhydedd, lle gall gwybodaeth sy'n cael ei datgelu neu'r bygythiad o ddatgelu gwybodaeth arwain at gywilydd, stigma a thrais ychwanegol.[112]

e) Camdriniaeth neu fygythiadau seicolegol neu emosiynol: aflonyddu a stelcio, gan gynnwys ymddygiadau aflonyddu rhywiol a/neu wrth gwrdd â chariadon. Gall hyn gynnwys:

   i) Cyswllt digroeso: anfon negeseuon dro ar ôl tro at y dioddefwr.
   ii) Gasleitio: gwneud i'r dioddefwr gwestiynu ei deimladau a'i brofiadau.

2.64 Gall ymddygiad sy'n gorfodi fod yn arbennig o anodd i ddarparwyr ei adnabod. Er enghraifft, efallai y bydd llun o ddrws ffrynt yn ymddangos yn ddiniwed i arsylwr allanol neu gymedrolwr cynnwys. Fodd bynnag, i ddioddefwr sy'n ffoi rhag partner sy'n cam-drin ac yn symud i leoliad diogel a chyfrinachol, gallai derbyn llun o'r fath fod yn arwydd bod y defnyddiwr yn gwybod ble maen nhw. Gall hyn fod yn drawmatig i ddioddefwyr, ac arwain atynt yn teimlo'n anniogel yn gorfforol oherwydd bod y cyflawnwr yn gwybod am eu lleoliad.[113] Ar ben hynny, gall cyflawnwyr ddylanwadu'n seicolegol ar y dioddefwr i hau hunanamheuaeth a dryswch yn eu meddwl i guddio'r cam-drin.

2.65 Mae materion sy'n ymwneud â riportio ac adnabod ymddygiad sy'n gorfodi yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwaith ansoddol a'r angen i ddarparwyr gwasanaethau ymgysylltu â gwasanaethau cymorth i ddeall natur gynnil y niwed.

2.66 Yn y Canllawiau hyn, rydym yn amlinellu nifer o gamau arferion da sy'n edrych ar sut gall darparwyr gwasanaethau weithio gyda gwasanaethau arbenigol i gefnogi goroeswyr a dioddefwyr rheolaeth drwy orfodaeth a stelcio. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ag arbenigwyr pwnc wrth bennu telerau gwasanaeth a chyfeirio defnyddwyr at wybodaeth gefnogol.

## Cam-drin rhywiol ar sail delweddau

2.67 Yn yr adran hon ar gam-drin rhywiol ar sail delweddau, rydym yn canolbwyntio ar fathau o gam-drin lle mae'r cyflawnwr yn defnyddio delweddau personol neu anweddus i arfer pŵer a rheolaeth dros y dioddefwr. Mae hyn yn cynnwys y mathau canlynol o gynnwys a gweithgarwch anghyfreithlon, sy'n cael sylw yn y Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon: camddefnyddio delweddau personol, delweddau anweddus wedi'u cynhyrchu gan yr unigolyn, a seiberfflachio.

2.68 Mae cam-drin rhywiol ar sail delweddau yn cyfeirio at rhannu neu fygwth rhannu delweddau personol sy'n dangos oedolion heb ganiatâd,[114] a dosbarthu, meddu ar a chyhoeddi deunydd cam-drin plant yn rhywiol sy'n cael ei greu gan y plentyn sy'n cael ei bortreadu yn y ddelwedd.

2.69 Gall cam-drin rhywiol ar sail delweddau fod yn rhan o batrwm o ymddygiad niweidiol. Nid yw'n digwydd mewn mannau ar-lein ac yn amlygiad o strwythurau presennol trais rhywiol a misogynedd.

2.70 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod camddefnyddio delweddau personol a seiberfflachio yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a bod delweddau anweddus a

---

[112] End Violence Against Women Coalition and Faith and VAWG Coalition, 2021. Response to the Law Commission Consultation on Intimate Image Abuse. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].
[113] Refuge, 2021. Unsocial Spaces. [cyrchwyd 05 Medi 2025].
[114] McGlynn, C. and Rackley, E., 2017. Image-Based Sexual Abuse, *Oxford Journal of Legal Studies*, 37 (3). [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025].

gynhyrchir gan yr unigolyn yn effeithio'n anghymesur ar ferched. Mae adroddiadau'r Llinell Gymorth Pornograffi Dial yn nodi bod 98% o'r delweddau personol maen nhw wedi rhoi gwybod amdanyn nhw yn ddelweddau o fenywod[115] ac mae ymchwil gan Security Hero yn dangos bod 99% o achosion o gamddefnyddio ffugiadau dwfn o ddelweddau personol yn dangos menywod.[116] Mae yna rai mathau o gam-drin rhywiol ar sail delweddau sy'n effeithio'n anghymesur ar ddynion, fel blacmel rhywiol, gyda Llinell Gymorth Pornograffi Dial yn dweud mai dyn oedd y dioddefwr mewn 89% o'r achosion o flacmel rhywiol.[117] Mae seiberfflachio yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, sy'n fwy tebygol na dynion o bod yn dargedau seiberfflachio.[118] Mae delweddau anweddus a gynhyrchir gan yr unigolyn yn effeithio'n anghymesur ar ferched, gyda thystiolaeth yn dangos bod 98% o adroddiadau CSAM a gynhyrchir gan yr Internet Watch Foundation yn 2023 yn ymwneud â merched.[119]

## Camddefnyddio delweddau personol

2.71 Mae camddefnyddio delweddau personol yn cyfeirio at rhannu neu fygwth rhannu delweddau personol heb ganiatâd y person a ddangosir yn y ddelwedd.[120] Mae creu[121] a chymryd[122] delweddau personol heb ganiatâd hefyd i fod yn anghyfreithlon.

2.72 Gall bygythiadau i rannu delweddau personol a rhannu delweddau personol heb ganiatâd gael eu cyflawni fel rhan o batrwm o reolaeth drwy orfodaeth ar-lein ac all-lein.[123] Gall cyflawnwyr ddefnyddio bygythiadau i rannu delweddau personol i orfodi goroeswyr a dioddefwyr i barhau â pherthynas â nhw neu ganiatáu i'r cyflawnydd gael cyswllt â'u plant.[124]

2.73 Gellir camddefnyddio delweddau personol er budd ariannol, neu fudd arall (a elwir yn aml yn 'flacmel rhywiol' ('sextortion')). Gall unigolion gyflawni blacmel rhywiol, ond gall grwpiau troseddol cyfundrefnol wneud hynny hefyd.

2.74 Gellir rhannu delweddau personol heb ganiatâd hefyd fel rhan o 'ddiwylliant casglu' lle mae cyflawnwyr yn cyfnewid ac yn trafod delweddau personol, yn aml mewn cymunedau

---

[115] South West Grid for Learning (Wright, D. and Mortimer, S.), 2024. Revenge Porn Helpline: Evidence to Women & Equalities Committee. [cyrchwyd 22 Medi 2025].

[116] Cynhaliwyd yr ymchwil hon rhwng 15 Gorffennaf a 29 Awst 2023. Ffynhonnell: Security Hero, 2023. State of Deepfakes: Realities, Threats, and Impact. [cyrchwyd 26 Medi 2025].

[117] South West Grid for Learning (Papachristou, K.), 2025. Revenge Porn Helpline 2024 Report. [cyrchwyd 27 Awst 2025].

[118] Roedd 20% o fenywod 18+ wedi derbyn llun rhywiol na ofynnwyd amdano o'i gymharu ag 11% o ddynion 18+. Cynhaliwyd ymchwil ym Mhrydain Fawr. Ffynhonnell: YouGov (Smith, M.), 2024. More than a third of women under 40 have received unsolicited sexual photos. [cyrchwyd 30 Medi 2025].

[119] Internet Watch Foundation, 2023. IWF Annual Report 2023. [cyrchwyd 31 Hydref 2025].

[120] Yn fwyaf cyffredin, mae 'delwedd bersonol' yn llun neu fideo lle mae'r person neu'r bobl yn cael eu darlunio yn ymgysylltu â, yn cyfranogi mewn, neu'n bresennol yn ystod gweithred rywiol a/neu lle mae eu horganau rhywiol, eu pen-ôl neu eu bronnau yn cael eu dangos neu wedi eu gorchuddio â dillad isaf yn unig. Mae 'delwedd bersonol' hefyd yn cynnwys llun neu fideo lle mae'r unigolyn neu'r bobl yn cael eu portreadu yn cyflawni, neu wrth gyflawni gofal personol sy'n gysylltiedig â phasio dŵr, ymgarthu neu redlif o'r organau cenhedlu neu'r anws. Mae rhagor o wybodaeth am gamddefnyddio delweddau personol ar gael yn Adran 6 Cofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon.

[121] Gweler adrannau 66E – 66H o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Nid yw'r darpariaethau wedi cychwyn eto.

[122] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Alex Davies-Jones AS, 2025. Mae'r llywodraeth yn mynd i'r afael â ffug-dyfnderoedd eglur. [cyrchwyd 13 Hydref 2025].

[123] Refuge, 2020. The Naked Threat. [cyrchwyd 30 Medi 2025].

[124] Refuge, 2020. The Naked Threat. [cyrchwyd 30 Medi 2025].

sy'n ymroddedig i gam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol[125]. Yn y cyd-destun hwn, mae camddefnyddio delweddau personol yn aml yn gallu gorgyffwrdd â docsio, gan fod delweddau'n cael eu rhannu ochr yn ochr â gwybodaeth bersonol sy'n nodi pwy yw'r goroeswr a'r dioddefwr.[126] Gall y cymunedau hyn ddatblygu ar amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys safleoedd penodol ar gyfer gwesteio cynnwys camddefnyddio delweddau personol.[127]

2.75 Yna, gall delweddau personol sy'n cael eu rhannu heb ganiatâd gael eu hail-rannu. Mae cyflawnwyr yn aml yn ail-rannu delweddau ar draws nifer o wasanaethau, ac mewn rhai achosion gall delweddau fynd yn feiral. Mae'r rhannu hwn yn golygu bod y delweddau'n parhau i gylchredeg, gan achosi ail-erledigaeth ac ail-drawmateiddio i oroeswyr a dioddefwyr.

2.76 Mae camddefnyddio delweddau personol yn cael effaith negyddol ddofn ar oroeswyr a dioddefwyr, gan gynnwys niwed seicolegol, emosiynol, proffesiynol a pherthynol.[128] I lawer o oroeswyr a dioddefwyr y math hwn o gam-drin, mae'r effeithiau'n ddinistriol ac yn hollgynhwysol, gan gynrychioli “rhwyg cymdeithasol” sy'n newid eu bywydau'n ddi-droi'n-ôl o'r pwynt hwnnw ymlaen.[129] Mewn rhai achosion, gellir gorfodi a chamfanteisio ar oroeswyr a dioddefwyr drwy greu a dosbarthu cynnwys rhywiol neu bersonol, gan gynnwys drwy ffrydiau byw.

2.77 Bydd camddefnyddio delweddau personol hefyd yn effeithio'n wahanol ar fenywod mewn gwahanol sefyllfaoedd: er enghraifft, mae profiadau gweithwyr rhyw a chrewyr cynnwys oedolion o gamddefnyddio delweddau personol yn aml yn cael eu colli mewn ymyriadau diogelwch, a gall gweithwyr rhyw fod yn destun stigma a beio dioddefwyr. Mae gweithwyr rhyw yn aml yn cael eu targedu â blacmel, bygythiadau, docsio a stelcio.[130]

2.78 Gall camddefnyddio delweddau personol gynnwys delweddau a dynnwyd neu a wnaed yn gydsyniol a delweddau a dynnwyd neu a wnaed heb ganiatâd. Mae hyn yn cynnwys delweddau sydd wedi cael eu cynhyrchu neu eu trin yn artiffisial, gan gynnwys ffugiadau dwfn.[131] Mae camddefnyddio delweddau personol ffugiad dwfn yn aml yn cyd-ddigwydd â niwed arall ar-lein sy’n seiliedig ar ryw. Er enghraifft gall cyflawnwyr ei ddefnyddio i ddychryn a thanseilio menywod mewn bywyd cyhoeddus yn ystod ymosodiadau torfol.

2.79 Mae delweddau personol ffugiad dwfn yn niwed sy’n cynyddu’n sylweddol, gyda mwy o ddelweddau personol camdriniol ffugiad dwfn yn cael ei bostio ar-lein yn 2023 nag yn

[125] Moore, A., 2022. ‘I have moments of shame I can’t control’: the lives ruined by explicit ‘collector culture’, The Guardian, 6 Ionawr. [cyrchwyd 28 Hydref 2025].
[126] South West Grid for Learning (Ward, Z.), 2021. Intimate image abuse, an evolving landscape. [cyrchwyd 30 Medi 2025].
[127] Henry, N., Flynn, A. 2019. Image-Based Sexual Abuse: Online Distribution Channels and Illicit Communities of Support, *Violence against women,* 25 (16). [cyrchwyd 30 Medi 2025].
[128] Flynn, A., Powell, A., Scott, A. and Cama, E., 2022. Deepfakes and Digitally Altered Imagery Abuse: A CrossCountry Exploration of an Emerging form of Image-Based Sexual Abuse, *The British Journal of Criminology*, 62 (6). [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025].
[129] McGlynn, C., Johnson, K., Rackley, E., Henry, N., Gavey, N., Flynn, A. and Powell, A. 2021. ‘It’s Torture for the Soul’: The Harms of Image-Based Sexual Abuse, *Social & Legal Studies*, 30 (4). [cyrchwyd 29 Hydref 2025].
[130] Sanders, T., Trueman, G., Worthington, K. and Keighley, R., 2023. Non-consensual sharing of images: Commercial content creators, sexual content creation platforms and the lack of protection, *New Media & Society*, 27 (1). [cyrchwyd 28 Hydref 2025].
[131] Ofcom, 2024. Deepfake Defences: Mitigating the Harms of Deceptive Deepfakes.

ystod pob blwyddyn flaenorol gyda'i gilydd.[132] Un rheswm dros y twf hwn mewn ffugiadau dwfn yw argaeledd offer newydd sy'n cael eu pweru gan GenAI, sy'n ei gwneud yn haws i gyflawnwyr greu cynnwys ffugiadau dwfn realistig a byw, ac economi 'ffugiadau dwf' ehangach. Mae hyn yn cynnwys apiau a gwefannau sydd ar gael yn eang ac sy'n cynnig adnoddau 'dinoethi', fforymau lle mae cyflawnwyr yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut mae creu delweddau personol camdriniol ffugiad dwf, a gwefannau penodol sy'n lletya'r cynnwys hwn.[133] Mae sylfaen defnyddwyr y safleoedd hyn wedi cynyddu'n ddramatig - yn ôl y sôn mae un ohonynt yn cael 17 miliwn o ymweliadau bob mis - ac mae'n hawdd cael gafael arnynt drwy beiriannau chwilio ar y rhyngrwyd ac maen nhw'n cael eu hysbysebu ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol, ffrydiau trafod a fforymau.[134]

2.80 Yn y Canllawiau hyn, rydym yn cynnwys nifer o gamau arferion da a allai helpu darparwyr gwasanaeth i fynd i'r afael â chamddefnyddio delweddau personol, gan gynnwys camau sy'n canolbwyntio'n benodol ar atal ffugiadau dwfn o ddelweddau personol camdriniol. Er enghraifft, rydym yn cyflwyno hidlwyr ysgogi ac allbwn i rwystro model rhag cynhyrchu mathau penodol o gynnwys a all gynnwys delweddau personol.

## Delweddau anweddus wedi'u creu gan yr unigolyn

2.81 Mae delweddau anweddus wedi'u cynhyrchu gan yr unigolyn (SGII) yn cyfeirio at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol sydd wedi'i greu gan y plentyn sy'n cael ei bortreadu yn y ddelwedd.[135] [136]

2.82 Mae SGII yn aml yn cael ei gategoreiddio'n dri math: cydsyniol, anghydsyniol a gwaethygedig. Mae'r mathau hyn yn cyfeirio at: ddelweddau sy'n cael eu tynnu a'u rhannu gyda chaniatâd, delweddau sy'n cael eu rhannu ymlaen heb ganiatâd, a delweddau sy'n cael eu gwaethygu o ganlyniad i feithrin perthynas amhriodol ar-lein neu gamfanteisio ariannol drwy orfodaeth, yn y drefn honno.[137] Mae pob math o SGII yn ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol ac felly'n gynnwys anghyfreithlon.

2.83 Beth bynnag fo'r math, gall SGII gael effeithiau negyddol ar iechyd meddwl. Wrth rannu delweddau ymysg cyfoedion, gall yr ôl-effeithiau cymdeithasol y gall plant eu hwynebu o ganlyniad i rannu delweddau rhywiol gyda chaniatâd neu heb ganiatâd fod yn enfawr. Mae hyn yn cynnwys bwlio, bygythiadau i rannu'r delweddau ymhellach, a diarddel o grwpiau cyfoedion.[138]

2.84 Nid yw'r camau arfer da a nodir yn y Canllawiau hyn wedi'u hanelu at fynd i'r afael â SGII. Rydym wedi cynhyrchu mesurau cod ar wahân sy'n canolbwyntio ar CSEA, gan gynnwys SGII. Fodd bynnag, rydym yn cynnwys camau i fynd i'r afael â chamddefnyddio delweddau

---

[132] My Image My Choice, 2024. Deepfake Abuse: Landscape Analysis 2023-24. [cyrchwyd 28 Hydref 2025].
[133] Ofcom, 2024. Deepfake Defences: Mitigating the Harms of Deceptive Deepfakes.
[134] Tenbarge, K., 2023, Found through Google, bought with Visa and Mastercard: Inside the deepfake porn economy, NBC, 27 Mawrth. [cyrchwyd 28 Hydref 2025].
[135] Rydym yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â'r derminoleg hon a sut y gallai fethu â chyfleu natur y cam-drin a ddioddefwyd, ac yn anfwriadol awgrymu mai plentyn sy'n gyfrifol am ei gam-drin ei hun. Fodd bynnag, yn absenoldeb dewis arall mwy priodol sydd wedi'i fabwysiadu'n eang, rydym wedi dewis defnyddio'r geiriad hwn i sicrhau eglurder.
[136] Mae rhagor o wybodaeth am ddelweddau anweddus a gynhyrchwyd gan y cyhoedd wedi'i nodi yn Adran 2 o'r Gofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon.
[137] INHOPE, 2025. What is Self-Generated CSAM? [accessed 4 September 2025].
[138] Schmidt, F., Varese, F., Larkin, A., a Bucci, S. (2023). The Mental Health and Social Implications of Nonconsensual Sharing of Intimate Images on Youth: A Systematic Review. *Trauma, Violence, & Abuse*, 25 (3). [cyrchwyd 04 Medi 2025].

personol. O ystyried y gorgyffwrdd yng nghyd-destun sut mae'r delweddau hyn yn aml yn cael eu creu a'u rhannu, gall ymyriadau sydd wedi'u targedu at gamddefnyddio delweddau personol, fel ysgogiadau, rhybuddion, pwniadau a/neu amser allan sydd â'r nod o dorri ar draws camau gweithredu ac annog myfyrio, greu pwyntiau ffrithiant ar gyfer SGII.

## Seiberfflachio

2.85 Mae seiberfflachio yn cyfeirio at anfon delwedd o organau rhywiol er mwyn achosi braw, trallod neu gywilydd neu er mwyn cael boddhad rhywiol.[139] [140]Gellir defnyddio'r term seiberfflachio hefyd yn fwy cyffredinol i gyfeirio at anfon delweddau rhywiol heb ganiatâd y derbynnydd.

2.86 Mae seiberfflachio yn torri preifatrwydd ac annibyniaeth rywiol derbynnydd y ddelwedd a gall gael effeithiau seicolegol negyddol ar y rhai sy'n cael eu targedu. Mae llawer o oroeswyr a dioddefwyr yn disgrifio'r profiad fel un ymosodol neu fygythiol ac yn teimlo'n ofnus neu'n agored i niwed o ganlyniad.[141] Mae tystiolaeth yn awgrymu bod menywod mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau LHDTC+ yn cael eu targedu’n anghymesur gan seiberfflachio.[142] Mae seiberfflachio yn rhan o niwed ehangach lle mae menywod, yn enwedig menywod mewn grwpiau lleiafrifol, yn cael eu rhywioli heb ganiatâd.

2.87 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwasanaethau sydd â swyddogaethau penodol mewn mwy o berygl o gael eu defnyddio i gyflawni seiberfflachio. Mae'r rhain yn cynnwys negeseuon uniongyrchol[143], negeseuon byrhoedlog[144] a'r gallu i wneud cysylltiadau â defnyddwyr anhysbys.[145]

2.88 Yn y Canllawiau hyn, rydym yn nodi camau arferion da sy'n arbennig o berthnasol i'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys cymylu cynnwys noethni yn awtomatig, gyda'r opsiwn i ddefnyddwyr gael gwared â’r cymylu i ddangos eu cydsyniad.

---

[139]Mae'r drosedd o seiberfflachio yn cyfeirio at anfon neu roi ffotograff neu ffilm o'r organau rhywiol gyda'r bwriad o achosi braw, trallod neu gywilydd, neu at ddibenion boddhad rhywiol ar ran yr anfonwr (gan fod yn ddi-hid ynghylch a ellid achosi braw, trallod neu gywilydd). Gweler adran 66A Deddf Troseddau Rhywiol 2003.
[140]Mae rhagor o wybodaeth am seiberfflachio ar gael yn Adran 19 Cofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon.
[141] Comisiwn y Gyfraith, 2022. Intimate image abuse: a final report. [cyrchwyd 28 Hydref 2025].
[142] McGlynn, C., 2021. Written evidence submitted by Professor Clare McGlynn, Durham Law School, Durham University. [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; McGlynn, C. A Johnson, K., 2022. Cyberflashing: Recognising Harms, Reforming Laws. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].
[143] YouGov (Smith, M), 2018. Four in ten young women have been sent unsolicited sexual images. [cyrchwyd 24 Medi 2025].
[144] Ipsos UK, 2024. Online communications: Qualitative research exploring experiences of sexualised messages online among children. [cyrchwyd 10 Tachwedd 2025].
[145] Ringrose, J., Regehr, K. and Whitehead, S, 2021. Teen Girl’ Experiences Negotiating the Ubiquitous Dick Pic: Sexual Double Standards and the Normalization of Image Based Sexual Harassment, *Sex Roles,* 85 (558). [cyrchwyd 24 Medi 2025].

# 3. Cymryd cyfrifoldeb

## Trosolwg

### Y cyd-destun

3.1 Mae mesurau effeithiol i liniaru niwed ar-lein ar sail rhywedd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflwyno prosesau llywodraethu ac atebolrwydd priodol, gan gynnwys cydymffurfio â'r dyletswyddau asesu risg a nodir yn y Ddeddf.[146] Bydd hyn yn sicrhau bod diogelwch menywod a merched ar-lein yn ystyriaeth allweddol yn newisiadau dylunio darparwyr gwasanaethau.

3.2 Yn y bennod hon, rydym yn nodi'r camau y gall darparwyr gwasanaethau eu hymgorffori fel rhan o'u prosesau llywodraethu ac asesu risg i fynd i'r afael yn briodol â niwed ar-lein ar sail rhywedd. Mae'r camau gweithredu penodol yn cynnwys:

- **Cam Gweithredu 1**: Sicrhau bod prosesau llywodraethu ac atebolrwydd yn mynd i'r afael â diogelwch menywod a merched ar-lein.
- **Cam Gweithredu 2**: Cynnal asesiadau risg sy'n canolbwyntio ar niwed i fenywod a merched.
- **Cam Gweithredu 3**: Bod yn dryloyw ynghylch diogelwch menywod a merched ar-lein.

3.3 Ar gyfer pob cam gweithredu, rydym yn nodi ein disgwyliad o ran sut beth yw llinell sylfaen o ddiogelwch (‘**camau sylfaenol’**) er mwyn i ddarparwyr gwasanaethau gyflawni eu dyletswyddau i ddiogelu defnyddwyr yn y DU. Mae gennym amrywiaeth o bwerau gorfodi i ddal cwmnïau i gyfrif pan fyddant yn methu â chydymffurfio â dyletswyddau.

3.4 Rydym hefyd yn tynnu sylw at **gamau arferion da** ychwanegol i ddangos sut gall darparwyr adeiladu ar y camau sylfaenol i flaenoriaethu diogelwch menywod a merched ar-lein, deall y risgiau a hyrwyddo ymddiriedaeth gyda'u defnyddwyr.

3.5 Rydym o'r farn bod defnyddio'r camau hyn yn ymarfer parhaus lle gall darparwyr asesu a gwella profiadau menywod a merched ar eu gwasanaeth yn barhaus.

### Ein canlyniadau targed

3.6 Rydym yn disgwyl y bydd mabwysiadu dull diogelwch drwy ddylunio ar gyfer diogelwch menywod a merched ar-lein yn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau'n ystyried niwed ar-lein ar sail rhywedd drwy gydol cylch bywyd datblygu eu gwasanaethau.[147]

3.7 Rydym hefyd yn disgwyl y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiad ar-lein pob defnyddiwr. Yn benodol, rydym o'r farn bod defnyddwyr ymylol ac agored i niwed sy'n profi cyfraddau

[146] I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein Canllawiau Asesu Risg Cynnwys Anghyfreithlon, a'n Canllawiau Asesu Risg i Blant.

[147] Strohmayer, A., Slupska, J., Bellini, R., Neff, G., Coventry, L., Hairston, A. and Dodge, A, 2021. Trust and Abusability Toolkit: Centering Safety in Human-Data Interactions. [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025]; Chatham House (Wilkinson, I., Hofstetter, J.S., Shires, J. and Yahaya, M.S.), 2024. The role of the private sector in combatting gendered cyber harms. [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025].

anghymesur o niwed yn debygol o gael eu diogelu'n well drwy sicrhau bod diogelwch defnyddwyr yn ganolog i strwythurau gwneud penderfyniadau ar draws y sefydliad.[148]

3.8 all prosesau llywodraethu ac asesu risg sy'n sensitif i rywedd hefyd helpu darparwyr gwasanaethau i ddeall a rhagweld risgiau i ddefnyddwyr yn well. Bydd yr ymwybyddiaeth well hon yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hyn yn cael eu blaenoriaethu a'u lliniaru'n briodol, gan gynnwys cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau strategol. Rydym hefyd yn argymell y dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau bod canlyniadau eu hasesiadau llywodraethu a risg ar gael i weithredwyr allanol er mwyn cynyddu atebolrwydd.

3.9 Dylai'r prosesau llywodraethu a dylunio sefydliadol hyn helpu darparwyr gwasanaethau i baratoi i ddelio â newidiadau yn y dirwedd ar-lein a allai gynyddu'r risgiau i ddefnyddwyr, gan gynnwys cynnydd sydyn mewn cynnwys anghyfreithlon a digwyddiadau sensitif. Gallent hefyd helpu i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd mesurau a gynlluniwyd i leihau risg.

## Cam Gweithredu 1: Sicrhau bod prosesau llywodraethu ac atebolrwydd yn delio â niwed ar-lein ar sail rhywedd

3.10 Mae prosesau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol yn rhoi'r sylfaen i ddarparwyr gwasanaethau nodi, rheoli ac adolygu risgiau i'w defnyddwyr. Drwy wreiddio atebolrwydd, goruchwyliaeth, annibyniaeth, tryloywder ac eglurder pwrpas yn eu gweithrediadau, gall darparwyr greu prosesau llywodraethu a dylunio sefydliadol sy'n gweithio'n dda. Gallai hyn arwain darparwyr i ymateb yn fwy effeithiol i niwed ar-lein ar sail rhywedd, er enghraifft drwy i uwch arweinwyr ei osod fel blaenoriaeth.

3.11 Mae arweinyddiaeth weithredol a chynrychioladol yn hanfodol er mwyn i ddarparwr gwasanaeth ymateb yn effeithiol i niwed ar-lein ar sail rhywedd sy'n bodoli ar ei wasanaeth neu sy'n cael ei hwyluso ganddo.[149] Dylai uwch arweinwyr ymgysylltu â niwed ar-lein sy'n seiliedig ar rywedd, a meithrin y diwylliant hwn gyda staff perthnasol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Gallai hyn gynnwys cyflogi gweithlu mwy amrywiol - yn enwedig sicrhau bod menywod a grwpiau sydd ar y cyrion yn cael eu cynrychioli mewn rolau arwain - er mwyn dod â phrofiad bywyd i'r prosesau gwneud penderfyniadau. Gall diwylliant o gynhwysiant gyda rolau, cylchoedd gwaith a strwythurau atebolrwydd mewnol clir gryfhau gallu darparwr gwasanaeth i ganfod, atal ac ymateb i niwed ar-lein yn erbyn menywod a merched.

3.12 Gall mesurau llywodraethu ac atebolrwydd hefyd gefnogi sefydliadau sy'n blaenoriaethu diogelwch drwy ddylunio, gan gynnwys datblygu polisïau mewnol (er enghraifft mewn nodau dysgu a datblygu) ac allanol (o ran gwasanaeth, er enghraifft).

3.13 Gall darparwyr gwasanaethau benderfynu pa bolisïau fydd fwyaf priodol ar gyfer eu gwasanaeth. Fodd bynnag, yn y Canllawiau hyn, rydym yn amlinellu argymhellion a thystiolaeth ar arferion da y gall darparwyr gwasanaethau ystyried eu mabwysiadu i fynd i'r afael yn effeithiol â niwed ar sail rhywedd.

[148] Constanza-Chock, S., 2020. Design Justice. [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025].
[149] Carnegie UK, The End Violence Against Women Coalition, Glitch, NSPCC, Refuge, 5Rights, Woods, L. and McGlynn, C., 2022. Violence Against Women and Girls (VAWG) Code of Practice. [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025]; Department for Science, Innovation & Technology and PUBLIC, 2025. Platform Design and the Risk of Online Violence Against Women and Girls. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

## Camau Sylfaenol: Beth yw'r disgwyliadau ar gyfer darparwyr gwasanaethau?

3.14 Mae ein Codau Ymarfer yn nodi'r camau canlynol ar gyfer darparwyr gwasanaethau, ar sail swyddogaethau, risg a maint:[150]

a) **Adolygiad y Bwrdd**: Dylai uwch gorff llywodraethu darparwyr gwasanaethau, mewn perthynas â'r gwasanaeth, gynnal a chofnodi adolygiad blynyddol o weithgareddau rheoli risg sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein. Byddai hyn yn cynnwys asesu risgiau sy'n weddill ar ôl rhoi mesurau'r Codau Ymarfer ar waith. Dylai'r adolygiad gynnwys sut mae darparwr gwasanaeth yn monitro ac yn rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg ar ei wasanaethau.[151]

b) **Unigolyn atebol:** Dylai darparwyr gwasanaethau enwi unigolyn sy'n atebol i'r corff llywodraethu uchaf am gydymffurfio â dyletswyddau diogelwch ar-lein.[152]

c) **Datganiadau ysgrifenedig o rolau a chyfrifoldebau:** Dylai darparwyr gwasanaethau gael datganiadau ysgrifenedig sy'n dangos yn glir rolau a chyfrifoldebau uwch reolwyr sy'n gwneud penderfyniadau am reoli risgiau diogelwch ar-lein.[153]

d) Swyddogaeth monitro a sicrwydd mewnol: Dylai darparwyr gwasanaethau sefydlu systemau mewnol i roi sicrwydd annibynnol bod y mesurau a gymerir i liniaru a rheoli'r risgiau o niwed, fel y nodir yn yr asesiadau risg plant a niwed anghyfreithlon, yn effeithiol ac yn gyson.[154]

e) **Monitro tueddiadau:** Dylai darparwyr gwasanaethau olrhain tystiolaeth o fathau newydd o gynnwys anghyfreithlon, cynnwys prif flaenoriaeth sy'n niweidiol i blant a chynnwys blaenoriaeth sy'n niweidiol i blant ar y gwasanaeth, a chynnydd anarferol mewn mathau penodol o gynnwys anghyfreithlon neu gynnwys sy'n niweidiol i blant, neu brocsi[155] am hyn.[156]

f) **Codau Ymddygiad:** Dylai darparwyr gwasanaethau sefydlu safonau a disgwyliadau clir ar gyfer unigolion sy'n gweithio i'r darparwr o ran diogelu defnyddwyr rhag risgiau diogelwch ar-lein.[157]

---

[150] Mae'r 'camau sylfaenol' yn cyfeirio at amrywiaeth o ddisgwyliadau rydym eisoes wedi'u nodi ar gyfer darparwyr gwasanaethau adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn. Mae'r 'camau sylfaenol' yn berthnasol i wahanol wasanaethau ar sail swyddogaeth, risg a maint. Mae gwybodaeth am ba gam sylfaenol sy'n berthnasol i ba wasanaeth wedi'i nodi yn y ddogfen Cipolwg ar y Canllawiau. Mae'r Codau Ymarfer ar Gynnwys Anghyfreithlon yn berthnasol i bob gwasanaeth chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cael ei reoleiddio, ac mae'r Codau Ymarfer ar Amddiffyn Plant yn berthnasol i wasanaethau o'r fath sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant (o fewn ystyr y Ddeddf).

[151] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU A1 / ICS A1), Amddiffyn Plant (PCU A1 / PCS A1).

[152] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU A2 / ICS A2), Amddiffyn Plant (PCU A2 / PCS A2).

[153] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU A3 / ICS A3), Amddiffyn Plant (PCU A3 / PCS A3).

[154] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU A4 / ICS A4), Amddiffyn Plant (PCU A4 / PCS A4).

[155] Mae 'procsi' yn golygu cynnwys y mae darparwr yn penderfynu ei fod yn torri ei delerau gwasanaeth, lle: a) roedd gan y darparwr reswm i amau y gallai'r cynnwys fod yn berthnasol [cynnwys anghyfreithlon] [cynnwys sy'n niweidiol i blant] [prif gynnwys /cynnwys blaenoriaeth]; a b) mae'r darparwr yn fodlon bod ei delerau gwasanaeth yn gwahardd y math o [gynnwys anghyfreithlon] [cynnwys sy'n niweidiol i blant] [cynnwys blaenoriaeth] perthnasol yr oedd ganddo reswm dros amau ei fod yn bodoli.

[156] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU A5 / ICS A5), Amddiffyn Plant (PCU A5 / PCS A5).

[157] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU A6 / ICS A6), Amddiffyn Plant (PCU A6 / PCS A6).

g) **Telerau gwasanaeth a datganiadau sydd ar gael i'r cyhoedd:** Dylai darparwyr gwasanaethau gyhoeddi darpariaethau clir a hygyrch ar sut y caiff defnyddwyr eu hamddiffyn rhag: (1) cynnwys anghyfreithlon, gan gynnwys niwed anghyfreithlon sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, fel stelcio, rheolaeth drwy orfodaeth a chamddefnyddio delweddau personol; (2) cynnwys sy'n niweidiol i blant gan gynnwys cam-drin misogynistaidd; a (3) cynnwys heb ei ddynodi (gweler **Astudiaeth achos 1**).[158] Dylai'r darpariaethau fod ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr. Mae hyn yn golygu y dylent fod yn hawdd dod o hyd iddynt, wedi'u fformatio'n glir, wedi'u hysgrifennu'n ddealladwy ar gyfer oedran darllen y defnyddiwr ieuengaf sy'n cael defnyddio'r gwasanaeth heb ganiatâd rhieni, ac wedi'u dylunio i fod yn gydnaws â thechnolegau cynorthwyol fel darllenwyr sgrin.

h) **Hyfforddiant cydymffurfio:** Dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau hyfforddiant priodol i staff sy'n ymwneud â dylunio a rheoli gwasanaeth yn weithredol, o ran eu dull o gydymffurfio â dyletswyddau diogelwch ar-lein.[159]

i) **Dyletswyddau ynghylch rhyddid mynegiant a phreifatrwydd:** Mae gan ddarparwyr gwasanaethau ddyletswydd i roi sylw penodol i bwysigrwydd diogelu hawl defnyddwyr i ryddid mynegiant o fewn y gyfraith, wrth benderfynu ar fesurau a pholisïau diogelwch sydd wedi'u cynllunio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â dyletswyddau penodol, a'u rhoi ar waith.[160] Yn yr un modd, mae gan ddarparwyr gwasanaethau ddyletswydd hefyd i roi sylw penodol i bwysigrwydd diogelu defnyddwyr rhag torri unrhyw ddarpariaeth statudol neu reol gyfreithiol sy'n ymwneud â phreifatrwydd sy'n berthnasol i ddefnyddio neu weithredu gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr (gan gynnwys ynghylch prosesu data personol).[161]

---

[158]Cynnwys Anghyfreithlon (ICU G1 a G3 / ICS G1 ac G3), Amddiffyn Plant (PCU G1 a G3 / PCS G1 a G3). Mae telerau gwasanaeth yn cyfeirio at wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, ac mae datganiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn cyfeirio at wasanaethau chwilio.

[159] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU A7 / ICS A7), Diogelu Plant (PCU A7 / PCS A7). Yn y cyd-destun hwn, mae staff yn cyfeirio at unigolion sy'n gweithio i'r cwmni.

[160] Adran 22(2) (gwasanaethau rhwng defnyddwyr) ac adran 33(2) o'r Ddeddf (gwasanaethau chwilio). O dan a.22(8) y Ddeddf, mesurau a pholisïau diogelwch yw'r rhain sydd wedi'u cynllunio i sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw un o'r dyletswyddau a nodir yn adran 10 (cynnwys anghyfreithlon), adran 12 (diogelwch ar-lein plant), adran 15 (grymuso defnyddwyr), adran 20 (riportio cynnwys), neu adran 21 (gweithdrefnau cwyno). Mae adran 33(4) o'r Ddeddf yn darparu'r dyletswyddau cyfatebol ar gyfer gwasanaethau chwilio: adran 27 (cynnwys anghyfreithlon), adran 29 (diogelwch plant ar-lein), adran 31 (adrodd cynnwys), neu adran 32 (gweithdrefnau cwyno).

[161] Adran 22(3) (gwasanaethau rhwng defnyddwyr) ac adran 33(3) (gwasanaethau chwilio). O dan a.22 bydd gan Wasanaethau categori 1 ddyletswyddau ychwanegol i gynnal, cyhoeddi a diweddaru asesiadau effaith o fesurau a pholisïau diogelwch arfaethedig a mabwysiedig ar hawl defnyddwyr i ryddid mynegiant o fewn y gyfraith a hefyd preifatrwydd defnyddwyr. Bydd dyletswydd ar y gwasanaethau hynny hefyd i nodi mewn datganiad sydd ar gael i'r cyhoedd y camau cadarnhaol a gymerwyd gan y darparwr i ddiogelu hawl defnyddwyr i ryddid mynegiant o fewn y gyfraith ac o fewn preifatrwydd. Daw'r dyletswyddau ychwanegol hyn i rym unwaith y cyhoeddir y gofrestr gyntaf o wasanaethau Categori 1.

3.15 Mae **astudiaeth achos 1** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol gofnodi'r risg o stelcio yn ei delerau gwasanaeth a systemau llywodraethu.

## Astudiaeth Achos 1 (sylfaenol): Cofnodi stelcio yn nhermau gwasanaeth

### Senario:

Mae **darparwr cyfryngau cymdeithasol** yn dod yn ymwybodol drwy ymgyrch sy'n cael ei rhedeg gan sefydliad gwrth-stelcio rheng flaen bod cyflawnwyr **stelcio** yn manteisio ar ei nodweddion, fel negeseuon cyhoeddus, data lleoliad, a rhestrau cyhoeddus o ffrindiau. Pan fydd y darparwr gwasanaeth yn adolygu ei delerau gwasanaeth, mae'r tîm ymddiriedaeth a diogelwch yn sylwi nad yw'r polisi'n sôn am stelcio.

### Camau i'w cymryd:

Mae'r darparwr cyfryngau cymdeithasol yn diweddaru ei **delerau gwasanaeth**, gan gynnwys ei ganllawiau cymunedol i ddiffinio a gwahardd stelcio, yn ogystal â gosod allan yr hyn y bydd y darparwr yn ei wneud i weithredu ar achosion o dorri'r polisi hwn yn glir ac yn benodol. Mae timau cyfreithiol ac ymddiriedaeth a diogelwch y darparwr gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y telerau gwasanaeth hyn yn glir ac yn hygyrch ac yn diffinio stelcio'n fanwl er mwyn sicrhau cwmpas clir.[162]

- Ar ôl cytuno arnynt, mae angen i'r darparwr gwasanaeth ddiweddaru a chyhoeddi'r canllawiau ar gyfer ei brosesau a'i systemau mewnol. Mae'r canllawiau newydd yn sail i hyfforddiant staff wedi'i ddiweddaru ar gyfer ymddiriedaeth a diogelwch, cymedroli cynnwys, a thimau arwain.
- Mae angen i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y telerau gwasanaethau a gyhoeddir: (1) wedi'u drafftio gan ddefnyddio iaith glir a hygyrch ar gyfer y gynulleidfa darged; (2) wedi'u hysgrifennu ar gyfer oedran darllen dealladwy y defnyddiwr ieuengaf; (3) wedi'u fformatio'n glir; ac (4) yn hawdd dod o hyd iddynt ac yn hygyrch i'r rheini sy'n defnyddio technolegau cynorthwyol.
- Ar ôl eu cyhoeddi, mae'r darparwr gwasanaeth yn sefydlu proses ar gyfer diweddaru ei bolisïau cynnwys mewnol mewn ymateb i dystiolaeth o niwed anghyfreithlon newydd a niwed anghyfreithlon cynyddol ar y gwasanaeth (gweler Cam Gweithredu 2).

### Ystyriaethau:

- Mae newidiadau i reolau cynnwys gwasanaethau yn debygol o fod yn “newid sylweddol” i'r gwasanaeth, sy'n golygu bod angen cynnal asesiad risg newydd sy'n ymwneud â'r newid arfaethedig cyn ei roi ar waith. Mae'r Canllawiau ar Niwed Anghyfreithlon ac Asesu Risg Plant yn rhoi rhagor o arweiniad ar beth yw “newid sylweddol” at y dibenion hyn a sut dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried hyn.

[162] Gweler Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997 (adran 2A). Deddf Cyfiawnder Troseddol a Thrwyddedu (Yr Alban) 2010 - adran 39.

## Camau ymarfer da: Sut gall darparwyr gwasanaethau fynd ymhellach?

3.16 Gall darparwyr gwasanaethau fynd ymhellach drwy ddangos yn fewnol ac yn allanol eu hymrwymiad i ddiogelwch menywod a merched ar-lein a'u parodrwydd i wella mewn ymateb i adborth.

3.17 Yn yr adran hon, rydym yn nodi enghreifftiau o gamau arfer da y gall darparwyr gwasanaethau eu cymryd ochr yn ochr â'r camau sylfaenol i wella diogelwch defnyddwyr rhag niwed ar-lein ar sail rhywedd. Gall hyn gynnwys:

a) **Pennu polisïau** sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â mathau penodol o niwed ar-lein ar sail rhywedd sy'n gyffredin ar y gwasanaeth (gweler **Astudiaeth Achos 2**).[163] Gallai hyn gynnwys diffinio a gwahardd:

i) Cam-drin misogynistaidd sy'n effeithio ar grwpiau penodol, fel casineb at fenywod a merched Du (misogynoir)[164] a cham-ryweddu bwriadol (cyfeirio at rywun, yn enwedig person trawsryweddol, gan ddefnyddio gair, yn enwedig rhagenw neu fath o gyfeiriad, nad yw'n adlewyrchu ei hunaniaeth rhywedd)[165]; neu

ii) Hyrwyddo niwed ar sail rhywedd oddi ar y safle, fel hyrwyddo gwasanaethau creu ffugiadau dwfn fel apiau noethni, neu fforymau sy'n rhannu esboniadau o sut mae monitro eich partner.

b) **Ystyried croestoriadedd niwed** yn y prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau a gyflawnir gan ddarparwyr gwasanaethau. Er enghraifft, dylai darparwyr gwasanaethau hefyd ystyried sut y gall hunaniaeth rhywedd, hil neu anabledd defnyddwyr gynyddu'r risgiau y maent yn eu hwynebu. Gall y ddealltwriaeth hon helpu i lywio prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau drwy osgoi mynd i'r afael â niweidiau ar eu pen eu hunain.

c) **Ymgynghori ag arbenigwyr pwnc**, yn enwedig y rheini sydd â phrofiad o gefnogi goroeswyr a dioddefwyr niwed ar sail rhywedd a'r rheini sydd ag arbenigedd mewn deall sut gall gwahanol fathau o gynnwys a gweithgarwch arwain at niwed, wrth bennu polisïau a thelerau gwasanaeth a datblygu hyfforddiant staff (gweler **Astudiaeth Achos 3**). Bydd arbenigwyr pwnc priodol yn amrywio yn dibynnu ar y darparwr gwasanaeth. Er enghraifft gallai gwasanaethau sy'n caniatáu pornograffi ymgynghori â sefydliad sy'n darparu dosbarthiadau, fel Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain wrth ystyried sut i fynd i'r afael â mathau o gynnwys rhywiol amlwg a allai fod yn niweidiol.

d) **Hyfforddi gweithwyr** sy'n gyfrifol am a/neu'n cymryd rhan yn y gwaith o bennu polisïau a phrosesau llywodraethu neu wneud penderfyniadau ar y niwed ar-lein ar sail rhywedd sy'n esblygu, gan gynnwys sut gall diogelwch drwy ddylunio liniaru'r niwed hwn. Mae hyfforddiant yn pwysleisio gorfodaeth gyson a chymesur, a mynd ati'n

---

[163] Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried anghenion eu sylfaen defnyddwyr yn y DU wrth ystyried pa ieithoedd sydd eu hangen i sicrhau bod eu polisïau'n hygyrch.

[164] Glitch, 2023. The Digital Misogynoir Report: Online abuse against Black women allowed and enabled to thrive. [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; Bailey, M., 2021. Misogynoir Transformed: Black Women's Digital Resistance. [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025].

[165] Mae'n bwysig nodi bod rhai credoau rhywedd-feirniadol yn cael eu gwarchod fel "credoau athronyddol" o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Er enghraifft, yn Forstater v CDG Europe [2021] 6 WLUK 104, roedd y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth wedi cadarnhau bod cred "rhywedd-feirniadol" bod rhyw yn fiolegol ddigyfnewid, a bod rhyw yn hytrach na hunaniaeth rhywedd yn sylfaenol bwysig, yn "gred athronyddol" a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Fodd bynnag, mae rhai mathau o gamryweddu, fel y nodir yn y Canllawiau ar Niwed Plant, yn gamdriniol a/neu'n gas ac yn gallu bod yn fath o aflonyddu.

rhagweithiol i fynd i'r afael â cham-drin misogynistaidd a thrais rhywiol, ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol, stelcio a rheolaeth orfodol, a cham-drin rhywiol sy'n seiliedig ar ddelweddau, heb sensro'r ddadl yn ormodol. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth i sicrhau bod contractwyr yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol yn unol â'r uchod.

e) **Sicrhau adnoddau digonol** i ddatblygu'r arbenigedd polisi a risg parhaus sydd ei angen i gyflawni amcanion ymddiriedaeth a diogelwch, fel pennu polisïau neu gynnal asesiad risg sy'n sensitif i rywedd. Gallai hyn hefyd gynnwys adnoddau ac arbenigedd digonol i ymateb i adegau o risg uwch o niwed ar-lein sy'n seiliedig ar rywedd, megis yn ystod cyfnodau o adegau dinesig allweddol fel etholiadau neu ddigwyddiadau diwylliannol.[166]

f) **Creu polisi ymwybyddiaeth o'r cyfryngau** drwy ddylunio i hyrwyddo defnydd beirniadol a gwybodus o'i wasanaeth, fel y nodir yn Egwyddorion Arferion Gorau Ofcom ar gyfer Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau drwy Ddylunio. Gall ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fod yn arbennig o bwysig a gwerthfawr i blant ac oedolion ifanc.

g) **Sefydlu mecanwaith goruchwylio** ar gyfer penderfyniadau llywodraethu a dylunio, gan gynnwys asesiadau risg, polisïau ymddiriedaeth a diogelwch a'u rhoi ar waith ar draws timau cymedroli cynnwys (gweler **Astudiaeth achos 4**).[167]

[166] Ofcom, 2025. Casineb a cham-drin ar-lein mewn chwaraeon. Mae ymchwil wedi canfod bod menywod mewn bywyd cyhoeddus yn profi niwed anghymesur ac unigryw, gan gynnwys yn ystod cyfnodau etholiad. Institute for Strategic Dialogu, 2025. SylwadauCrushing Comments: Gendered Harassment During the 2024 EU Parliament Elections on TikTok. [cyrchwyd 17 Tachwedd 2025]; Institute for Strategic Dialogue, 2024. Votes and Vitriol: Online Abuse Targeting Women Candidates in the 2024 French Legislative Elections. [cyrchwyd 17 Tachwedd 2025]. Ofcom, 2025, Profiadau o gasineb a cham-drin ar-lein ymhlith menywod mewn gwleidyddiaeth.

[167] LEAF (Khoo, C.), 2021. Deplatforming Misogyny: Report on Platform Liability for Technology-Facilitated Gender-Based Violence. [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025].

3.18 Mae **astudiaeth achos 2** yn nodi enghreifftiau o sut gall fforwm trafod sicrhau bod ei delerau gwasanaeth yn cael eu diweddaru i fynd i'r afael â mathau newydd o niwed ar-lein ar sail rhywedd.

## Astudiaeth achos 2 (arfer da): Polisïau clir ar niwed ar sail rhywedd

### Senario

Mae **fforwm trafod** yn sylwi bod nifer o fforymau wedi cael eu sefydlu i ail-rannu delweddau o fenywod a'u hail-bostio gyda sylwadau sy'n gwrthrycholi a diraddio yn seiliedig ar rywedd.

Mae'r fforwm trafod eisoes yn gwahardd camddefnyddio delweddau personol a'r rhan fwyaf o fathau o **gam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol**, ond mae'n sylweddoli nad yw'r polisi'n mynd i'r afael yn benodol â'r math hwn o gam-drin misogynistaidd.

### Camau i'w cymryd:

- Mae'r fforwm trafod yn diweddaru ei bolisi ar gam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol i'w gwneud yn glir bod targedu menyw neu ferch gyda sylwadau sy'n gwrthrycholi neu'n diraddio yn groes i'w **delerau gwasanaeth**.
- Mae timau cyfreithiol ac ymddiriedaeth a diogelwch y fforwm trafod yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y polisi newydd yn glir ac yn hygyrch ac yn diffinio'r math hwn o gam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol yn union er mwyn osgoi gorymestyn.
- Oherwydd bod y math hwn o ymddygiad wedi'i wahardd yn glir ym mholisïau'r fforwm trafod, gall goroeswyr a dioddefwyr roi gwybod am y niwed penodol hwn drwy'r systemau a'r prosesau adrodd priodol a sefydledig (gweler Cam Gweithredu 8).
- Gall y darparwr gwasanaeth wedyn ddefnyddio'r digwyddiadau a gofnodwyd fel ffynhonnell wybodaeth ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd ei bolisi a diweddaru'r polisi yn ôl yr angen.

### Ystyriaethau:

- Yn y pen draw, mater i ddarparwyr yw penderfynu pa gynnwys maen nhw'n ei ganiatáu ar eu gwasanaethau ar yr amod bod hyn yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf, ond dylai darparwyr fod yn dryloyw gyda defnyddwyr ynghylch y dewisiadau maen nhw'n eu gwneud a'r cynnwys y gallai defnyddwyr ddod i gysylltiad ag ef.
- Nid yw datblygu a gweithredu polisïau ond yn effeithiol os yw darparwr gwasanaeth yn ymrwymo i'w gorfodi, gan gynnwys cymryd camau priodol am dorri'r polisïau (gweler Cam Gweithredu 9).

3.19 Mae **astudiaeth achos 3** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr gwasanaeth negeseuon ymgysylltu â sefydliadau arbenigol i lywio'r gwaith o ddatblygu ei bolisi.

**Astudiaeth achos 3 (arfer da):**
**Ymgysylltu ag arbenigwyr pwnc**

**Senario:**

Mae **darparwr gwasanaeth negeseua** yn dod yn ymwybodol bod **cyflawnwyr rheolaeth drwy orfodaeth** yn defnyddio ei wasanaeth i ddychryn a monitro eu dioddefwyr. Mae'r ymddygiadau hyn yn aml yn dod i'r amlwg fel patrymau, gan eu gwneud yn anodd eu canfod mewn achosion unigol fel un neges neu bost. Mae'r gwasanaeth negeseuon yn ei chael hi'n anodd rhagweld sut gallai defnyddwyr gamddefnyddio ei nodweddion; yn enwedig wrth i dactegau cam-drin esblygu'n gyflym.

**Camau i'w cymryd:**

Mae'r darparwr gwasanaeth yn chwilio am **sefydliadau sy'n cefnogi ac yn cynrychioli goroeswyr a dioddefwyr** rheolaeth drwy orfodaeth, yn enwedig sefydliadau sy'n cael eu harwain gan ac ar gyfer goroeswyr a dioddefwyr.

- Mae'r darparwr gwasanaeth yn asesu pa arbenigedd sydd ei angen arno a pha sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu mewnbwn priodol a gwybodus. Mae'n cwrdd â sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau penodol sydd mewn perygl o niwed - fel grwpiau sy'n cynrychioli goroeswyr a dioddefwyr LHDT+ neu sy'n fewnfudwyr - i gynnwys profiadau croestoriadol o gam-drin. Mae cyfarfodydd dwyochrog cychwynnol yn arwain darparwr y gwasanaeth i sefydlu bwrdd cynghori sy'n cwrdd yn rheolaidd i gael mewnbwn ac adolygiad ffurfiol.
- Wrth gyflwyno nodweddion newydd, mae'r darparwr gwasanaeth yn defnyddio'r dull cyd-ddylunio drwy ddod â goroeswyr a dioddefwyr i mewn drwy'r bwrdd cynghori yn gynharach yn y broses ddylunio fel cyfranogwyr gweithredol, yn hytrach nag ymgynghori â nhw fel ôl-ystyriaeth ar ôl datblygu nodwedd. Mae'r darparwr gwasanaeth a'r sefydliadau'n gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod yr ymgysylltu hwn yn sensitif ac yn ystyriol o drawma.
- Ar ôl ymgysylltu â'r bwrdd cynghori, gall y darparwr asesu'n well y risg o ymddygiad gorfodol ar ei gwasanaeth (gweler Cam Gweithredu 2) a datblygu polisïau gwell (gweler Cam Gweithredu 1), mesurau diogelwch ataliol (gweler Camau 4-6) a systemau adrodd (gweler Cam Gweithredu 8) mewn ymateb i'r niwed hwn.

**Ystyriaethau:**

- Gall ymgysylltu â darparwyr roi baich ar grwpiau agored i niwed, yn ogystal â sefydliadau sy'n eu cefnogi.[168] Gan nad oes digon o adnoddau gan y sefydliadau hyn yn aml, mae'n arfer da darparu digollediad priodol am unrhyw waith sydd wedi'i neilltuo i wella polisïau neu arferion darparwyr (mae hyn yn cynnwys aseswyr allanol ar gyfer asesiadau risg).[169]
- Gall dulliau cyfranogol fel cyd-ddylunio hefyd fod yn drwm ar adnoddau. Gall hyn fod yn afresymol o ran cost i ddarparwyr gwasanaeth llai. Os felly, gallai darparwyr ystyried defnyddio ymchwil bresennol gan sefydliadau sydd ag arbenigedd pwnc mewn niwed ar-lein ar sail rhywedd, a sefydliadau sydd â phrofiad o ymchwil sy'n seiliedig ar drawma (gweler **Astudiaeth achos 6**).

---

[168] Gweithdy Rhanddeiliaid 2 Ofcom ar Ddiogelwch Menywod a Merched Ar-lein, [cyrchwyd 19 Tachwedd 2025].

[169] Cymorth i Fenywod, 2024. Domestic abuse services struggling to fill critical gaps in a challenging landscape, exacerbated by the rising cost-of-living. [cyrchwyd 10 Tachwedd 2025].

3.20 Mae **astudiaeth achos 4** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr cyfryngau cymdeithasol ddefnyddio goruchwyliaeth allanol ar gyfer cymedroli cynnwys.

## Astudiaeth achos 4 (arfer da):
## Goruchwyliaeth allanol ar gyfer cymedroli cynnwys

### Senario

Mae **darparwr cyfryngau cymdeithasol** yn poeni ar ôl i'w bolisïau cymedroli cynnwys gael eu camddefnyddio, sydd wedi arwain at dynnu cynnwys nad yw'n waharddedig, fel mamau sy'n bwydo ar y fron, cyplau LHDTC+ yn cusanu neu oroeswyr a dioddefwyr yn rhannu eu profiadau o drais rhywiol.[170]

Mae'r darparwr cyfryngau cymdeithasol yn nodi bod gan yr algorithmau cymedroli cynnwys ragfarnau oherwydd eu data hyfforddi, a allai gyfrannu at gymedroli cynnwys yn anghyson, ochr yn ochr â hyfforddiant cymedrolwyr a allai fethu ystyriaethau pwysig

### Camau i'w cymryd:

Mae'r darparwr gwasanaeth yn sefydlu **proses gymrodeddu allanol**, drwy gynnwys panel o arbenigwyr pwnc i adolygu penderfyniadau cymedroli.

- Mae'r cymrodeddwr yn derbyn cwynion gan ddefnyddwyr sy'n apelio yn erbyn penderfyniadau cymedroli cynnwys ac yn dewis adolygu cwynion penodol sy'n dangos gorfodaeth anghyson yn erbyn polisïau darparwr y gwasanaeth. Yn dilyn yr adolygiad hwn, bydd y cymrodeddwr yn argymell naill ai bod penderfyniad yn cael ei wrthdroi neu ei gadarnhau.
- Mae'r darparwr gwasanaeth yn defnyddio adborth gan y cymrodeddwr a data o'i apeliadau i ganfod patrymau tuedd wrth gymedroli cynnwys.[171] Mae'n defnyddio'r data hwn i lywio adolygiadau yn y dyfodol o'i algorithmau cymedroli cynnwys (gweler Cam Gweithredu 6) ac fel sail i'w hyfforddiant ar gyfer timau cymedroli cynnwys (gweler **Astudiaeth Achos 23**).

### Ystyriaethau:

- Gall defnyddio cymrodeddwr fod yn anymarferol o ran cost i ddarparwyr gwasanaeth llai neu lai sefydledig.  Gallai darparwyr llai ystyried defnyddio ymchwil presennol gan sefydliadau sydd ag arbenigedd pwnc mewn niwed ar-lein ar sail rhywedd, a chymryd rhan mewn ymchwil defnyddwyr i ddeall lle mae penderfyniadau cymedroli wedi cael effeithiau anfwriadol (gweler **Astudiaeth Achos 6**).

---

[170] Peters, J., 2020. Sexual Content and Social Media Moderation, *Washburn Law Journal*, 59 (3). [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025]; Institute of Strategic Dialogue (Matlach, P-D. and Small, A.C.), 2024. Off-limits: Sexual Violence on TikTok. [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025].
[171] Hawkins, I., Roden. J., Attal, M. a Aqel, H., 2023. Race and gender intertwined: why intersecting identities. matter for perceptions of incivility and content moderation on social media, *Journal of Communication*, 73 (6). [cyrchwyd 4 Tachwedd 2025]

## Cam Gweithredu 2: Cynnal asesiadau risg sy’n canolbwyntio ar niwed i fenywod a merched

3.21 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod risgiau o niwed ar-lein ar sail rhywedd yn gallu cael eu hanwybyddu'n eang a'u lleihau'n ddiwylliannol mewn sefydliadau.[172] Er enghraifft, yn aml mae bygythiadau rhyweddol fel trais rhwng partneriaid agos wedi cael eu colli mewn prosesau modelu bygythiadau diwydiant ac ymchwil sy'n edrych ar sut y gallai diogelwch system gael ei beryglu.[173] Yn hytrach, gall gwerthusiadau diogelwch yn aml dybio mai dieithryn allanol neu anhysbys yw prif ffynhonnell y bygythiad. O ganlyniad, nid oes digon o nodweddion neu brosesau diogelwch i ymateb pan fydd y bygythiad yn bartner agos i'r defnyddiwr.

3.22 Am y rhesymau hyn, mae asesiadau risg sy'n sensitif i rywedd yn bwysig er mwyn lliniaru gweithgarwch ar-lein niweidiol o'r fath yn effeithiol. Cyflawnir asesiadau risg sy'n sensitif i rywedd drwy sicrhau bod y prosesau asesu risg presennol (fel y nodir yn ein Canllawiau ar Gynnwys Anghyfreithlon ac Asesu Risg i Blant) yn ystyried rhywedd fel rhan o ddemograffeg y sylfaen defnyddwyr. Gall gwasanaethau adeiladu ymhellach ar yr asesiadau risg presennol hyn i gofnodi deinameg niwed ar sail rhywedd.[174]

3.23 Mae angen i ddarparwyr gwasanaethau feithrin dealltwriaeth o ffactorau sy'n galluogi ac yn hyrwyddo niwed ar-lein ar sail rhywedd yn eu hasesiadau risg diogelwch ar-lein er mwyn dylunio systemau a phrosesau mwy diogel. Wrth i dechnolegau esblygu'n gyflym, bydd angen i ddarparwyr hefyd gadw golwg ar risgiau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran cyflawni, yn enwedig wrth gyflwyno mesurau a nodweddion newydd.

## Camau Sylfaenol: Beth yw'r disgwyliadau ar gyfer darparwyr gwasanaethau?

3.24 Mae ein Codau a’n canllawiau asesu risg yn nodi'r camau canlynol ar gyfer darparwyr gwasanaethau, ar sail swyddogaethau, risg a maint:[175]

a) **Asesiad risg**: Mae gan ddarparwyr gwasanaethau ddyletswydd i gynnal asesiad risg addas a digonol o gynnwys anghyfreithlon, a chymryd camau priodol i'w ddiweddaru'n gyson. Rhaid iddynt hefyd gynnal asesiad risg pellach pan fyddant yn bwriadu gwneud newid sylweddol i'r gwasanaeth, sy'n ymwneud ag effeithiau'r newid arfaethedig.[176] Yn

[172] Criado-Perez, C., 2019. Invisible Women. [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025].
[173] Slupska, J. a Tanczer, L., 2021. Threat Modeling Intimate Partner Violence: Tech Abuse as a Cybersecurity Challenge in the Internet of Things in *The Emerald International Handbook of Technology-Facilitated Violence and Abuse.* [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025].
[174] Gall prosesau gwell ar gyfer profi cynnyrch, fel camddefnyddioldeb neu ymarferion tîm coch, fod yn arbennig o berthnasol wrth dynnu sylw at risgiau sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. Bydd y rhain yn cael eu harchwilio ymhellach ym Mhennod 4, gyda Phennod 3 yn canolbwyntio ar arferion cyffredinol ar gyfer asesu risg a modelu bygythiadau a ddylai ddigwydd cyn datblygu cynnyrch newydd.
[175] Mae'r 'camau sylfaenol' yn cyfeirio at amrywiaeth o ddisgwyliadau rydym eisoes wedi'u nodi ar gyfer darparwyr gwasanaethau adeg cyhoeddi'r Canllawiau hyn. Mae'r 'camau sylfaenol' yn berthnasol i wahanol wasanaethau ar sail swyddogaeth, risg a maint. Mae gwybodaeth am ba gam sylfaenol sy'n berthnasol i ba wasanaeth wedi'i nodi yn y ddogfen Cipolwg ar y Canllawiau. Mae'r Codau Ymarfer Cynnwys Anghyfreithlon yn berthnasol i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio a reoleiddir, ac mae'r Codau Ymarfer Diogelu Plant yn berthnasol i wasanaethau o'r fath lle mae'n debygol y bydd plant yn eu cyrchu (o fewn ystyr y Ddeddf).
[176] Adran 9 (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr) ac adran 26 (chwilio) y Ddeddf. Rhaid i bob darparwr asesu'r risg o niwed i bob defnyddiwr o gynnwys anghyfreithlon. Yng nghyd-destun cynnwys anghyfreithlon sy'n effeithio'n

yr un modd, mae gan ddarparwyr y mae eu gwasanaethau'n debygol o gael eu defnyddio gan blant ddyletswydd i gynnal asesiadau risg i blant addas a digonol.[177] Er gwybodaeth, bydd angen i rai darparwyr gwasanaeth gynnal asesiadau ychwanegol o dan y dyletswyddau grymuso defnyddwyr sydd ar y gweill. Mae ein canllawiau'n awgrymu pedwar cam ar gyfer asesiad risg addas a digonol:[178]

iii) **Deall y niwed**: Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau asesu lefel y risg ar gyfer pob math o gynnwys anghyfreithlon â blaenoriaeth a chynnwys anghyfreithlon arall, yn ogystal ag ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. Mae hyn yn cynnwys deunydd a gweithgarwch sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, fel camddefnyddio delweddau personol ac ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol.

iv) **Asesu'r risg o niwed:** Lle bo'n berthnasol, dylai darparwyr gwasanaethau ystyried y risg o niwed o ran eu sylfaen defnyddwyr, modelau busnes, swyddogaethau, llywodraethiant, a systemau a phrosesau. Rydym yn darparu canllawiau ar y dystiolaeth y dylai darparwyr gwasanaethau ei defnyddio ar gyfer hyn, gan nodi "mewnbynnau craidd" a "mewnbynnau uwch". Er enghraifft, rydym o'r farn bod canlyniadau profi cynnyrch yn fewnbwn uwch y gall darparwyr gwasanaethau ei ddefnyddio i asesu'r risg o niwed ar eu gwasanaethau (gweler Cam Gweithredu 4). Gall darparwyr gwasanaethau hefyd ystyried data neu wybodaeth o'u gweithdrefnau adrodd a chwyno i asesu pa mor gyffredin yw mathau penodol o niwed, a hanes y gwasanaeth o ddelio â chwynion o'r fath.[179]

v) **Penderfynu ar fesurau, eu gweithredu a'u cofnodi:** Os bydd darparwyr gwasanaethau'n rhoi mesurau a argymhellir yn y Codau Ymarfer ar waith, byddant yn cael eu trin fel rhai sy'n cydymffurfio â'r dyletswyddau perthnasol. Nid yw'r Ddeddf yn mynnu bod darparwyr gwasanaethau'n mabwysiadu'r mesurau a nodir yn y Codau. Gall gwasanaethau ddewis cydymffurfio â'u dyletswyddau mewn ffordd arall sy'n gymesur â'u hamgylchiadau ar yr amod eu bod yn cadw cofnod o'r hyn maen nhw wedi'i wneud a sut mae'r dyletswyddau perthnasol wedi cael eu cyflawni. Dylai darparwyr gwasanaethau gofnodi canlyniadau eu hasesiad risg.[180]

vi) **Adrodd, adolygu a diweddaru'r asesiadau risg**: Dylai darparwyr gwasanaethau roi gwybod i gorff llywodraethu mewnol perthnasol am ganlyniadau eu hasesiad risg a'u mesurau diogelwch ar-lein a'u diweddaru'n rheolaidd.

b) **Polisïau cymedroli cynnwys a chwilio mewnol**: Dylid pennu'r polisïau hyn gan ystyried canfyddiadau'r asesiad risg a dylai darparwyr fod â phrosesau ar waith ar gyfer diweddaru'r polisïau hyn mewn ymateb i dystiolaeth o niwed neu niwed anghyfreithlon newydd a chynyddol i blant ar y gwasanaeth.[181]

---

anghymesur ar fenywod a merched, mae hyn yn cynnwys deunydd ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi, stelcio, a chamddefnyddio delweddau personol.

[177] Adran 11 (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr) ac adran 28 (chwilio) y Ddeddf. Rhaid i ddarparwyr safleoedd sy'n hygyrch i blant asesu'r risg o niwed i blant o gynnwys sy'n niweidiol iddynt, gan gynnwys deunydd treisgar, camdriniol, cas a phornograffig.

[178] I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein Canllawiau Asesu Risg Cynnwys Anghyfreithlon, a'n Canllawiau Asesu Risg i Blant.

[179] I gael rhagor o wybodaeth am (1) adnabod cynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant, cyfeiriwch at y Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon neu'r Canllawiau ar Gynnwys Niweidiol i Blant; a (2) deall sut mae'r niwed hwn yn dod i'r amlwg, cyfeiriwch at y Cofrestri Niwed Anghyfreithlon a Risg i Blant.

[180] I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein Canllawiau Cadw Cofnodion ac Adolygu.

[181] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU C3 / ICS C2), Amddiffyn Plant (PCU C3 / PCS C3).

3.25 Mae **astudiaeth achos 5** yn nodi enghreifftiau o sut gall gwasanaeth chwarae gemau roi cyfrif am y risgiau o niwed i wahanol ddefnyddwyr, gan ystyried y gorgyffwrdd rhwng niwed a dylanwad oedran ar risg, yn unol â'n canllawiau asesu risg.[182]

**Astudiaeth achos 5 (sylfaenol):**
**Asesiad risg sy'n sensitif i rywedd**

**Senario**

Yn dilyn ymchwiliad gan grŵp hawliau plant, daw **gwasanaeth gemau** yn ymwybodol y gallai merched a bechgyn fod yn wynebu gwahanol fathau o risgiau ar eu gwasanaethau. Roedd y darparwr gwasanaeth eisoes wedi cynnal asesiad risg yn unol â'i ddyletswyddau statudol o dan y Ddeddf, ond nid oedd wedi ystyried y risgiau a brofir gan wahanol rywiau yn fanwl.

**Camau i'w cymryd:**

Mae'r darparwr gwasanaeth yn hyfforddi ac yn darparu adnoddau priodol i'w staff **gynnal asesiad risg sy'n sensitif i rywedd** fel rhan o ddiweddariad i'w asesiad risg ar gyfer cynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant.

- Mae'r darparwr gwasanaeth yn asesu ei ddata ar ddemograffeg sylfaen defnyddwyr i ddeall y risgiau a brofir gan wahanol ryweddau, gan gynnwys pa niwed sy'n effeithio'n anghymesur ar ferched.[183]
- Mae'r darparwr gwasanaeth yn mapio sut mae merched a bechgyn sydd â nifer o nodweddion gwarchodedig yn profi risgiau unigryw a chynyddol yn eu hasesiadau risg, gan ystyried proffiliau risg Ofcom.[184]
- Mae'r darparwr gwasanaeth hefyd yn dysgu bod menywod ifanc (18-34 oed) yn wynebu risg benodol o gael eu cam-drin yn rhywiol ar sail delweddau, gan gynnwys seiberfflachio a chamddefnyddio delweddau personol ar wasanaethau negeseuon.[185]
- Mae hefyd yn dysgu bod merched a menywod ifanc o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, merched LHDTC+ a merched anabl, yn fwy tebygol o weld iaith casineb ar ei wasanaethau.[186]
- O ganlyniad i'r asesiad risg hwn, mae'r darparwr gwasanaeth yn gwneud newidiadau i'w osodiadau diofyn i sicrhau bod y risgiau penodol y mae merched a menywod ifanc yn eu hwynebu yn cael sylw, gan arwain at newidiadau sy'n golygu bod pob defnyddiwr yn fwy diogel (gweler Cam Gweithredu 5)

**Ystyriaethau:**

- Wrth ystyried defnyddio data personol, rhaid i ddarparwyr hefyd ystyried hawliau preifatrwydd a chydymffurfio â gofynion cyfraith diogelu data, gan gynnwys yr egwyddor lleihau data.[187]

---

[182]Canllawiau Asesu Risg Cynnwys Anghyfreithlon a'n Canllawiau Asesu Risg i Blant.
[183]Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu canllawiau defnyddiol ar ddefnyddio technoleg storio a mynediad, a fydd yn berthnasol mewn achosion lle mae casglu data demograffig yn cael ei hwyluso gan y technolegau hyn. Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ganllawiau ac adnoddau ehangach ar Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (PECR) a GDPR y DU.
[184]Cofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon a'r Gofrestr Risg Plant.
[185]I gael rhagor o wybodaeth, gweler adran 6 (camddefnyddio delweddau personol) ac adran 19 (seiberfflachio) yn y Gofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon.
[186] Girlguiding, 2024. Girls' Attitudes Survey 2024 [cyrchwyd 19 Awst 2025].
[187]Rydym yn annog darparwyr i ddarllen canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ofynion GDPR y DU, a Anhysbysedd. Anogir darparwyr hefyd i ymgynghori â'r Cod Dylunio Priodol i Oedran wrth brosesu gwybodaeth bersonol plant. [accessed 4 November 2025].

## Camau ymarfer da: Sut gall darparwyr gwasanaethau fynd ymhellach?

3.26 Gall darparwyr gwasanaethau gael mewnwelediadau ychwanegol i sut mae dewisiadau dylunio yn creu risg i fenywod a merched drwy ofyn am gyngor arbenigol a chlywed yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr am eu profiadau. Gall yr wybodaeth hon hefyd helpu darparwyr gwasanaethau i ddeall yn well beth yw'r ffordd orau o liniaru niwed ar sail rhyw ar eu gwasanaethau.

3.27 Yn yr adran hon, rydym yn nodi camau arfer da y gall darparwyr gwasanaethau eu cymryd ochr yn ochr â'r camau sylfaenol i wella eu hasesiadau risg. Gall hyn gynnwys:

a) **Defnyddio aseswyr allanol** i fonitro'r dirwedd bygythiadau, gan gynnwys partneriaid lleol sydd â gwybodaeth ranbarthol a diwylliannol (e.e., sefydliadau cymdeithas sifil neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith), a phartneriaid rhyngwladol sydd ag arbenigedd mewn meysydd risg cyd-destunol iawn fel stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth.[188] [189]

b) **Ymgysylltu ag arbenigwyr pwnc a grwpiau agored i niwed[190],** fel goroeswyr a dioddefwyr (gan gynnwys merched a menywod ifanc), i ddeall eu profiadau'n well (gweler **Astudiaeth Achos 3).**[191][192]

c) **Cynnal ymchwil defnyddwyr fel arolygon,** er mwyn deall dewisiadau defnyddwyr a'u profiadau o risg yn well.[193] Dylai hyn gynnwys cofnodi sut mae risg yn dod i'r amlwg ar gyfer gwahanol fathau o ddefnyddwyr (er enghraifft, nodi beth sy'n beryglus i grëwr cynnwys o'i gymharu â defnyddiwr cynnwys).[194]

---

[188] Carnegie UK, The End Violence Against Women Coalition, Glitch, NSPCC, Refuge, 5Rights, Woods, L. and McGlynn, C., 2022. Violence Against Women and Girls (VAWG) Code of Practice. [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025]; Glitch, 2023. The Digital Misogynoir Report: Online abuse against Black women allowed and enabled to thrive. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[189] Gallai hyn fod yn enghraifft o 'fewnbwn uwch' o dan y broses asesu risg a nodir yn y Canllawiau Asesu Risg Cynnwys Anghyfreithlon a'r Canllawiau Asesu Risg i Blant (sef gofyn am farn arbenigwyr annibynnol). Rydym yn disgwyl y bydd rhai mathau o wasanaethau yn cyfeirio at fewnbynnau uwch i sicrhau bod eu hasesiadau o gynnwys anghyfreithlon a risg i blant yn addas ac yn ddigonol, ond yn ddewisol i eraill, ac arferion da yn hyn o beth.

[190] Wrth ymgysylltu â dioddefwyr a goroeswyr a defnyddwyr â nodweddion gwarchodedig, gall darparwyr gasglu data categori arbennig a/neu droseddau troseddol, ac mae angen amddiffyniad cyfreithiol ychwanegol ar y ddau o dan gyfraith diogelu data. Am ragor o wybodaeth, gweler canllawiau'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddata categori arbennig a data troseddau troseddol. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i'r cam arfer da isod ynghylch ymchwil defnyddwyr.

[191] Gallai hyn fod yn enghraifft o 'fewnbwn uwch' o dan y broses asesu risg a nodir yn y Canllawiau Asesu Risg Cynnwys Anghyfreithlon a'r Canllawiau Asesu Risg i Blant (sef ymgysylltu â grwpiau cynrychioliadol perthnasol). Gweler ymhellach uchod.

[192] Gweithdy Rhanddeiliaid Ofcom 2 ar Ddiogelwch Ar-lein Menywod a Merched, 19 Tachwedd 2024; Cymorth i Fenywod, 2024. Domestic abuse services struggling to fill critical gaps in a challenging landscape, exacerbated by the rising cost-of-living. [cyrchwyd 10 Tachwedd 2025].

[193] Gallai hyn fod yn enghraifft o 'fewnbwn uwch' o dan y broses asesu risg a nodir yn y Canllawiau Asesu Risg Cynnwys Anghyfreithlon a'r Canllawiau Asesu Risg i Blant (sef ymgynghori â defnyddwyr ac ymchwil defnyddwyr). Gweler ymhellach uchod.

[194] Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried anghenion eu sylfaen defnyddwyr yn y DU wrth ystyried pa ieithoedd sydd eu hangen i sicrhau bod eu harolygon defnyddwyr yn hygyrch.

d) **Cynnal asesiadau ychwanegol i asesu'r effeithiau ar hunanfynegiant defnyddwyr, rhyddid rhag gwahaniaethu a phreifatrwydd**,[195][196] yn enwedig ar gyfer y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.[197] Er enghraifft, gall gwasanaethau werthuso systemau algorithmig fel cymedroli cynnwys a systemau argymell ar gyfer amrywiaeth o risgiau mewn perthynas â rhagfarn a gwahaniaethu.[198] Gall profi a gwerthuso eu systemau'n rheolaidd ac yn gyfnodol (gan gynnwys cyn ac ar ôl eu defnyddio) helpu gwasanaethau i ystyried y risg y mae eu systemau algorithmig yn ei hachosi, gan gynnwys rhagfarn a gwahaniaethu.[199]

e) **Ystyried risgiau ychwanegol i'r gadwyn gyflenwi** a allai effeithio ar effeithiolrwydd neu ansawdd prosesau, systemau a phenderfyniadau cymedroli cynnwys, gan gynnwys risgiau o gontractau allanol a chysylltiadau busnes.[200] Er enghraifft, efallai na fydd contractwyr trydydd parti sy'n cael eu cyflogi i gymedroli cynnwys wedi cael hyfforddiant arferion gorau mewn niwed ar-lein ar sail rhywedd (gweler Cam Gweithredu 1).

---

[195]Bydd effeithiau ar breifatrwydd defnyddwyr yn aml yn cael eu hystyried o dan asesiad o'r effaith ar ddiogelu data (DPIA). Mae DPIA yn ofyniad cyfreithiol ar wahân o dan gyfraith diogelu data lle mae gwasanaethau'n prosesu data personol sy'n debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid unigolion. Mae hyn yn cynnwys rhai mathau penodol o brosesu, ac mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi datblygu rhestrau gwirio wrth sgrinio i helpu i benderfynu pryd mae angen DPIA. I gael rhagor o wybodaeth, gweler canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA).

[196]Gweler troednodyn 162 am ragor o wybodaeth am y ddyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau Categori 1 i gynnal asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd a rhyddid mynegiant.

[197]Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2019. Human Rights and Business. [cyrchwyd 16 Hydref 2025]; Swyddfa Hawliau Dynol Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig, 2011. UN Guiding Principles on Business and Human Rights.

[198] Dylai gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr hefyd sicrhau bod porthwyr argymellwyr plant yn eithrio neu'n cyfyngu ar amlygrwydd cynnwys sy'n niweidiol i blant, a all hefyd olygu cynnal asesiadau algorithmig. Gweler y camau sylfaenol o dan Gam Gweithredu 6 ac Astudiaeth Achos 10 am ragor o wybodaeth.

[199]I gael rhagor o wybodaeth am asesiadau o systemau algorithmig, ewch i: Metcalf, J. et al., 2021. Algorithmic Impact Assessments and Accountability: The Co-construction of Impacts [cyrchwyd 20 Awst 2025].; Ashar, A. et al., 2024. View of Algorithmic Impact Assessments at Scale: Practitioners' Challenges and Needs. [cyrchwyd 20 Awst 2025].

[200] 5Rights Foundation (2025) Children & AI Design Code: A protocol for the development and use of AI systems that impact children, pp. 15-16; EVAW (2022) Violence Against Women and Girls (VAWG) Code of Practice.

3.28 Mae **astudiaeth achos 6** yn nodi enghreifftiau o sut gallai darparwr gwasanaeth cwrdd â chariad weithio mewn partneriaeth â sefydliad arbenigol i gwblhau ymchwil sy'n ystyriol o drawma ac arolygon defnyddwyr i feithrin ei ddealltwriaeth o ba niwed sy'n digwydd ar ei wasanaethau.

## Astudiaeth achos 6 (arfer da): Ymchwil sy'n ystyriol o drawma ac arolygon defnyddwyr

### Senario:

Mae **darparwr gwasanaeth cwrdd â chariad** yn amau bod defnyddwyr yn dioddef **stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth**, ond nid oes ganddynt ddigon o ddealltwriaeth o pryd a sut mae'r niwed hwn yn digwydd ar eu gwasanaeth. Er mwyn datgelu'r risgiau hyn a deall profiadau defnyddwyr, mae'r darparwr gwasanaeth yn cydnabod yr angen i gasglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan eu defnyddwyr, sy'n wahanol i'w brofion profiad defnyddwyr arferol, mewn ffordd sensitif ac effeithiol.

### Camau i'w cymryd:

Mae'r darparwr gwasanaeth cwrdd â chariad yn gweithio mewn **partneriaeth â sefydliad arbenigol**, i ddylunio a darparu arolygon defnyddwyr sy'n ystyriol o drawma ac sy'n sensitif i'r trawma a brofir gan goroeswyr a ddioddefwyr er mwyn hwyluso eu hymgysylltiad.[201]

- Mae'r sefydliad arbenigol yn annog y darparwr gwasanaeth i ddefnyddio egwyddorion dylunio sy'n ystyriol o drawma, fel darparu gwybodaeth glir am gydsyniad a defnyddio data, blaenoriaethu preifatrwydd defnyddwyr, a lleoleiddio arolygon (ar gyfer arolygon aml-wlad) gyda thimau sydd wedi'u hyfforddi mewn ymwybyddiaeth o drawma.
- Er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn cael cymorth priodol, dylai canlyniadau'r arolwg gyfeirio at wasanaethau sy'n cynnig gwybodaeth gefnogol, cymorth personol ychwanegol ar drawma rhywiol a mynediad at therapydd sy'n ystyriol o drawma, yn dibynnu ar ganlyniadau penodol y defnyddwyr (h.y., roedd y canlyniadau'n dangos bod angen cymorth ychwanegol).
- Mae'r darparwr gwasanaeth cwrdd â chariad wedyn yn defnyddio gwybodaeth o'r arolygon i ddatblygu adnoddau diogelwch a monitro profiadau defnyddwyr sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth. Mae hyn yn helpu'r darparwr i nodi tueddiadau neu faterion cyn iddynt ddod yn gyffredin ac i werthuso mesurau diogelwch (gweler Pennod 4 am ragor o fanylion am fesurau ataliol).

### Ystyriaethau:

- Wrth ddylunio'r arolwg, dylai'r darparwr fod yn ofalus rhag osgoi ail-drawmateiddio ac unrhyw dorri ar ofynion diogelu data.
- Wrth gasglu data personol gan ddefnyddwyr, rhaid i ddarparwyr hefyd ystyried hawliau preifatrwydd a chydymffurfio â gofynion cyfraith diogelu data, gan gynnwys yr egwyddor lleihau data.[202]

---

[201] Chayn, 2024, How can we make quantitative research more trauma-informed? [cyrchwyd 14 Hydref 2025]; Chayn, 2023, Chayn's trauma-informed design principles [cyrchwyd 14 Hydref 2025].

[202] Lle bynnag y bo modd, dylai darparwyr wneud gwybodaeth bersonol yn ddienw neu roi ffugenw er mwyn lleihau'r risg y bydd yn cael ei chysylltu ag unigolyn y gellir ei adnabod. Rydym yn annog darparwyr i edrych ar Ganllawiau Anhysbysedd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gall gwybodaeth bersonol a gesglir yn

## Cam Gweithredu 3: Bod yn dryloyw ynghylch diogelwch menywod a merched ar-lein

3.29 Mae tryloywder yn hanfodol i gryfhau llywodraethu diogelwch ar wasanaethau ar-lein i sicrhau bod diogelwch defnyddwyr yn cael ei ystyried wrth ddylunio a gweithredu'r gwasanaeth, rhoi rheolaeth fwy ystyrlon i ddefnyddwyr ar eu profiadau ar-lein, a hyrwyddo ymddiriedaeth mewn mesurau diogelwch gwasanaethau.

3.30 Fel y nodir yn ein Canllawiau Tryloywder Terfynol, mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Ofcom fynnu bod darparwyr gwasanaethau wedi'u categoreiddio yn cyhoeddi gwybodaeth benodol am eu gwasanaeth mewn adroddiadau tryloywder blynyddol ar sail y gofynion y bydd Ofcom yn eu rhoi i ddarparwyr gwasanaethau drwy hysbysiad tryloywder.

3.31 Ar wahân i hynny, rhaid i Ofcom hefyd gynhyrchu a chyhoeddi ei adroddiad tryloywder ei hun o leiaf unwaith y flwyddyn sy'n crynhoi'r wybodaeth a'r casgliadau sy'n deillio o'r adroddiadau tryloywder a gynhyrchir gan ddarparwyr. Gall hyn gynnwys patrymau a thueddiadau a nodwyd, arferion da yn y diwydiant, ac unrhyw wybodaeth ychwanegol mae Ofcom yn credu sy'n berthnasol i helpu i roi'r canfyddiadau hynny mewn cyd-destun ar gyfer y cyhoedd.

3.32 Er y bydd adroddiadau tryloywder darparwyr fel arfer yn cynnig cipolwg ar sut mae gwasanaethau unigol yn mynd i'r afael â risgiau ac yn lliniaru niwed ar eu gwasanaethau, bydd adroddiadau tryloywder Ofcom yn rhoi'r canfyddiadau hynny mewn cyd-destun, gan dynnu sylw at bwyntiau cymharu rhwng gwasanaethau a thynnu sylw at enghreifftiau o arferion da a gwael ar gyfer y diwydiant ehangach.

3.33 Ein nod yw cael adroddiadau tryloywder blynyddol i annog gwasanaethau i wella eu systemau a'u prosesau diogelwch. Bydd cyhoeddi data ar sut mae darparwyr gwasanaethau wedi'u categoreiddio yn defnyddio eu polisïau ac yn profi effeithiolrwydd nodweddion diogelwch neu arloesedd yn caniatáu asesiad cliriach o'r hyn sy'n gweithio, a hefyd yn caniatáu i ymyriadau wella diogelwch defnyddwyr neu atal niwed ar-lein ar sail rhywedd rhag cael ei rannu a'i fabwysiadu'n ehangach.[203] Rydym yn disgwyl defnyddio adroddiadau tryloywder i roi rhagor o wybodaeth i randdeiliaid, gan gynnwys Ofcom a chymdeithas sifil, am arferion diogelwch darparwyr gwasanaethau wedi'u categoreiddio a'u heffeithiolrwydd. Bydd hyn yn helpu rhanddeiliaid i ddeall arferion gorau ac yn annog gwelliannau diogelwch sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn gwasanaethau.

3.34 Ar ben hynny, gallai rhagor o wybodaeth gyhoeddus annog darparwyr i ystyried effaith a barn y cyhoedd am y mesurau maen nhw wedi'u mabwysiadu (neu heb eu mabwysiadu) i fynd i'r afael â niwed ar-lein ar sail rhywedd. Rydym yn bwriadu dal gwasanaethau i gyfrif drwy wneud sylwadau ar fylchau yn eu systemau a'u prosesau a galluogi dysgu o arferion ar draws y diwydiant ehangach.

3.35 Bydd ein hadroddiadau tryloywder hefyd yn grymuso defnyddwyr yn y DU gyda gwybodaeth berthnasol a chywir am risgiau a chanlyniadau diogelwch ar wasanaethau er mwyn iddynt allu

uniongyrchol gan ddefnyddwyr i nodi risgiau fod yn ddata categori arbennig a/neu'n ddata troseddau, ac mae angen amddiffyniad cyfreithiol ychwanegol ar y ddau o dan gyfraith diogelu data. Am ragor o wybodaeth, gweler canllawiau'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau ynghylch data categori arbennig a data troseddau.

[203] eSafety Commissioner, 2024. Technology, gendered violence and Safety by Design. [cyrchwyd 20 Tachwedd 2025].

gwneud penderfyniadau gwybodus am sut i fyw eu bywydau ar-lein. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol i fenywod a merched sy'n wynebu risg anghymesur ar-lein ac felly mae'n rhaid iddynt eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus i feithrin profiadau diogel ar-lein.

## Camau Sylfaenol: Beth yw'r disgwyliadau ar gyfer darparwyr gwasanaethau?

3.36 O dan y Ddeddf, mae yna ddyletswyddau penodol sy'n ymwneud â thryloywder sy'n gamau sylfaenol:

a) **Adroddiadau tryloywder:** Mae angen i wasanaethau wedi'u categoreiddio gydymffurfio â dyletswyddau ychwanegol, gan gynnwys dyletswydd i gyhoeddi adroddiadau tryloywder.[204]

3.37 Unwaith y flwyddyn, rhaid i Ofcom roi hysbysiad tryloywder i ddarparwyr gwasanaethau wedi'u categoreiddio sy'n mynnu eu bod yn cynhyrchu adroddiad tryloywder am eu gwasanaeth.[205]

3.38 Elfen bwysig o'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud am ein hysbysiadau tryloywder fydd pa wybodaeth fydd yn cael ei hadrodd yn gyson dros amser - yr hyn rydyn ni'n ei alw'n wybodaeth 'graidd' - a pha wybodaeth fydd yn cael ei hadrodd ar sail ad-hoc, yng nghyd-destun maes polisi rydyn ni wedi'i nodi ar sail ein ffocws rheoleiddio bob blwyddyn - yr hyn rydyn ni'n ei alw'n wybodaeth 'thematig'. Er enghraifft, ar gyfer un flwyddyn adrodd efallai y byddwn yn ceisio blaenoriaethu gwybodaeth am niwed anghyfreithlon â blaenoriaeth benodol sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched.

3.39 Mae'r materion y gallwn ofyn i wasanaethau eu cynhyrchu mewn adroddiadau tryloywder wedi'u rhestru yn Atodlen 8 i'r Ddeddf sy'n ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein. Yn ein Canllawiau Tryloywder Terfynol, rydym yn nodi enghreifftiau dangosol o'r wybodaeth y gallem ofyn amdani, fel nifer yr achosion o gynnwys anghyfreithlon neu gynnwys sy'n niweidiol i blant.[206]

3.40 Rydym yn bwriadu cynnal gweithgareddau ymgysylltu ym mhob cylch adrodd blynyddol. Er enghraifft, os yw'r maes thematig rydym wedi'i ddewis yn ymwneud â niwed ar-lein ar sail rhywedd, efallai y byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol sydd ag arbenigedd yn y maes hwn i lywio dyluniad ein hysbysiadau tryloywder, neu i ddeall sut gallwn drosi data yn wybodaeth a gwneud ein hadroddiadau'n ddefnyddiol ac yn hygyrch i'n cynulleidfaoedd.

3.41 Ar ôl cyhoeddi adroddiadau darparwyr, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiadau ein hunain i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr o adroddiadau'r darparwyr. Bydd gwybodaeth o'r fath yn tynnu sylw at oblygiadau data a adroddir am risgiau a chanlyniadau diogelwch, er mwyn i ddefnyddwyr allu gwneud dewisiadau gwybodus am y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio. Ar ôl eu cyhoeddi, efallai y byddwn yn ceisio ymgysylltu â sefydliadau arbenigol (ymhlith eraill) i drafod ein hadroddiad ac unrhyw welliannau a argymhellir ar gyfer adrodd yn y dyfodol.[207]

---

[204] Gweler adran 95 o'r Ddeddf. Bydd Ofcom yn cyhoeddi cofrestr o wasanaethau Categori 1, 2A a 2B ac yn ei diweddaru. Bydd angen i wasanaethau wedi'u categoreiddio gydymffurfio â chyfres o ddyletswyddau ychwanegol, ac ar gyfer pob gwasanaeth wedi'i gategoreiddio mae hyn yn cynnwys adrodd ar dryloywder.
[205] Gweler adran 95 o'r Ddeddf.
[206] Canllawiau Tryloywder Terfynol Ofcom, paragraff 3.4.
[207] Canllawiau Tryloywder Terfynol Ofcom, paragraff 5.5.

## Camau ymarfer da: Sut gall darparwyr gwasanaethau fynd ymhellach?

3.42 Er bod y dyletswyddau adrodd tryloywder yn y Ddeddf yn berthnasol i wasanaethau wedi'u categoreiddio, gall pob gwasanaeth wella atebolrwydd a rhoi gwybodaeth well i ddefnyddwyr drwy gynyddu tryloywder eu gweithrediadau. Er enghraifft, gall darparwr gwasanaeth wella tryloywder drwy gynhyrchu adroddiadau tryloywder gwirfoddol neu gyhoeddi gwybodaeth ad hoc am dueddiadau a diweddariadau sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i niwed ar-lein ar sail rhywedd.

3.43 Gall mwy o dryloywder am eu gweithrediadau alluogi darparwyr i ddangos i ddefnyddwyr y camau maen nhw'n eu cymryd a'u heffaith ar ddiogelwch menywod a merched ar-lein.

3.44 Mae'r camau arfer da y gallai darparwyr eu cymryd yn cynnwys:

a) **Rhannu gwybodaeth am ba mor gyffredin yw gwahanol fathau o niwed ar-lein ar sail rhywedd** lle mae'r data hwnnw eisoes ar gael i ddarparwyr ac yn cael ei gasglu a'i reoli yn unol â rheoliadau diogelu data. Gallai'r wybodaeth hon gynnwys data ar adroddiadau defnyddwyr a'u canlyniadau (gwarediadau, amserlenni ac apeliadau), a, lle bo modd, data wedi'i ddadgyfuno ar ganlyniadau, er enghraifft yn ôl demograffeg defnyddwyr. Dylai hyn fod yn unol â chyfraith diogelu data. Gallai roi gwybodaeth ychwanegol i'r cyhoedd - gan gynnwys ymchwilwyr a sefydliadau cymdeithas sifil - i ddeall pa niwed sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, yn ogystal â nodi unrhyw ragfarnau o ran sut yr ymdrinnir ag adroddiadau.[208] Ymhellach, gallai gynnwys data penodol ar brofiadau grwpiau ymylol, gan gynnwys, er enghraifft, menywod anabl.

b) **Rhannu tystiolaeth am dueddiadau a risgiau** i'r graddau y mae'n berthnasol ac ar lefel briodol o fanylder, sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â niwed ar-lein ar sail rhywedd gyda gweithredwyr allweddol sy'n ymwneud ag atal, fel cymdeithas sifil, gorfodi'r gyfraith, ac ymchwilwyr.

c) **Rhannu gwybodaeth am asesiadau ychwanegol a gynhaliwyd (gweler Cam Gweithredu 2) ac effeithiolrwydd y mesurau sydd ar waith** i fynd i'r afael â niwed ar-lein ar sail rhywedd. Er enghraifft, rhannu canlyniadau gwerthusiadau algorithmig i alluogi ymchwilwyr a chymdeithas sifil i ddeall yn well sut mae'r systemau hyn yn gweithio, a'r risgiau o ragfarn a gwahaniaethu.

d) **Rhannu gwybodaeth** am bostiadau a amlygwyd gan brosesau a systemau cymedroli cynnwys awtomataidd; gwylwyr gweithredol sy'n rhoi gwybod am gynnwys ond nad ydynt eu hunain yn cael eu targedu gan gam-drin; a defnyddwyr sy'n cael eu targedu gan gam-drin.[209]

e) **Bod yn ofalus** wrth rannu gwybodaeth y gallai tramgwyddwyr ei defnyddio i osgoi mesurau diogelwch, yn ogystal â manylion digwyddiadau penodol y gellid adnabod unigolyn neu grŵp ohonynt, gan gynnwys lleoliad, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu wybodaeth sensitif arall a allai eu rhoi mewn perygl.[210] Er enghraifft, gallai hyn olygu rhannu data sy'n ymwneud â hunaniaeth ar lefel poblogaeth yn unig (fel pa ganran o adroddiadau a wnaed gan ddynion o'i gymharu â menywod), a pheidio â datgelu

---

[208] Appelman, N., 2023. Disparate Content Moderation Mapping Social Justice Organisations Perspectives on Unequal Content Moderation Harms and the EU Platform Policy Debate. [cyrchwyd 4 Tachwedd 2025].
[209] Glitch, 2023. The Digital Misogynoir Report: Online abuse against Black women allowed and enabled to thrive. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].
[210] eSafety Commissioner, 2024. Technology, gendered violence and Safety by Design. [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025].

manylion adroddiad penodol a allai ddatgelu pwy yw'r bobl dan sylw. Wrth rannu data personol, bydd angen i wasanaethau ystyried risgiau preifatrwydd data a chydymffurfio â gofynion cyfraith diogelu data.[211]

f) **Sicrhau bod gwybodaeth a chanfyddiadau a gyhoeddir yn glir a hygyrch** i amrywiaeth o gynulleidfaoedd drwy gynhyrchu fersiynau o adroddiadau sydd wedi'u teilwra i gynulleidfaoedd gwahanol, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Dylai hyn hefyd gynnwys gwneud yn siŵr bod gwybodaeth mewn cyd-destun da a'i bod yn cael ei hegluro er mwyn i bobl allu dehongli'r canfyddiadau'n gywir.[212]

[211]Ar gyfer y cam arfer da hwn a'r camau uchod, gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am risgiau preifatrwydd data a chydymffurfio â gofynion cyfraith diogelu data yng nghanllawiau GDPR ICO y DU. Gweler hefyd Data sharing: a code of practice.

[212] Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried anghenion eu sylfaen defnyddwyr yn y DU wrth ystyried pa ieithoedd sydd eu hangen i sicrhau bod gwybodaeth a chanfyddiadau cyhoeddedig yn glir ac yn hygyrch.

# 4. Atal niwed

## Trosolwg

### Y cyd-destun

4.1 Mae atal niwed yn golygu cymryd camau i leihau'r risg o niwed cyn iddo ddigwydd. Er mwyn atal niwed, dylai darparwyr gwasanaethau ganolbwyntio ar atal ac amharu ar ymddygiad cyflawnwyr, gan gynnwys nodi llwybrau posibl ar gyfer cam-drin a dylunio diogelwch mewn perthynas â nodweddion a swyddogaethau. Mae hyn yn seiliedig ar gysyniadau diogelwch drwy ddylunio sy'n rhagweld sut gellir dewis nodweddion a swyddogaethau i niweidio menywod a merched ar-lein, a'u newid i'w gwneud yn anoddach i gyflawnwyr eu camddefnyddio. Mae niwed ar-lein ar sail rhywedd yn aml yn cael sylw ôl-weithredol drwy ymyriadau ar ôl i'r niwed ddigwydd, sy'n dibynnu i raddau helaeth ar fenywod a merched yn gweithredu, er enghraifft drwy roi gwybod i ddarparwr y gwasanaeth neu'r heddlu am gam-drin. Mae hyn yn gofyn am amser ac ymdrech gan oroeswyr a dioddefwyr sydd eisoes yn delio ag effeithiau seicolegol, emosiynol, ac ar eu henw da, o ganlyniad i niwed ar-lein ar sail rhywedd.[213]

4.2 Yn hytrach, mae'r bennod hon yn edrych ar y ffyrdd y gall darparwyr atal a lleihau niwed ar-lein ar sail rhywedd cyn iddynt ddigwydd ar eu gwasanaethau, gan gynnwys drwy annog cyflawnwyr i beidio â chreu niwed yn y lle cyntaf. Rydym yn edrych yn benodol ar dri cham gweithredu sy'n ymwneud â dylunio gwasanaethau ac atal niwed:

- **Cam Gweithredu 4**: Gwerthuso pa mor agored yw rhywun i gael ei gam-drin (camddefnyddioldeb), a phrofi cynnyrch.
- **Cam Gweithredu 5**: Gosod rhagosodiadau mwy diogel.
- **Cam Gweithredu 6**: Lleihau cylchrediad cynnwys sy’n dangos, yn hyrwyddo neu’n annog niwed ar-lein ar sail rhywedd

4.3 Ar gyfer pob cam gweithredu, rydym yn nodi ein disgwyliad o ran sut beth yw llinell sylfaen gadarn o ddiogelwch (‘**camau sylfaenol**’) er mwyn i ddarparwyr gwasanaethau gyflawni eu dyletswyddau i ddiogelu defnyddwyr yn y DU. Mae gennym amrywiaeth o bwerau gorfodi i ddal cwmnïau i gyfrif pan fyddant yn methu â chydymffurfio â dyletswyddau.

4.4 Rydym hefyd yn tynnu sylw at **gamau arfer da** ychwanegol i ddangos sut gall darparwyr adeiladu ar y camau sylfaenol i werthuso eu systemau, gwella dyluniad gwasanaethau, a lleihau niwed.

4.5 Mae'r camau hyn yn gofyn am ddull rhagweithiol sy'n defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth o asesiadau risg (gweler Pennod 3) i wneud newidiadau i nodweddion a swyddogaethau'r gwasanaeth. Fel rhan o'r prosesau asesu risg hyn, gall darparwyr nodi nodweddion neu swyddogaethau na chawsant eu creu gyda dull diogelwch drwy ddylunio ac felly efallai y bydd angen eu hailddylunio i fod yn fwy diogel. Gallai hyn gynnwys rhoi'r gorau i rai nodweddion neu gyflwyno newidiadau dylunio i liniaru risgiau.

4.6 Mae llawer o'r newidiadau dylunio hyn yn hwyluso ymddygiad mwy diogel neu'n atal ymddygiad niweidiol drwy siapio 'pensaernïaeth dewis'. Pensaernïaeth dewis yw'r ffordd y mae darparwyr gwasanaeth yn strwythuro ac yn cyflwyno opsiynau i ddefnyddwyr - drwy nodweddion dylunio,

[213] Gweithdy Rhanddeiliaid 1 Ofcom ar Ddiogelwch Menywod a Merched Ar-lein , 16 Medi 2024.

gosodiadau diofyn, awgrymiadau a chynllun rhyngwyneb - sy'n siapio sut mae pobl yn gwneud penderfyniadau ar-lein.[214]

4.7 Er ei bod yn bwysig mabwysiadu'r dull ataliol hwn wrth ddylunio ac integreiddio technolegau newydd, er enghraifft sgwrsfotiau GenAI chatbots[215] neu realiti rhithwir/estynedig, mae hefyd yn bwysig ymestyn y dull hwn i dechnolegau digidol sefydledig (cyfryngau cymdeithasol, negeseuon, apiau cwrdd â chariad, chwilio)[216]. Dyma'r safleoedd lle mae'r mwyafrif helaeth o niwed ar-lein ar sail rhywedd yn digwydd.[217]

## Ein canlyniadau targed

4.8 Mae mynd i'r afael â niwed ar-lein ar sail rhywedd yn systematig yn golygu nad yw'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar ganfod achosion unigol o niwed. Yn hytrach, mae niweidiau ar-lein ar sail rhywedd yn faterion strwythurol y mae angen eu cywiro'n weithredol mewn gwahanol systemau, o ddylunio technoleg i addysg. Dylai'r dull ataliol a systemig hwn leihau'r baich ar fenywod a merched i gadw eu hunain yn ddiogel ar wasanaethau nad ydynt wedi cael eu dylunio gyda'u diogelwch mewn golwg. Gall hefyd gyfyngu ar yr effaith iasoer ar ddefnyddwyr sy'n gweld niwed ar sail rhywedd, fel aflonyddu cydlynol, hyd yn oed os nad nhw yw'r targed.[218]

4.9 Gall diogelwch drwy ddylunio wneud nodweddion a swyddogaethau'n anoddach i'w camddefnyddio, gan arwain at ostyngiad mewn niwed ar y gwasanaeth.

4.10 Mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau hefyd yn rhan hanfodol o atal niwed ar-lein ar sail rhywedd.3F[219] Drwy arfogi pobl â'r sgiliau i ymgysylltu'n feirniadol ar-lein, gallwn atal niwed a meithrin cymuned ddigidol fwy cydnerth yn y DU. Rydym yn cynnwys enghreifftiau perthnasol o sut gall darparwyr gwasanaethau hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fel adnodd ataliol yn y bennod hon.[220]

4.11 Mae'r dull hwn yn cynnwys ymgysylltu â dynion a bechgyn i fynd i'r afael â naratifau misogynistaidd a normau diwylliannol sy'n cyfiawnhau ac yn mawrygu trais a cham-drin.[221] Gall darparwyr gefnogi addysg o'r fath drwy ddarparu negeseuon cefnogol neu ataliol, a sicrhau nad

---

[214] Ofcom, 2024. Understanding Online Choices, Preferences, and Welfare.
[215] Mae'r Ddeddf yn berthnasol i fathau penodol o gynnwys, sgwrsfotiau a gwasanaethau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Edrychwch ar lythyr agored Ofcom at ddarparwyr gwasanaethau ar-lein sy'n amlinellu sut bydd y Ddeddf yn berthnasol i Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol a sgwrsfotiau.
[216] Technolegau cyffredin a phob dydd yw technolegau a ddefnyddir mor gyffredin fel nad ydynt yn creu diddordeb, cyffro na sylw oni bai eu bod yn camweithio neu'n cael eu camddefnyddio. Am ragor o wybodaeth am dechnolegau cyffredin, gweler: Dourish, P., Graham, C., Randall, D. a Rouncefield, M., 2010. Rhifyn thema ar ryngweithio cymdeithasol a thechnolegau cyffredin. Cyfrifiadura Personol ac Hollbresennol, 14. [cyrchwyd 4 Tachwedd 2025].
[217] Freed, D., Palmer, J., Minchala, D., Levy, K., Ristenpart, T. and Dell. N., 2018. A Stalker's Paradise": How intimate partner abusers exploit technology, *Proceedings of the 2018 CHI Conference on Human Factors in Computing Systems (CHI '18)*. [cyrchwyd 31 Hydref 2025]; Refuge, 2022. Marked as Unsafe. [cyrchwyd 30 Hydref 2025].
[218] The Global Partnership, 2022. Technology-Facilitated Gender-Based Violence: Preliminary Landscape Analysis. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].
[219] Gweithdy Rhanddeiliaid 1 Ofcom ar Ddiogelwch Menywod a Merched Ar-lein , 16 Medi 2024.
[220] Gweler Ofcom consultation: Recommendations for how online platforms, broadcasters and streaming services should promote media literacy. Dylai darparwyr gyfeirio at yr argymhellion terfynol ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben ac ar ôl i'r argymhellion hyn gael eu cyhoeddi.
[221] Burrell, S. 2018. The contradictory possibilities of engaging men and boys in the prevention of men's violence against women in the UK, *Journal of Gender-Based Violence*, 2 (3). [cyrchwyd 04 Tachwedd 2025]; National Education Union, 2023. Working with boys and young men to prevent sexism and sexual harassment. [cyrchwyd 11 Awst 2025].

ydynt yn dileu cynnwys sy'n herio normaleiddio neu hyrwyddo cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol (gellir cyfeirio at hyn fel 'gwrth-fynegiant').

4.12 Mae dulliau ataliol yn arbennig o werthfawr oherwydd eu bod yn aml yn ddi-gosb ac yn canolbwyntio ar ataliaeth a newid ymddygiad yn hytrach na chosb.[222]

4.13 Mae hefyd yn bwysig teilwra'r dulliau hyn i amrywiaeth o wahanol fathau o ddefnyddwyr a allai achosi niwed, o'r rheini a allai wneud hynny'n anfwriadol neu'n ddiarwybod, i gyflawnwyr mynych a llawn cymhelliant a fydd yn ceisio osgoi pob mesur diogelwch. Mae hefyd yn bwysig teilwra'r dulliau hyn i wahanol fathau o wasanaethau - er enghraifft, gallai gwasanaeth chwilio ganolbwyntio ar leihau'r risg y bydd defnyddwyr yn dod ar draws rhywbeth nad oeddent eisiau ei weld, ac atal defnyddwyr rhag mynd ati i geisio defnyddio'r gwasanaeth i ddod o hyd i gynnwys anghyfreithlon neu niweidiol. Ar gyfer gwasanaeth neu fforwm cyfryngau cymdeithasol, gall y ffocws hefyd gynnwys atal defnyddwyr rhag postio cynnwys na ddylent ei bostio, oherwydd ei fod yn anghyfreithlon neu'n torri telerau gwasanaeth.

## Cam Gweithredu 4: Gwerthuso pa mor agored yw rhywun i gael ei gam-drin, a phrofi cynnyrch

4.14 Mae gwerthusiadau camddefnyddioldeb yn defnyddio'r cysyniad o 'ddefnyddioldeb' sy'n cael ei ddefnyddio i werthuso pa mor hawdd yw hi i ddefnyddwyr lywio drwy wefan neu ddyfais i gyflawni eu nodau. I'r gwrthwyneb, mae gwerthusiadau camddefnyddioldeb yn profi pa mor hawdd yw camddefnyddio offeryn neu nodwedd ar gyfer niwed, ac felly'n tynnu sylw at ffyrdd o leihau camddefnyddioldeb.[223]

4.15 Gall cyflawnwyr niwed ar-lein ar sail rhywedd fod yn arloesol iawn o ran dewis technolegau i hwyluso patrymau gorfodaeth a rheolaeth sydd eisoes yn bodoli. Mae llawer o gyflawnwyr - fel y rheini sy'n lledaenu twyllwybodaeth rhyweddol a rhywiol - yn defnyddio tactegau i osgoi mesurau canfod a diogelwch sydd i fod i atal camdriniaeth, er enghraifft, drwy gamsillafu sarhad neu anfri yn fwriadol.[224]

4.16 Mae'r adran hon yn amlinellu dulliau profi cynnyrch y gall gwasanaethau eu defnyddio sy'n ceisio rhagweld y mathau esblygol hyn o gam-drin (gweler Pennod 3). Un ffordd o wneud hyn yw drwy ymarferion 'tîm coch', ymarfer sy'n deillio o seiberddiogelwch ond sydd bellach yn cael ei ddefnyddio'n aml mewn meysydd eraill. Mae cyfranogwyr yn y tîm coch yn aml yn ymgymryd â rôl gweithredwr drwg i nodi gwendidau mewn system. Gallant hefyd gynnal prawf straen ar gadernid nodweddion diogelwch.[225]

---

[222] Gweithdy Rhanddeiliaid 1 Ofcom ar Ddiogelwch Menywod a Merched Ar-lein , 16 Medi 2024.

[223] Beers, A., Nguyên, S., Sioson, M., Mayanja, M., Ionescu, M., Spiro, E. S., and Starbird, K., 2021. The Firestarting Troll, and Designing for Abusability. [accessed 4 November 2025]; Ofcom Stakeholder Workshop 1 on Women and Girls Online Safety, 16 September 2024.

[224] Wilson Center (Jankowicz, N., Hunchak, J., Pavliuc, A., Davies, C., Pierson, S. and Kaufmann, Z.), 2021. Malign Creativity: How Gender, Sex, and Lies are Weaponized Against Women Online. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[225] Mae'n heriol cynnal ymarfer tîm coch mewn perthynas â rhai mathau o gynnwys anghyfreithlon. Ar ben hynny, mae'n drosedd o dan gyfraith y DU i feddu ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, ei ddangos, ei ddosbarthu neu ei greu, sy'n golygu y byddai cynnal ymarfer tîm coch yn uniongyrchol ar gyfer y cynnwys hwn yn y DU yn golygu y gallai rhywun gael ei erlyn. I gael rhagor o wybodaeth am droseddau sy'n ymwneud â CSAM, darllenwch Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon (adran A5). Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi deddfwriaeth sydd ar ddod a fydd yn caniatáu i gyrff dynodedig graffu ar fodelau AI i wirio na ellir eu camfanteisio i gynhyrchu delweddau cam-drin plant sy'n cael eu camddefnyddio gan bobl ifanc,

4.17 Gall defnyddio cysyniadau camddefnyddioldeb neu ymarfer tîm coch wrth brofi cynnyrch fod yn ddefnyddiol ar draws pob math o niwed ar-lein sy'n seiliedig ar rywedd. Er mwyn sicrhau’r effeithiolrwydd mwyaf posibl, dylai'r rheini sy'n cynnal y profion fod yn gyfarwydd â nodweddion cynnil a deinameg penodol niwed ar-lein ar sail rhywedd. Felly, mae'n arbennig o werthfawr gweithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr pwnc sydd â phrofiad o gefnogi goroeswyr a dioddefwyr wrth ddylunio a chynnal ymarferion o'r fath.

## Camau Sylfaenol: Beth yw'r disgwyliadau ar gyfer darparwyr gwasanaethau?

4.18 Mae ein Codau a’n canllawiau asesu risg yn nodi'r camau canlynol ar gyfer darparwyr gwasanaethau, ar sail swyddogaethau, risg a maint:[226]

a) **Profi cynnyrch**: Fel rhan o asesiadau risg addas a digonol (fel yr amlinellir ym Mhennod 3), mae profi cynnyrch yn un o'r mathau o dystiolaeth y gallai darparwyr gwasanaethau ei defnyddio fel mewnbwn i wella cywirdeb eu dyfarniadau ynghylch risg.[227]

b) **Asesiad risg newid sylweddol**: Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gynnal asesiad risg newydd cyn gwneud newid sylweddol i'w gwasanaeth.[228]

c) **Profi systemau argymell:** Wrth gynnal profion ar-lwyfan presennol o systemau argymell cynnwys, dylai darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr gasglu metrigau diogelwch ychwanegol wrth wneud addasiadau dylunio, er mwyn gwerthuso a yw'r addasiad yn debygol o gynyddu cysylltiad defnyddwyr â chynnwys anghyfreithlon.[229]

## Camau ymarfer da: Sut gall darparwyr gwasanaethau fynd ymhellach?

4.19 Yn yr adran hon, rydym yn nodi camau arfer da y gall darparwyr gwasanaethau eu cymryd ochr yn ochr â'r camau sylfaenol, cyn ac ar ôl defnyddio cynnyrch, i gael rhagor o wybodaeth a data ar y risgiau neu'r gwendidau posibl yn eu cynnyrch. Bydd hyn nid yn unig yn creu amgylcheddau mwy diogel i fenywod, merched a defnyddwyr eraill sydd â risg uwch o niwed ar-lein ar sail rhywedd, ond drwy ragatal a chyfyngu ar gamddefnyddio, gall darparwyr leihau'r risgiau o ran adnoddau ac enw da yn sgil cyflawnwyr yn cam-drin eu gwasanaeth.

4.20 Mae'r camau arfer da y gallai darparwyr eu cymryd yn cynnwys:

a) **Defnyddio ymarfer tîm coch** ar gyfer profion camddefnyddioldeb, lle mae tîm yn ymgymryd â rôl gweithredwr maleisus ac yn ceisio dod o hyd i wendidau mewn system (gweler

---

pornograffi eithafol a delweddau agos-atoch heb ganiatâd. Ffynhonnell: Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, Liz Kendall AS, a Jess Phillips, AS, 2025. Cyfraith newydd i fynd i'r afael â delweddau cam-drin plant AI wrth y ffynhonnell wrth i adroddiadau fwy na dyblu. [cyrchwyd 12 Tachwedd 2025].

[226]Mae'r 'camau sylfaenol' yn cyfeirio at amrywiaeth o ddisgwyliadau rydym eisoes wedi'u nodi ar gyfer darparwyr gwasanaethau adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn. Mae'r 'camau sylfaenol' yn berthnasol i wahanol wasanaethau ar sail swyddogaeth, risg a maint. Mae gwybodaeth am ba gam sylfaenol sy'n berthnasol i ba wasanaeth wedi'i nodi yn y ddogfen Cipolwg ar y Canllawiau. Mae'r Codau Ymarfer Cynnwys Anghyfreithlon yn berthnasol i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio a reoleiddir.

[227]Canllawiau Asesu Risg Cynnwys Anghyfreithlon a Chanllawiau Asesiad Risg i Blant ar “dystiolaeth graidd” a “thystiolaeth uwch” ar gyfer asesiadau risg.

[228]Canllawiau Asesu Risg Cynnwys Anghyfreithlon a'n Canllawiau Asesu Risg i Blant.

[229]Codau Ymarfer ar gynnwys anghyfreithlon (ICU E1). Dim ond i wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n nodi eu bod yn peri risg ganolig neu uchel ar gyfer o leiaf ddau niwed penodol y mae'r mesur hwn yn berthnasol.

**Astudiaeth Achos 8**).[230] Gall y tîm fod yn fewnol, neu gynnwys arbenigwyr pwnc allanol. Gellid ailadrodd hyn o bryd i'w gilydd ac yn iteraidd, hyd yn oed os nad oes unrhyw ddatblygiadau mawr, gan y bydd cyflawnwyr yn addasu'n gyflym i osgoi mesurau diogelwch.

b) **Defnyddio personâu** i archwilio sut gall gwahanol ddefnyddwyr brofi nodwedd, mapio teithiau defnyddwyr, a chynyddu dealltwriaeth o safbwyntiau croestoriadol.[231]

c) **Gweithio gydag arbenigwyr** sydd â phrofiad uniongyrchol neu berthnasol o ddeall ac ymgysylltu ag ymddygiad cyflawnwyr. Wrth i dactegau cyflawnwyr ddatblygu'n gyflym, mae ymgysylltu ag arbenigwyr yn rheolaidd a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil ar ymddygiad cyflawnwyr yn amhrisiadwy (gweler **Astudiaeth Achos 3**).

d) **Sicrhau ansawdd**: Gwerthuso dulliau a chanlyniadau profi cynnyrch i ddeall a sicrhau effeithiolrwydd y dulliau hyn.

e) **Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau:** Glynu wrth yr egwyddorion ar fonitro a gwerthuso nodweddion yn yr Egwyddorion Dylunio Arfer Gorau ar gyfer Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau.

[230] Ofcom, 2024. Red Teaming for GenAI Harms - Revealing the Risks and Rewards for Online Safety.
[231] World Wide Web Foundation, 2021. Tech Policy Design Lab: Online Gender-Based Violence and Abuse. [cyrchwyd 30 Hydref 2024].

4.21 Mae **astudiaeth achos 7** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol gynnal profion camddefnyddioldeb i atal ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol ar ei wasanaeth.

### Astudiaeth achos 7 (arfer da): Profi camddefnyddioldeb cynnyrch

**Senario:**

Mae **darparwr cyfrwng cymdeithasol** yn bwriadu cyflwyno nodwedd sy'n caniatáu creu a rhannu rhestrau o ddefnyddwyr eraill ar y gwasanaeth. Mae'r darparwr yn gwybod bod nodweddion tebyg ar wasanaethau eraill wedi cael eu camddefnyddio i rannu rhestrau o ffigurau cyhoeddus sydd â nodweddion penodol fel targedau ar gyfer **ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol**, ac mae eisiau osgoi amlygu ei ddefnyddwyr i'r niwed hwn.

**Camau i'w cymryd:**

Mae'r darparwr yn penderfynu **cynnal profion camddefnyddioldeb** ar gyfer ei nodwedd newydd:

- Mae'r darparwr yn sefydlu **gwerthusiad camddefnyddioldeb** ar gyfer y nodwedd prototeip ac yn profi a allai'r nodwedd alluogi ymosodiadau torfol. Mae'n cynnwys arbenigwyr mewnol, yn ogystal ag arbenigwyr o sefydliadau sy'n cynrychioli pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o aflonyddu cydlynol (gweler **Astudiaeth Achos 1**).
- Mae hyn yn helpu'r darparwr i nodi newidiadau i'r dyluniad, fel rhoi gwybod i ddefnyddwyr a ydynt wedi cael eu hychwanegu at restr, gofyn am eu caniatâd cyn eu hychwanegu, neu ganiatáu i ddefnyddwyr dynnu eu hunain oddi ar y rhestrau hyn. Pan fydd y nodwedd yn cael ei lansio, gall defnyddwyr liniaru'r risg o niwed yn sgil nodweddion o'r fath gyda rheolaethau defnyddwyr wedi'u dylunio gyda niwed yn sgil ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol mewn golwg.

**Ystyriaethau:**

- Dylai darparwyr bwyso a mesur risgiau'n ofalus wrth wneud dewisiadau dylunio. Mewn rhai achosion, gallai dileu nodwedd o'r fath ddileu'r risg o gamddefnyddio heb darfu'n sylweddol ar ddefnyddwyr cyfreithlon. Mewn achosion eraill, efallai y bydd y darparwr gwasanaeth o'r farn bod y nodwedd yn cynnig manteision i'r rhan fwyaf o'i ddefnyddwyr, ond er mwyn rheoli'r risg i rai defnyddwyr, gallai ddarparu gwell gwybodaeth neu nodweddion diofyn y gellir eu haddasu.[232]

---

[232] Freed, D., Palmer, J., Minchala, D., Levy, K., Ristenpart, T. and Dell, N., 2018. "A Stalker's Paradise": How Intimate Partner Abusers Exploit Technology, *CHI '18: Proceedings of the 2018 CHI Conference on Human Factors in Computing Systems.* [cyrchwyd 28 Hydref 2025]. Parkin, S., Patel, T., Lopez-Neira, I., and Tanczer, L., 2020.; Slupska, J. and Tanczer, L., 2021. Threat Modeling Intimate Partner Violence: Tech Abuse as a Cybersecurity Challenge in the Internet of Things in *The Emerald International Handbook of Technology-Facilitated Violence and Abuse.* [cyrchwyd 22 Hydref 2025].

4.22 Mae **Astudiaeth Achos 8** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr chwilio cyffredinol ddefnyddio ymarferion tîm coch i atal camddefnyddio ffugiadau dwfn o ddelweddau personol.

**Astudiaeth achos 8 (arfer da):**

**Ymarferion Tîm coch ar gyfer ymholiadau niweidiol gan ddefnyddwyr**

**Senario:**

Mae darparwr chwilio cyffredinol mawr yn integreiddio nodwedd **crynodeb GenAI** ar ei wasanaeth i gynhyrchu crynodeb testun o ganlyniadau chwilio dethol ar gyfer y defnyddiwr.

Er bod y darparwr eisoes wedi cyflwyno camau cymedroli i sicrhau nad yw safleoedd dinoethi yn dod i'r amlwg mewn canlyniadau chwilio organig, (e.e. canlyniadau "dolen las") (gweler **Astudiaeth Achos 13** ar wasanaethau chwilio sy'n sensitif i rywedd), mae sefydliadau arbenigol yn adrodd fwyfwy bod offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn gallu cynhyrchu cyfarwyddiadau ar sut i gynhyrchu **ffugiad dwfn o ddelweddau personol ar gyfer cam-drin**.

Mae'r darparwr yn poeni y gallai ei nodwedd crynodeb GenAI fod â gwendidau tebyg, a allai danseilio effeithiolrwydd y camau cymedroli (h.y. caniatáu i ddefnyddwyr osgoi'r mesurau hynny'n effeithiol i gael gafael ar gynnwys a fyddai fel arall yn cael ei gyfyngu o dan bolisïau cynnwys mewnol y darparwr ar gyfer y gwasanaeth).

**Camau i'w cymryd:**

Fel rhan o'i **ymarfer tîm coch** i helpu i nodi gwendidau yn y nodwedd crynodeb GenAI, mae'r darparwr yn penderfynu profi a allai'r nodwedd gynhyrchu neu alluogi defnyddiwr i gael gafael ar gyfarwyddiadau ar sut mae creu cynnwys delweddau personol ffugiad dwfn ar gyfer cam-drin.

- Wrth sefydlu'r ymarfer hwn, mae'r darparwr yn ystyried yr arferion gorau a nodir ym mhapur trafod Ofcom ar ymarferion tîm coch, sy'n cynnwys gwneud yn siŵr bod gan gyfranogwyr tîm coch arbenigedd pwnc perthnasol ar niwed ar-lein ar sail rhywedd.
- Mae cyfranogwyr yn y tîm coch yn mabwysiadu technegau amrywiol i asesu a all nodwedd crynodeb GenAI greu cynnwys niweidiol i fenywod a merched. Er enghraifft, camsillafu geiriau er mwyn cael cyfarwyddiadau cam wrth gam ar sut i greu ffugiad dwfn o ddelweddau personol ar gyfer cam-drin.
- Ar ôl iddo ddadansoddi canlyniadau'r ymarfer, bydd y darparwr yn penderfynu ar y camau mwyaf priodol i'w cymryd, sy'n cynnwys mabwysiadu mesurau diogelwch newydd. Mae'r darparwr yn cyflwyno hidlydd diogelwch sy'n seiliedig ar allweddeiriau i atal y nodwedd crynodeb GenAI rhag cynnig ymatebion a allai hwyluso niwed ar sail rhywedd ac mae'n diweddaru'r rhestr o wefannau sydd wedi'u rhwystro ar gyfer y model.
- Mae'r darparwr hefyd yn sicrhau ei fod yn dogfennu ac yn rhannu canlyniadau profion tîm coch gyda thimau mewnol perthnasol.

**Ystyriaethau**

- Mae'n drosedd o dan gyfraith y DU i feddu, dangos, dosbarthu neu greu CSAM neu geisio gwneud hynny.[233]
- Yn yr un modd â phob math arall o brofi a gwerthuso, ni fydd ymarferion tîm coch o reidrwydd yn canfod pob gwendid yn yr adnodd. Er bod ymarferion tîm coch i fod i efelychu sut byddai defnyddwyr go iawn yn rhyngweithio â model mewn bywyd go iawn, mae ffyrdd diderfyn y gall pobl ddefnyddio'r offer hyn. Bydd drwgweithredwyr hefyd yn ceisio osgoi mesurau diogelu drwy newid dulliau osgoi. Mae hyn yn golygu na fydd cyfranogwyr tîm coch bob amser yn gallu darganfod pob gwendid nac adlewyrchu ymddygiad drwgweithredwyr yn amserol.

---

[233] Gweler troednodyn 229 am ragor o wybodaeth ymarferion tîm coch ar gyfer CSAM.

# Cam Gweithredu 5: Gosod rhagosodiadau mwy diogel

4.23 Canlyniad cyffredin gwerthusiadau camddefnyddioldeb fydd gosod rhagosodiadau mwy diogel. Gall rhagosodiadau fod yn adnodd pwerus i greu profiad mwy diogel ar-lein, yn enwedig pan fyddant yn cael eu hategu gan y dulliau atal niwed a nodir yng Ngham Gweithredu 6. Mae ein hymchwil yn dangos bod rhagosodiadau (fel dewis sydd wedi'i ddewis ymlaen llaw) yn dylanwadu'n gryf ar ddewis defnyddwyr hyd yn oed pan fydd newid y gosodiad yn cymryd un clic.[234]

4.24 Gall rhagosodiadau mwy diogel hefyd wreiddio arferion cydsynio gwell wrth ddylunio gwasanaethau drwy ganiatáu ar gyfer mwy o bwyntiau lle gall defnyddwyr benderfynu a ydynt am gymryd rhan mewn rhyngweithio, neu ganiatáu i'w data gael ei rannu.

4.25 Mae cymryd camau i wneud y gwasanaeth yn llai agored i gael ei gam-drin yn ddiofyn yn ei gwneud yn haws i bob defnyddiwr gadw ei hun yn ddiogel ar-lein. Wrth wneud hynny, dylent leihau baich 'gwaith diogelwch' (fel gorfod rhoi gwybod am lawer o ddarnau unigol o gynnwys), a brofir gan oroeswyr a dioddefwyr niwed ar sail rhywedd.

4.26 Mae'r mesurau diogelwch hyn yn aml yn torri ar draws gwahanol fathau o niwed, er eu bod yn arbennig o bwysig ar gyfer niwed fel stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth.

## Camau Sylfaenol: Beth yw'r disgwyliadau ar gyfer darparwyr gwasanaethau?

4.27 Mae ein Codau'n nodi'r camau canlynol ar gyfer darparwyr gwasanaethau, ar sail swyddogaethau, risg a maint:[235]

a) **Gosodiadau diogel**: Dylai'r gosodiadau diofyn ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ddiogelu defnyddwyr sy'n blant.[236]

vii) Ni ddylai gwybodaeth awtomatig am leoliadau cyfrifon plant fod ar gael i unrhyw ddefnyddwyr eraill yn ddiofyn. Dylai unrhyw swyddogaeth rhannu lleoliad fod yn un 'optio i mewn'.
viii) Ni ddylai plant fod yn weladwy yn rhestrau cyswllt defnyddwyr eraill. Ni ddylai defnyddwyr eraill allu gweld rhestrau cyswllt plant chwaith.
ix) Nid yw plant sy'n defnyddio gwasanaeth yn cael awgrymiadau i ehangu eu rhwydwaith o ffrindiau, nac yn cael eu cynnwys mewn awgrymiadau i ehangu eu rhwydwaith fel a gyflwynir i ddefnyddwyr eraill.
x) Nid oes gan gyfrifon heb gysylltiad y gallu i anfon negeseuon uniongyrchol at blant sy'n defnyddio gwasanaeth.
xi) Ar gyfer gwasanaethau heb nodweddion cysylltu ffurfiol, dylai darparwyr gyflwyno mecanweithiau i sicrhau bod plant sy'n defnyddio gwasanaeth yn gallu cadarnhau'n

[234] Ofcom, 2024. Deall ymddygiad i rymuso defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol:
[235] Mae'r 'camau sylfaenol' yn cyfeirio at amrywiaeth o ddisgwyliadau rydym eisoes wedi'u nodi ar gyfer darparwyr gwasanaethau adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn. Mae'r 'camau sylfaenol' yn berthnasol i wahanol wasanaethau ar sail swyddogaeth, risg a maint. Mae gwybodaeth am ba gam sylfaenol sy'n berthnasol i ba wasanaeth wedi'i nodi yn y ddogfen Cipolwg ar y Canllawiau. Mae'r Codau Ymarfer Cynnwys Anghyfreithlon yn berthnasol i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio a reoleiddir, ac mae'r Codau Ymarfer Diogelu Plant yn berthnasol i wasanaethau o'r fath lle mae'n debygol y bydd plant yn eu cyrchu (o fewn ystyr y Ddeddf).
[236] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU F1).

weithredol a ydynt am gael neges uniongyrchol a anfonir o gyfrif defnyddiwr arall cyn bod modd iddynt ei gweld.

b) **Sgyrsiau grŵp**: Dylai darparwyr gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr roi'r opsiwn i blant dderbyn neu wrthod gwahoddiad i sgwrs grŵp. [237]

c) **Gwybodaeth gefnogol**: Dylai darparwyr gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ddarparu gwybodaeth gefnogol i blant mewn modd amserol a hygyrch.[238] Pwrpas hyn yw helpu defnyddwyr sy'n blant i wneud dewisiadau gwybodus am risg drwy roi gwybodaeth iddynt, mynediad at brosesau diogelu, a chymorth ar wasanaeth, pan fyddant yn:

xii) ceisio analluogi un o'r gosodiadau diofyn mwy diogel a argymhellwyd yn flaenorol sydd yn lleihau risg;
xiii) ymateb i gais gan ddefnyddiwr arall i greu cysylltiad ffurfiol; a
xiv) derbyn neges uniongyrchol gan ddefnyddiwr arall am y tro cyntaf.

d) **Chwilio diogel**: Dylai darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant hidlo cynnwys pornograffi, anhwylder bwyta, hunanladdiad a hunan-niweidio a nodwyd (neu brocsi perthnasol o gynnwys o'r fath)[239] ar gyfer unrhyw ddefnyddwyr y maent wedi penderfynu eu bod yn ddefnyddwyr sy'n blant.10F[240]

## Camau ymarfer da: Sut gall darparwyr gwasanaethau fynd ymhellach?

4.28 Yn yr adran hon, rydym yn nodi camau arfer da y gall darparwyr gwasanaethau eu cymryd ochr yn ochr â'r camau sylfaenol i sicrhau bod rhagosodiadau mwy diogel o fudd i bob defnyddiwr, nid dim ond plant. Pan fydd yr opsiwn diogelwch uchaf yn cael ei ddewis ymlaen llaw yn ddiofyn, gall darparwyr ddangos eu hymrwymiad i ddiogelwch drwy sicrhau bod menywod a merched yn cael profiad diogel a hygyrch ar-lein o'u tro cyntaf ar y gwasanaeth.

4.29 Mae'r camau arfer da y gallai darparwyr eu cymryd yn cynnwys:

a) **Cyfathrebu clir:** Esbonio gosodiadau diofyn, bwndeli ac opsiynau mynediad i gyfrifon yn glir i bob defnyddiwr, er enghraifft drwy elfennau gweledol, elfennau clyweledol, neu elfennau rhyngweithiol sy'n gynhwysfawr ac yn hawdd i bob defnyddiwr eu deall. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd gosodiadau diofyn yn newid, neu pan fydd defnyddiwr yn diffodd gosodiadau diofyn.

b) **Rhagosodiadau rhyngweithio:** Gosod rhagosodiadau cryf y gellir eu haddasu ar gyfer pob defnyddiwr (oedolion a phlant) ynghylch rhyngweithio, fel pwy all gysylltu â defnyddiwr neu ofyn am ganiatâd defnyddiwr cyn cael ei ychwanegu at sgwrs grŵp. Dylai oedolion allu newid y gosodiadau hyn.[241]

---

[237] Amddiffyn Plant (PCU J3).

[238] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU F2).

[239] Ystyr 'procsi' yw cynnwys y mae darparwr yn penderfynu ei fod yn torri ei delerau gwasanaeth, lle: a) roedd gan y darparwr reswm i amau y gallai'r cynnwys fod yn gynnwys prif flaenoriaeth perthnasol a b) mae'r darparwr yn fodlon bod ei delerau gwasanaeth yn gwahardd y math o gynnwys prif flaenoriaeth perthnasol yr oedd ganddo reswm dros amau ei fod yn bodoli.

[240] Amddiffyn Plant (PCS C2). Ar gyfer y mesur hwn, rydym yn nodi pan fydd darparwyr yn dewis hidlo cynnwys o'r fath drwy swyddogaeth sy'n berthnasol yn ddiofyn i ddefnyddwyr (fel 'rhagosodiad chwilio diogel'), y dylai darparwyr gymryd camau i sicrhau na all defnyddwyr y pennir eu bod yn blant ddiffodd y swyddogaeth hon neu'r gosodiad chwilio diogel hwn.

[241] O dan ddyletswyddau Grymuso Defnyddwyr sydd ar ddodl, rhaid i wasanaethau Categori 1 roi'r opsiynau i oedolion newid gosodiad diofyn nodwedd reoli, boed honno ymlaen neu wedi'i diffodd yn ddiofyn (gweler Adran 15(5) a (6)) y Ddeddf. Fodd bynnag, efallai y bydd darparwyr gwasanaeth yn dal i ddewis gwneud rhai

c) **Rhagosodiadau preifatrwydd:** Gosod rhagosodiadau cryf y gellir eu haddasu ynghylch preifatrwydd, fel pa wybodaeth y gall defnyddwyr ei gweld am ddefnyddiwr arall, gan gynnwys eu lleoliad (gweler **Astudiaeth Achos 9**), cynnwys a phwy all ac na all ailddosbarthu eu cynnwys neu enw defnyddiwr/hunaniaeth mewn amser real.[242] Gallai gosodiadau eraill gynnwys rhoi adnoddau i ddefnyddwyr fynegi eu hunaniaeth o ran rhywedd a rhoi rheolaeth iddynt dros y ffordd y mae'r darparwr yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddefnyddwyr sy'n ymwneud â'u cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth o ran rhywedd.[243] Dylai oedolion allu newid y gosodiadau hyn.[244]

d) **Gosodiadau hysbysu:** Wrth ddylunio gosodiadau hysbysu am ryngweithio defnyddwyr (e.e tagio, sgrinluniau a recordiadau sgrin, rhannu lleoliadau), ystyriwch y risgiau a'r manteision posibl i bobl sy'n profi niwed ar sail rhywedd, yn enwedig stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth (gellid canfod y rhain drwy brofion camddefnyddioldeb). Er enghraifft, efallai y bydd goroeswyr a dioddefwyr stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth eisiau cael gwybod pan fyddant yn cael eu tagio yng nghynnwys defnyddiwr arall, yn enwedig os oes gan yr olaf lai o osodiadau gwelededd preifat, a'i bod yn well ganddynt i ddefnyddwyr eraill beidio â chael gwybod am eu gweithgarwch neu eu lleoliad ar-lein.

e) **Bwndeli:** Cyfuno gosodiadau rhyngweithio a phreifatrwydd perthnasol yn 'fwndeli'. Gall defnyddwyr gael eu llethu gan ormod o opsiynau ar gyfer gosodiadau, gan gynnwys wrth greu proffil, sy'n golygu eu bod yn ymddieithrio rhag gwneud penderfyniadau. Gall grwpio dewisiadau perthnasol gyda'i gilydd mewn 'bwndel' leihau'r amser a'r ymdrech sydd eu hangen gan ddefnyddwyr a gall opsiynau personoli helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus am eu gosodiadau ar-lein.[245] Ar y llaw arall, gallai cynnig dewisiadau personoli ganiatáu i ddefnyddwyr wneud dewisiadau manylach y tu allan i'r bwndeli. Gallai bwndeli sydd wedi'u dylunio'n wael danseilio gweithrediad defnyddwyr, yn enwedig yn achos defnyddwyr agored i niwed, neu gynyddu'r risg nad yw defnyddwyr yn cael gwybod am brosesu data, felly dylid egluro ac asesu bwndeli'n glir bob amser i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â diogelu data a'r effaith ar breifatrwydd.[246]

f) **Cryfhau diogelwch cyfrifon** gyda Dilysiad Dau Gam ('2FA') neu ddilysiad aml-ffactor, gan sicrhau bod modd adfer cyfrifon ar ôl cael eu hacio a/neu eu cloi allan. Mae canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn tynnu sylw at y ffaith y bydd hyn yn bwysicach pan fydd data personol y gellir cael gafael arno o natur sensitif neu y gallai achosi niwed sylweddol pe bai'n cael ei beryglu. Mae'n bwysig paru hyn â rhoi cyngor i ddefnyddwyr

---

gosodiadau diogelwch (fel gosodiadau preifatrwydd diofyn ynghylch pwy sy'n gallu ailrannu cynnwys defnyddiwr sy'n blentyn) yn orfodol i ddefnyddwyr sy'n blant.

[242] Am ragor o wybodaeth am osodiadau preifatrwydd diofyn, gweler Cod Ymarfer Dylunio Priodol i Oedran yr Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Pennod 7: Gosodiadau Preifatrwydd Diofyn.

[243] GLAAD, 2024. GLAAD Social Media Safety Index Platform Scorecard. [cyrchwyd 29 Hydref 2024]; Department for Science, Innovation & Technology and PUBLIC, 2025. Platform Design and the Risk of Online Violence Against Women and Girls. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[244] Gweler troednodyn 241.

[245] Behavioural Insights Team, 2021. Active Online Choices: Designing to Empower Users. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

[246] Mae cyfraith diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr fod yn glir ac yn agored gyda defnyddwyr ynghylch sut mae eu data personol yn cael ei ddefnyddio. Gweler canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar yr hawl unigolion i gael gwybod a thrylowder. Gweler heyfd canllawiau'r Swyddfa'r Comisinydd Gwybodaeth ar osodiadau diofyn a chaniatâd GDPR dilys,o dan GDPR y DU a phapur ar y cyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar ddylunio niweidiol. Canllaw i ddiogelwch data.

ynghylch diogelu eu data[247], ac i ddarparwyr fod yn ymwybodol o sut y gall mesurau diogelwch llawn cymhelliant osgoi hyn.[248]

g) **Mynediad at gyfrifon:** Darparu gwybodaeth am fynediad at gyfrifon drwy ei gwneud yn glir pa ddefnyddwyr sydd wedi'u cysylltu â chyfrif, dyfais neu lwyfan ar hyn o bryd, yn ogystal â pha ddyfeisiau unigryw (drwy gyfeiriadau IP/MAC) sydd wedi'u cysylltu â chyfrif, a'i gwneud yn hawdd casglu tystiolaeth o fynediad anghyfreithlon at gyfrif.[249] Mae hyn yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer monitro a gwyliadwriaeth heb gydsyniad yng nghyd-destun stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth, ac yn cefnogi goroeswyr a dioddefwyr i lunio achos os bydd monitro heb gydsyniad yn digwydd.[250]

h) **Hysbysiadau atgoffa:** Darganfod pa mor aml, a pha bryd, y dylid anfon hysbysiadau i atgoffa defnyddwyr yn rheolaidd i adolygu neu ddiweddaru eu gosodiadau preifatrwydd a diogelwch, gydag iaith hawdd ei deall.[251] Mae ymchwil yn canfod bod amseru awgrymiadau yn bwysig ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr, a gall negeseuon atgoffa rhy aml fod yn annifyr ac arwain at ymddieithrio.[252]

i) **Ymgysylltu ag arbenigwyr pwnc**, yn enwedig y rheini sydd â phrofiad o gefnogi goroeswyr a dioddefwyr, wrth ddylunio gosodiadau preifatrwydd a diogelwch (gweler **Astudiaeth Achos 3**).[253]

---

[247] ICO, Passwords in online services. [cyrchwyd 26 Awst 2025]. Mae hyn hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw brosesu ar ddata biometrig at ddibenion adnabod unigolyn yn benodol yn cael ei wneud yn unol â'r gofynion ar gyfer prosesu data personol categori arbennig yn unol â deddfwriaeth diogelu data.
[248] Leitão, R., 2019. Anticipating Smart Home Security and Privacy Threats with Survivors of Intimate Partner Abuse. [cyrchwyd 26 Awst 2025].
[249]Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried anghenion eu sylfaen defnyddwyr yn y DU wrth ystyried pa ieithoedd sydd eu hangen i sicrhau bod yr wybodaeth am fynediad i gyfrifon yn hygyrch.
[250]Wrth gyflwyno'r cam arfer da hwn, rhaid i wasanaethau sicrhau bod prosesu data yn ddigonol, yn berthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol, yn unol â chyfraith diogelu data. Gweler Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar leihau data.
[251]Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried anghenion eu sylfaen defnyddwyr yn y DU wrth ystyried pa ieithoedd sydd eu hangen i sicrhau bod eu negeseuon atgoffa yn hygyrch.
[252] Wohllebe, A., Hübner, D., Radtke, U. and Podruzsik, S. 2021. Mobile apps in retail: Effect of push notification frequency on app user behavior. *Innovative Marketing* 17 (2). [cyrchwyd 30 Ionawr 2025].
[253] Dylai darparwyr hefyd ymgynghori ag adnoddau gan yr Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth a fydd yn cefnogi sefydliadau i ystyried preifatrwydd a diogelwch data.

4.30 Mae **Astudiaeth Achos 9** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr cyfrwng cymdeithasol osod rhagosodiadau mwy diogel sy'n ymwneud â data lleoliad ar gyfer pob defnyddiwr er mwyn atal stelcio.

**Astudiaeth achos 9 (arfer da):**

**Gwybodaeth am leoliad ar negeseuon cyfryngau cymdeithasol**

**Senario**

Mae **darparwr cyfrwng cymdeithasol** yn cael adroddiadau bod defnyddwyr wedi cael eu canfod gan gyflawnwyr **stelcio** drwy ddata lleoliad sy'n gysylltiedig â lluniau a fideos. Mae'r darparwr yn sylweddoli nad yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn ymwybodol bod y metadata hwn yn cael ei amlygu drwy lwytho cynnwys i fyny.

**Camau i'w cymryd**

Mae'r darparwr yn penderfynu diffodd dewisiadau geoleoliad yn ddiofyn, er mwyn cyfyngu ar gyfleoedd i rannu lleoliadau'n ddamweiniol.[254] Mae'r darparwr:

- yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr pan fydd olrhain lleoliad ymlaen ac yn cysylltu â gwybodaeth am ba ddata mae'n ei rannu â defnyddwyr eraill.
- yn cadw'r opsiwn i ail-alluogi metadata lleoliad, ond mae'n darparu gwybodaeth glir, ddealladwy a hawdd ei deall ochr yn ochr â'r gosodiad hwn, gan wneud defnyddwyr yn ymwybodol y gallai defnyddwyr eraill weld eu lleoliad.

**Ystyriaethau**

- Wrth ddefnyddio gosodiadau diofyn, dylai darparwyr brofi eu heffaith i nodi unrhyw risgiau newydd y gallent eu cyflwyno'n anfwriadol (gweler **Astudiaeth Achos 7** ar brofi camddefnyddioldeb) a bod yn ymwybodol nad yw derbyn rhagosodiad yr un fath â gwneud dewis gweithredol. Dylent hefyd fod yn ymwybodol y gallai fod angen i ragosodiadau newid dros amser, er mwyn darparu ar gyfer telerau, polisïau neu dechnoleg newydd a chyfreithiau diogelu data perthnasol.

# Cam Gweithredu 6: Lleihau cylchrediad cynnwys sy'n dangos, yn hyrwyddo neu'n annog niwed ar-lein ar sail rhywedd

4.31 Gall darparwyr hefyd atal niwed drwy ddefnyddio technegau sy'n lleihau'r risg y bydd unigolion yn dod ar draws cynnwys anghyfreithlon (fel camddefnyddio delweddau personol a seiberfflachio)[255], diogelu plant rhag dod ar draws cynnwys sy'n niweidiol iddyn nhw (fel cam-

[254] Mae sicrhau bod opsiynau geoleoliad wedi'u diffodd yn ddiofyn yn cyd-fynd â safon 10 'Geoleoliad' Cod Dylunio Priodol i Oedran Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n helpu darparwyr gwasanaethau ar-lein sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant i gymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu eu data personol.
[255] Mae'r dyletswyddau diogelwch ar gyfer darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ynghylch cynnwys anghyfreithlon wedi'u nodi yn adran 10 y Ddeddf. Mae dyletswyddau darparwyr gwasanaethau chwilio ynghylch cynnwys anghyfreithlon wedi'u nodi yn adran 27 y Ddeddf.

drin a chasineb).[256] Gall technegau o'r fath hefyd helpu darparwyr i orfodi'r polisïau y maent yn dewis eu nodi yn eu telerau gwasanaeth (gweler Pennod 3).

4.32 Efallai y bydd rhai darparwyr yn dewis cymryd camau i ddiogelu pob defnyddiwr[257], nid plant yn unig, rhag dod ar draws cynnwys niweidiol, er enghraifft oherwydd ei fod yn torri eu telerau gwasanaeth. Yn y pen draw, mater i ddarparwyr yw penderfynu pa gynnwys maen nhw'n ei ganiatáu ar eu gwasanaethau ar yr amod bod hyn yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys dewis a ydynt am ganiatáu i oedolion bostio a gwylio cynnwys nad yw'n gyfystyr a throseddu, ond a allai fod yn gamdriniol, yn gas neu'n dreisgar. Os bydd darparwyr yn dewis caniatáu neu hyrwyddo cynnwys o'r fath, dylent fod yn dryloyw gyda defnyddwyr ynghylch y dewisiadau maen nhw'n eu gwneud a chynnwys y gallai defnyddwyr ddod i gysylltiad ag ef.[258]

## Camau Sylfaenol: Beth yw'r disgwyliadau ar gyfer darparwyr gwasanaethau?

4.33 Mae ein Codau'n nodi'r camau canlynol ar gyfer darparwyr gwasanaethau, ar sail swyddogaethau, risg a maint:[259]

a) **Cyfeirio defnyddwyr at gymorth:** Dylai darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr gyfeirio plant at gymorth pan fyddant yn postio cynnwys niweidiol, gan gynnwys deunydd sy'n ymwneud â bwlio, hunanladdiad, hunan-niweidio neu anhwylderau bwyta, neu chwilio am gynnwys sy'n ymwneud â hunanladdiad, hunan-niweidio neu anhwylder bwyta ar wasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr.[260] Dylai darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr roi gwybodaeth i ddefnyddwyr am atal argyfwng mewn ymateb i geisiadau chwilio am hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta.[261]

b) **Rhybuddion CSAM ar gyfer chwilio:** Dylai darparwyr gwasanaethau chwilio fod â systemau a phrosesau i ganfod a darparu rhybuddion cynnwys ac adnoddau cymorth i ddefnyddwyr sy'n gwneud ceisiadau chwilio lle mae'r geiriad yn awgrymu'n glir y gallai'r defnyddiwr fod yn ceisio canfod CSAM, neu sy'n defnyddio termau neu gyfuniadau neu lythrennau a symbolau sy'n ymwneud yn benodol â CSAM.184[262]

---

[256]Mae'r dyletswyddau diogelwch ar gyfer darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ynghylch amddiffyn plant wedi'u nodi yn adran 12 y Ddeddf. Mae'r dyletswyddau ar gyfer darparwyr gwasanaethau chwilio wedi'u nodi yn adran 29 y Ddeddf.

[257] Mae'r dyletswyddau sy'n ymwneud yn benodol ag amddiffyn plant wedi'u nodi yn adrannau 11-13 a 20-21 y Ddeddf ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cael eu rheoleiddio ac adrannau 28-30 a 31-32 y Ddeddf ar gyfer gwasanaethau chwilio sy'n cael eu rheoleiddio.

[258]Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth yn eu telerau gwasanaeth (ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr) neu ddatganiadau sydd ar gael i'r cyhoedd (ar gyfer gwasanaethau chwilio) am sut bydd plant yn cael eu diogelu rhag cynnwys sy'n niweidiol iddynt, ac ar gyfer gwasanaethau Categori 1 a 2A gan grynhoi canfyddiadau eu hasesiad risg plant diweddaraf. Gweler adrannau 12(9), 12(14), 29(7) a 29(9) y Ddeddf.

[259]Mae'r 'camau sylfaenol' yn cyfeirio at amrywiaeth o ddisgwyliadau rydym eisoes wedi'u nodi ar gyfer darparwyr gwasanaethau adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn. Mae'r 'camau sylfaenol' yn berthnasol i wahanol wasanaethau ar sail swyddogaeth, risg a maint. Mae gwybodaeth am ba gam sylfaenol sy'n berthnasol i ba wasanaeth wedi'i nodi yn y ddogfen Cipolwg ar y Canllawiau. Mae'r Codau Ymarfer Cynnwys Anghyfreithlon yn berthnasol i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio a reoleiddir, ac mae'r Codau Ymarfer Diogelu Plant yn berthnasol i wasanaethau o'r fath lle mae'n debygol y bydd plant yn eu cyrchu (o fewn ystyr y Ddeddf).

[260]Amddiffyn Plant (PCU F4, PCU F5).

[261]Niwed Anghyfreithlon (ICS F3) ac Amddiffyn Plant (PCS F3).

[262]Niwed Anghyfreithlon (ICS F2).

c) **Dulliau effeithiol iawn o sicrhau oedran**: Dylai darparwyr gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ddefnyddio dulliau effeithiol iawn o sicrhau oedran i atal a/neu amddiffyn plant rhag dod ar draws cynnwys sy'n niweidiol i blant nad ydynt yn ei wahardd ar y gwasanaeth, neu maent yn ei wahardd ond nad ydynt yn gallu ei dynnu, a/neu i ddefnyddio'r mesurau system argymell perthnasol (gweler isod).8[263]

d) **Cyfateb hash:** Dylai darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ddefnyddio techneg awtomataidd o'r enw 'cyfateb hash' i ganfod a thynnu CSAM sy'n seiliedig ar ddelweddau.[264]

e) **Cymedroli cynnwys**: Dylai darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ddefnyddio cymedroli cynnwys i adolygu ac asesu cynnwys yr amheuir ei fod yn niweidiol i blant a chynnwys yr amheuir ei fod yn anghyfreithlon, a gweithredu'n gyflym pan fyddant yn nodi cynnwys o'r fath, lle mae'n dechnegol ymarferol ar hyn o bryd.[265]

f) **Cymedroli chwilio:** Dylai darparwyr gwasanaethau chwilio gael systemau a phrosesau sydd wedi'u dylunio i adolygu, asesu a, lle bo'n berthnasol, cymryd camau cymedroli priodol mewn perthynas â chynnwys chwilio y mae gan y darparwr reswm i amau a allai fod yn gynnwys anghyfreithlon neu'n gynnwys sy'n niweidiol i blant.[266] Ar ben hynny, dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau nad yw defnyddwyr yn dod ar draws cynnwys chwilio sy'n bresennol mewn neu a gyrchwyd o URLs neu barthau[267] y nodwyd yn flaenorol eu bod yn lletya CSAM, ac sydd wedi'u cynnwys ar restr o URLs a gafwyd gan unigolyn sydd ag arbenigedd mewn adnabod CSAM.[268]

g) **Systemau argymell**: Dylai darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sicrhau bod unrhyw system argymell cynnwys y gall plant ei defnyddio yn cael ei dylunio a'i gweithredu fel bod cynnwys a nodir ei fod o bosibl yn gynnwys prif flaenoriaeth - pornograffi, cynnwys anhwylderau bwyta, cynnwys hunan-niweidio a hunanladdiad - yn cael ei wahardd o ffrydiau argymell plant. [269] Ar ben hynny, dylid gwahardd cynnwys y nodir y gallai fod yn gynnwys blaenoriaeth, gan gynnwys cam-drin ar sail rhyw neu ailbennu rhywedd, yn ogystal â chynnwys sy'n hyrwyddo trais ar sail rhywedd ac iselder a stigmateiddio mathau o gyrff, neu fath penodol o gynnwys heb ei ddynodi, neu roi lefel isel o amlygrwydd iddo mewn ffrydiau argymell plant (gweler **Astudiaeth Achos 10**).[270]

4.34 Mae **astudiaeth achos 10** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr gwasanaeth rhannu fideos gymryd camau i atal plant rhag dod ar draws cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol.

---

[263]Amddiffyn Plant (PCU B1,PCU B2, PCU B3, PCU B4, PCU B5, PCU B6, PCU B7). Yn ein Cod Ymarfer Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, rydym yn amlinellu pa wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ddylai ddefnyddio dulliau effeithiol iawn o sicrhau oedran i (i) atal plant rhag cael mynediad at y gwasanaeth cyfan lle mai eu prif bwrpas yw cynnal neu ledaenu cynnwys prif flaenoriaeth neu gynnwys blaenoriaeth; (ii) sicrhau bod plant yn cael eu hatal rhag dod ar draws cynnwys prif flaenoriaeth a nodwyd ar y gwasanaeth; (iii) sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag dod ar draws cynnwys blaenoriaeth a nodwyd ar y gwasanaeth; a/neu (iv) defnyddio mesurau system argymell perthnasol i blant. Rydym yn nodi'r hyn sy'n 'ddulliau effeithiol iawn o sicrhau oedran' yn ein Canllawiau Rhan 3 ar ddulliau effeithiol iawn o sicrhau oedran, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025.

[264]Niwed Anghyfreithlon (ICU C9).

[265]Amddiffyn Plant (PCU C1 a C2). I gael trafodaeth fanwl ar gynnwys sy'n niweidiol i blant, darllenwch y bennod Cyflwyniad a'n Cofrestr Risgiau Plant. [cyrchwyd 12 Medi 2025].

[266]Cynnwys Anghyfreithlon (ICS C1), Amddiffyn Plant (PCS C1).

[267]Mae hyn yn cynnwys deunydd chwilio sy'n bresennol mewn parthau sydd wedi'u neilltuo'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddeunyddiau cam-drin plant yn rhywiol.

[268]Niwed Anghyfreithlon (ICS C7).

[269]Amddiffyn Plant (PCU E1).

[270]Amddiffyn Plant (PCU E2).

## Astudiaeth achos 10 (sylfaenol): Gwerthuso systemau argymell i fynd i'r afael â cham-drin misogynistaidd a thrais rhywiol

### Senario

Mae **darparwr gwasanaeth rhannu fideos** yn dod yn ymwybodol drwy sefydliad ieuenctid bod llawer o fechgyn ifanc yn gweld cynnwys sy'n dangos cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol. Ar ôl sesiwn brofi gychwynnol lle mae'n adlewyrchu profiad bachgen ifanc ar ei wasanaeth, mae'n darganfod bod fideos am fagu hyder yn aml yn arwain at fideos sy'n hyrwyddo cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol, a bod y rhain yn cael eu hyrwyddo iddynt drwy eu halgorithm argymell.[271]

### Camau i'w cymryd:

Mae'r darparwr gwasanaeth rhannu fideos yn cynnal ac yn cofnodi gwerthusiad o sut mae ei systemau argymell yn amlygu cynnwys sy'n hyrwyddo cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol, i blant.

- Ar ôl y gwerthusiad hwn, mae'r darparwr yn cymryd camau i ailhyfforddi ei algorithm argymell. Mae'n gwella technegau i ganfod a lleihau amlygrwydd cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol
- Wrth weithredu'r newidiadau, mae'r darparwr yn cadw cofnod o'r gwerthusiad er mwyn dogfennu ei benderfyniadau ar gyfer asesiadau risg yn y dyfodol (gweler Cam Gweithredu 2) ac i rannu'r hyn a ddysgwyd yn fewnol.

### Ystyriaethau

- Yn ogystal â cham-drin misogynistaidd a thrais rhywiol, dylai darparwyr ystyried y mathau eraill o gynnwys y nodwyd y gallent fod yn gynnwys blaenoriaeth y dylid ei wahardd neu y dylid rhoi lefel isel o amlygrwydd iddo mewn ffrydiau argymell plant. Dylent hefyd wahardd cynnwys y nodwyd ei fod o bosibl yn gynnwys prif flaenoriaeth.
- Gallai'r darparwr fynd ymhellach ac ystyried cyflwyno ysgogiadau i annog defnyddwyr i beidio â llwytho cynnwys i fyny sy'n hyrwyddo cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol.
- Yn ystod y broses ddatblygu hon, mae'r darparwr yn ystyried y risg o wrthdaro a blinder ymysg defnyddwyr wrth benderfynu pa ymyriadau sy'n briodol. Yn ogystal â gwerthuso a gwella systemau argymell, gall llwyfannau ymgysylltu ag arbenigwyr pwnc (gweler Astudiaeth Achos 3) sy'n cefnogi ac yn gweithio gyda rhieni, pobl ifanc a gofalwyr. Gall ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn ysgolion, cymunedau ac yn y cartref hyrwyddo dealltwriaeth o sut mae gwasanaethau a chymhellion ariannol dylanwadwyr yn siapio'r cynnwys rydyn ni'n ei weld.[272]
- Dylai'r darparwr ystyried Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar Ddeallusrwydd Artiffisial a Thegwch sy'n nodi methodoleg glir ar gyfer archwilio rhaglenni deallusrwydd artiffisial.[273]

---

[271] SAFER SCROLLING How algorithms popularise and gamify online hate and misogyny for young people [cyrchwyd 20 Awst 2025].

[272] Bwrdd Crwn Ofcom / Grŵp Gweithredu Pobl Ifanc, 7 Gorffennaf 2025; I gael rhagor o wybodaeth am ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, edrychwch ar Egwyddorion Arferion Gorau ar gyfer Ymyriadau Ar-lwyfan i Hyrwyddo Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Ofcom.

[273] ICO, Guidance on AI and Fairness

## Camau ymarfer da: Sut gall darparwyr gwasanaethau fynd ymhellach?

4.35 Yn ogystal â'r camau sylfaenol, mae technegau eraill y gall darparwyr eu defnyddio i leihau effaith cynnwys niweidiol ar fenywod a merched. Mae'r camau arferion da hyn yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau arloesi a chasglu data ar ddulliau gweithredu newydd - ac rydym wrthi'n edrych ar rai ohonynt ar gyfer Codau Ymarfer yn y dyfodol. Gallai hyn nid yn unig helpu i gryfhau ymatebion darparwyr i niwed ar-lein ar sail rhywedd, ond hefyd eu helpu i osod eu hunain ar wahân fel arweinwyr diwydiant yn y maes hynod gymhleth a hanfodol hwn.

4.36 Yn yr adran hon, rydym yn edrych ar dri dull: Perswâd (cyflwyno ffrithiant bwriadol), Gwaredu (atal llwytho i fyny neu dynnu i lawr) a Lleihau (cyfyngu ar gylchrediad neu leihau gwelededd). Bydd llawer o'r dulliau hyn yn dibynnu ar dechnolegau canfod awtomataidd. Fel sy'n cael ei archwilio'n fanwl yn yr adrannau canlynol, mae ein harferion da yn awgrymu:

a) Defnyddio perswâd i fynd i'r afael â phob un o'r pedwar maes niwed ar-lein ar sail rhywedd.

b) Defnyddio gwaredu i fynd i'r afael â niwed ar sail rhywedd (stelcio, rheolaeth drwy orfodaeth a cham-drin rhywiol ar sail delweddau).

c) Defnyddio lleihau i fynd i'r afael â niwed ar sail rhywedd sy'n cynnwys deunydd sy'n niweidiol i blant (cam-drin rhywiol a thrais rhywiol ac ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol). Rydym hefyd yn edrych ar sut gall gwasanaethau chwilio leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â dolenni sy'n arwain at niwed anghyfreithlon neu'n ei alluogi.

4.37 O ystyried bod y technegau hyn yn effeithio ar sut gall pobl gymryd rhan mewn deialogau ar-lein a gweld gwahanol fathau o gynnwys, dylai darparwyr ystyried yn ofalus pa arfer da sydd fwyaf priodol ar gyfer eu math o wasanaeth, a'r mathau o niwed maen nhw'n eu targedu. Mae hyn yn cynnwys ystyried eu dyletswyddau mewn perthynas â rhyddid mynegiant a phreifatrwydd (gweler Cam Gweithredu 1).

4.38 Dylai darparwyr hefyd nodi y bydd y penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud am gylchrediad cynnwys ar-lein yn effeithio ar wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, bydd lleihau gwelededd cynnwys sy'n beirniadu menywod mewn bywyd cyhoeddus yn effeithio ar ba mor bell y gall rhai defnyddwyr ledaenu eu neges. Fodd bynnag, mae dewis peidio â chyfyngu ar gylchrediad cynnwys o'r fath, lle mae'n gyfystyr ag ymosodiad torfol, yn golygu bod defnyddwyr (yn yr achos hwn, menywod mewn bywyd cyhoeddus) yn cyfyngu ar eu mynegiant neu dynnu'n ôl o fywyd cyhoeddus.

4.39 Mae'r dulliau a ddisgrifir ar gyfer perswâd, gwaredu a lleihau yn aml yn dibynnu ar systemau cymedroli cynnwys i sganio, adnabod a hidlo cynnwys sy'n dangos niwed ar-lein ar sail rhywedd. Efallai y bydd rhai darparwyr yn defnyddio dulliau canfod awtomataidd, gan gynnwys defnyddio technoleg ragweithiol, y mae Ofcom ond yn gallu ei hargymell yn ein Codau ar gyfer cynnwys sy'n cael ei gyfleu'n gyhoeddus.[274] Mae'n bwysig gwella systemau awtomataidd yn barhaus i ganfod cynnwys a allai fod yn niweidiol ac osgoi argymell cynnwys, fforymau neu grwpiau sy'n debygol o annog cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol. Gallai hyn gynnwys:

a) Gwerthuso systemau awtomataidd i sicrhau eu bod yn gywir, yn effeithiol, yn gyd-destunol gynnil ac yn lleihau rhagfarn o ran hil, rhywedd a nodweddion eraill.[275] Er enghraifft, dylai

[274]Dim ond ar gyfer y Codau Niwed Anghyfreithlon, Amddiffyn Plant a Hysbysebu Twyllodrus y gall Ofcom argymell defnyddio technoleg ragweithiol (gweler paragraff 13(3) Atodlen 4).

[275] Appelman, N., 2023. Disparate Content Moderation Mapping Social Justice Organisations Perspectives on Unequal Content Moderation Harms and the EU Platform Policy Debate. [cyrchwyd 22 Hydref 2025].

systemau awtomataidd geisio osgoi dileu cynnwys yn anfwriadol gan oroeswyr a dioddefwyr sy'n tynnu sylw at hiliaeth a cham-drin misogynistaidd (gweler **Astudiaeth Achos 14**).[276]

b) Hyfforddi algorithmau canfod i roi cyfrif am gyd-destun diwylliannol sensitif a datblygu systemau aml-foddol sy'n gallu bod yn fwy cynnil.[277] Yn benodol, mae ymchwil sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu y gall modelau iaith mawr fod yn effeithiol o ran ymgorffori cyd-destun wrth ganfod iaith casineb, ond maent yn creu heriau newydd sy'n gysylltiedig â rhagfarnau a chysondeb, fel camddosbarthu cynnwys o gymunedau ymylol fel canlyniadau cadarnhaol ffug.[278]

c) Sicrhau bod cymedroli'n effeithiol ar gyfer gwahanol fathau o fformatau fel testun, delwedd a llais. Gall cymedroli sgwrs llais yn y gêm hefyd leihau amlygiad. Er enghraifft, gall cymedroli llais sy'n cael ei yrru gan ddysgu peirianyddol ganfod cynnwys sain niweidiol.[279]

d) Ychwanegu mesurau diogelu ar gyfer rhyddid mynegiant, gan gynnwys llwybrau i herio cynnwys sydd wedi'i safoni'n anghywir. Gall systemau cymedroli cynnwys hybrid sy'n cyfuno awtomeiddio â chymedrolwyr dynol ar gyfer achosion heriol sy'n dibynnu ar gyd-destun helpu i wella canlyniadau (gweler Cam Gweithredu 9).[280]

## Perswâd

4.40 Mae perswâd yn cyfeirio at gyflwyno ffrithiant yn nhaith y defnyddiwr i annog defnyddiwr i beidio â phostio na lanlwytho niwed ar-lein ar sail rhywedd. Nod hyn yw rhoi amser i bobl feddwl am yr hyn maen nhw'n ei bostio. Mae'r dulliau hyn yn fuddiol i addysgu defnyddwyr am ymddygiad parchus.

4.41 Gan nad yw perswâd yn rhwystro cynnwys rhag cael ei lanlwytho, mae'n dechneg ddefnyddiol i fynd i'r afael â cham-drin misogynistaidd a thrais rhywiol sy'n cynnwys deunydd anghyfreithlon a deunydd sy'n niweidiol i blant. Gall perswâd hefyd atal pobl sy'n camddefnyddio delweddau personol. Mae perswâd yn llai tebygol o fod yn effeithiol yn erbyn cyflawnwyr niwed anghyfreithlon sy'n llawn cymhelliant, er enghraifft mewn achosion o stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth.

4.42 Gallai perswâd gynnwys:

a) **Cyflwyno ffrithiant bwriadol** drwy ysgogiadau, rhybuddion ac anogaethau[281] sy'n gallu torri ar draws camau gweithredu ac annog myfyrio. Gall hyn fod yn ddefnyddiol yng nghyd-destun:

---

[276] Kwarteng, J., 2022. Misogynoir: Challenges in Detecting Intersectional Hate, *Social Network Analysis and Mining,* 12 (1). [cyrchwyd 31 Hydref 2025].

[277] Peterson-Salahuddin, C., 2024. Repairing the harm: Toward an algorithmic reparations approach to hate speech content moderation, *Big Data & Society*, 11 (2). [accessed 23 Hydref 2025]; Chan, A. J., Redondo García, J. L., O'Donnell, C., Silvestri, F. a Palla, K., 2024. Enhancing Content Moderation with Culturally-Aware Models. [accessed 23 Hydref 2025]; Arya, P., Pandey, A. K., Patro, S. G. K., Tiwari, K., Panigrahi, N., Naveed, Q. N. a Khan, W. A., 2024. MSCMGTB: A Novel Approach for Multimodal Social Media Content Moderation Using Hybrid Graph Theory and Bio-Inspired Optimization, *IEEE Access* (12). [accessed 23 Hydref 2025]; Wang, W., Huang, J., Huang, J., Chen, C., Gu, J., He, P. a Lyu, M. R., 2023. An Image is Worth a Thousand Toxic Words: A Metamorphic Testing Framework for Content Moderation Software. [cyrchwyd 23 Hydref 2025].

[278] Albladi et al. 2025. Hate Speech Detection Using Large Language Models: A Comprehensive Review. [cyrchwyd 29 Awst 2025].

[279] Pappas, M., 2023. Social Safety in Games: Moderating Voice Chat in the Metaverse, *ACM Games: Research and Practice*, 1 (3). [cyrchwyd 31 Hydref 2025].

[280] Albladi et al. 2025. Hate Speech Detection Using Large Language Models: A Comprehensive Review. [cyrchwyd 29 Awst 2025].

[281]Mae anogaethau yn fesurau dylunio mewn amgylchedd ar-lein i hyrwyddo rhai ymddygiadau a/neu i ddatgymell ymddygiadau eraill.

xv) Gofyn i ddefnyddwyr ailystyried postio cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol (gweler **Astudiaeth Achos 11**).[282] Gellir defnyddio anogaethau hefyd i atal cyflawnwyr rhag rhannu cynnwys personol heb ganiatâd. Er enghraifft, gall darparwyr ddefnyddio dulliau canfod noethni i fflagio pan fydd defnyddiwr ar fin rhannu delweddau personol a gwirio a ydynt yn siŵr eu bod am rannu, gan eu hatgoffa ei bod yn anghyfreithlon rhannu delwedd bersonol o rywun heb eu caniatâd.

xvi) Atal defnyddwyr rhag chwilio sut mae stelcio, rheoli drwy orfodaeth neu gamddefnyddio delweddau personol, lle gall darparwyr ganfod ymholiadau chwilio sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r niwed hwn. Gellir gwneud hyn drwy flaenoriaethu canlyniadau chwilio sy'n tynnu sylw at ble mae cynnwys neu weithgarwch o'r fath yn anghyfreithlon, a chyfeirio defnyddwyr at wasanaethau cymorth yn lle hynny. Gellir defnyddio'r dull ataliaeth hwn hefyd lle mae gwasanaeth chwilio wedi integreiddio model iaith mawr (LLM) i gynhyrchu crynodebau testun o ganlyniadau chwilio ac mae defnyddwyr yn mewnbynnu ymholiadau chwilio sy'n ymwneud â niwed anghyfreithlon.[283]

b) **Caniatáu i bobl ddilysu hunaniaeth:** Gall rhoi'r dewis i ddefnyddwyr ddilysu pwy ydyn nhw, neu ymgysylltu â dim ond defnyddwyr eraill sydd wedi'u dilysu, leihau effaith dadataliaeth ar-lein.[284] Mae'r effaith hon yn golygu bod unigolion yn ymgysylltu ag ymddygiad niweidiol fel cam-drin misogynistaidd, ymosodiadau torfol a chamddefnyddio delweddau personol, y byddent fel arfer yn ymatal rhag ymgysylltu â nhw all-lein, oherwydd anhysbysrwydd neu ffugenw.[285] Er y gall dilysu hunaniaeth fod yn ddefnyddiol mewn rhai amgylchiadau (gweler **Astudiaeth Achos 12**), mae gweithredu effeithiol a phriodol yn allweddol o ystyried y goblygiadau preifatrwydd, yn enwedig gan y gallai pobl geisio bod yn ddienw/â ffug enw ar-lein am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys osgoi stelcio a chael gafael ar adnoddau cefnogol.[286] Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried y goblygiadau diogelu data sy'n gysylltiedig â dilysu hunaniaeth.[287]

---

[282] Cox, A. L., Gould, S. J., Cecchinato, M. E., Iacovides, I. and Renfree, I., 2016. Design frictions for mindful interactions: The case for microboundaries, *Proceedings of the 2016 CHI conference extended abstracts on human factors in computing systems*. [cyrchwyd 31 Hydref 2025].

[283] I gael rhagor o wybodaeth am sut mae'r Ddeddf yn berthnasol i offer GenAI, edrychwch ar lythyr agored Ofcom.

[284] Mae angen rhagor o dystiolaeth i sefydlu effeithiolrwydd dilysu hunaniaeth o ran lleihau effaith dadataliaeth ar-lein. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod defnyddio proffiliau dienw yn galluogi defnyddwyr i wneud neu ddweud pethau ar-lein na fyddant efallai'n eu gwneud wyneb yn wyneb, gan eu hannog i ymddwyn yn gas neu'n gamdriniol ar-lein. Mae rhagor o fanylion am risgiau anhysbysrwydd a ffugenwau ar gael yng Nghofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon Ofcom a Chofrestr Risgiau Plant.

[285] Cheung, C.M., Wong, R.Y.M. a Chan, T.K., 2021 Online disinhibition: conceptualization, measurement, and implications for online deviant behavior, *Industrial Management & Data Systems*, 121 (1). [cyrchwyd 3 Tachwedd 2025]; Gweithdy Rhanddeiliaid 2 Ofcom ar Ddiogelwch Menywod a Merched Ar-lein, 19 Tachwedd 2024.

[286] Byddwn yn ystyried manylion dilysu hunaniaeth ymhellach mewn ymgynghoriad yn y dyfodol, felly efallai y bydd darparwyr Categori 1 sy'n gweithredu hyn yn dymuno adolygu hyn maes o law. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ddull Ofcom o weithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

[287] Gall darparwyr gwasanaeth ddefnyddio canllawiau ac adnoddau GDPR y DU Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i sicrhau bod eu dull o ddilysu defnyddwyr yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ddilyn egwyddorion allweddol cyfraith diogelu data megis cyfyngu at ddibenion, lleihau data, a chyfyngu ar storio. Rhaid i ddarparwyr hefyd nodi sail gyfreithlon i brosesu data personol – gweler canllawiau'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar sail gyfreithlon am ragor o

4.43 Mae **astudiaeth achos 11** yn nodi enghreifftiau o sut gall ap cwrdd â chariad atal cam-drin misogynistaidd drwy gyflwyno anogaethau.

### Astudiaeth achos 11 (arfer da): Cam-drin misogynistaidd ar ap cwrdd â chariad

#### Senario

Mae **ap cwrdd â chariad** yn cael mwy a mwy o adroddiadau am ddefnyddwyr yn cael cynnwys camdriniol, gan gynnwys cynigion rhywiol digroeso. Mewn rhai achosion, mae'r cyswllt digymell hwn yn troi'n batrwm ymddygiad parhaus sy'n cael ei ailadrodd dro ar ôl tro. Mae'r darparwr gwasanaeth eisiau atal defnyddwyr yn well rhag ymddwyn mewn ffordd niweidiol a chefnogi defnyddwyr pan fydd yr ymddygiad yn digwydd.

#### Camau i'w cymryd

Mae'r darparwr gwasanaeth yn penderfynu cyflwyno anogaethau sy'n tarfu ar gamau niweidiol drwy ychwanegu ffrithiant a gwneud niwed posibl yn fwy amlwg ar y pwynt gweithredu.[288]

- Pan fydd iaith niweidiol neu ddifrïol yn cael ei chanfod mewn neges, bydd rhybudd yn ymddangos cyn anfon y cynnwys, gan roi cyfle i'r anfonwr olygu. Mae'r ffrithiant ychwanegol yn arafu ymddygiad byrbwyll drwy ychwanegu cam ychwanegol cyn cymryd cam niweidiol, fel anfon cynigion rhywiol digroeso. Mae tynnu sylw at risgiau yn y foment yn helpu defnyddwyr i adnabod niwed posibl ac oedi cyn gweithredu.
- Pan fydd patrymau fel negeseuon sy'n cael eu hailadrodd heb ymateb yn cael eu nodi, mae'r gwasanaeth hefyd yn cyhoeddi anogaethau rhagofalus.
- Mae'r ymyriadau byr hyn yn y foment yn lleihau ymddygiad niweidiol byrbwyll drwy annog defnyddwyr i ailystyried eu gweithredoedd. Yn ei dro, mae'r cam ataliol hwn yn lleihau tebygolrwydd yr ymddygiad hwn ar yr ap.

#### Ystyriaethau

- Mae anogaethau'n fwyaf effeithiol o ran ffrwyno ymddygiad byrbwyll neu ymddygiad "yn y foment", lle mae defnyddwyr yn gweithredu heb feddwl. Maent yn llai tebygol o ddylanwadu ar gyflawnwyr penderfynol sy'n bwriadu achosi niwed yn fwriadol.
- Gall anogaethau sy'n gymhleth, yn dechnegol iawn, yn rhy gosbol, neu sy'n codi cywilydd, elyniaethu defnyddwyr[289], ac i blant, gallant greu ofn neu eu hannog i beidio â chyfathrebu'n agored â rhieni neu warcheidwaid.
- Dylai darparwyr hefyd ystyried risgiau blinder anogaethau - ffenomen lle gallai gormod o ffenestri naid neu hysbysiadau arwain defnyddwyr at eu hanwybyddu - wrth ddylunio ymyriadau o'r fath. Dros amser, efallai y bydd defnyddwyr hefyd yn cael eu dadsensiteiddio ac yn clicio drwy hysbysiadau yn awtomatig. Gall cylchdroi arddull, geiriad neu ddyluniad negeseuon helpu i gynnal eu heffaith.
- Gall systemau awtomataidd fethu mathau mwy cynnil, neu rai sy'n benodol i gyd-destun, o gam-drin (e.e. patrymau stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth, defnyddio iaith wedi'i chodio). Felly, dylai'r anogaethau ategu mesurau diogelu eraill, yn hytrach na chymryd eu lle.
- Mae anogaethau yn un haen o ddiogelwch. Dylid eu gwreiddio mewn ecosystem ddiogelwch ehangach sy'n cynnwys cymedroli effeithiol, mecanweithiau adrodd, a chamau gorfodi. Er enghraifft,

---

wybodaeth. Os ydynt yn dibynnu ar ganiatâd fel sail gyfreithlon ar gyfer gwirio hunaniaeth, rhaid i ddarparwyr sicrhau ei fod yn bodloni safonau GDPR y DU ar gyfer dilysrwydd.

[288] Anderson, B.B., Kirwan, C.B., Eargle, D., Jensen, S.R. a Vance, A., 2015. Neural correlates of gender differences and colour in distinguishing security warnings and legitimate websites: a neurosecurity study. Journal of Cybersecurity, 1(1), tt.109-120. [Cyrchwyd 20 Tachwedd 2025]

[289] Zaaba, Z.F., Lim Xin Yi, C., Amran, A. ac Omar, M.A., 2021. Harnessing the challenges and solutions to improve security warnings: A review. *Sensors*, *21*(21), p.7313). [Cyrchwyd 20 Tachwedd 2025] Dylai'r fframio fod yn briodol i oedran, yn gefnogol, ac wedi'i brofi'n ofalus.

gallai'r darparwr gwasanaeth hefyd ystyried cyflwyno anogaethau ar ochr arall y rhyngweithio rhwng defnyddwyr, gan gyfeirio defnyddwyr at systemau adrodd os bydd cynnwys camdriniol yn cael ei ganfod mewn neges maen nhw'n ei chael.

- Gall darparwyr hefyd edrych ar Egwyddorion Arferion Gorau ar gyfer Ymyriadau Ar-lwyfan i Hyrwyddo Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Ofcom wrth ddylunio anogaethau. Gallai ymyriadau helpu i ddeall a chynyddu llythrennedd sy'n ymwneud â risgiau ac ymddygiadau sy'n gallu atal niwed yn ogystal â sut i gywiro camgymeriadau.

## Gwaredu

4.44 Mae gwaredu yn cyfeirio at ddefnyddio offer technegol i rwystro lanlwytho cynnwys, neu i waredu cynnwys ar ôl iddo gael ei lanlwytho.[290]

4.45 Mae'r arfer da isod ond yn ymdrin â defnyddio dulliau gwaredu ar gyfer niwed anghyfreithlon ar-lein ar sail rhywedd (stelcian, rheolaeth drwy orfodaeth a cham-drin rhywiol ar sail delweddau). Fodd bynnag, efallai y bydd darparwyr yn dewis gwaredu yn ehangach pan fydd cynnwys yn torri telerau gwasanaeth.[291]

4.46 Gallai hyn gynnwys y canlynol:

a) **Defnyddio cyfateb hash** i atal lanlwythiadau o gam-drin delweddau personol hysbys.[292]

b) **Cyflwyno nodweddion amser allan** i ddefnyddwyr sy'n ceisio defnyddio nodweddion neu swyddogaethau gwasanaeth dro ar ôl tro i stelcio a rheoli drwy orfodaeth neu gamddefnyddio delweddau personol. Mae hyn yn golygu na fyddai'r defnyddiwr yr effeithir arno yn gallu anfon neges na defnyddio nodweddion gwasanaeth eraill am gyfnod penodol o amser yn ystod yr amser allan. Os bydd defnyddiwr yn parhau i gamddefnyddio'r gwasanaeth, gallai rhybuddion dro ar ôl tro arwain at wahardd y cyfrif (gweler Cam Gweithredu 9).

c) **Mynnu tystiolaeth o gydsyniad** gan y rheini sy'n cael eu dangos mewn cynnwys personol cyn lanlwytho lle caniateir cynnwys i oedolion ar wasanaeth i atal camddefnyddio delweddau personol, gan gynnwys ffugiadau dwfn (gweler **Astudiaeth Achos 12**).

d) **Cyflwyno hidlyddion anogaeth ac allbwn** ar gyfer modelau GenAI i'w hatal rhag cynhyrchu cynnwys camddefnyddio delweddau personol neu hyrwyddo stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth.

4.47 Mae **astudiaeth achos 12** yn nodi enghreifftiau o sut y gall darparwr gwasanaeth i oedolion gymryd camau i atal cam-drin rhywiol ar sail delweddau.

---

[290] Yn yr adran hon, rydym yn canolbwyntio ar ddulliau o wneud hyn yn awtomatig yn hytrach nag mewn ymateb i adroddiadau defnyddwyr. Ymdrinnir â chymedroli cynnwys yn dilyn adroddiadau defnyddwyr ym Mhennod 5.

[291] Yn y bennod hon, nid ydym yn nodi'r hyn y dylai Telerau Gwasanaeth darparwyr gwasanaethau ei reoleiddio, ond yn hytrach yn adolygu sut y gallant orfodi'r polisïau a nodir ganddynt yn eu Telerau Gwasanaeth (gweler Llywodraethu ac Atebolrwydd ym Mhennod 3).

[292] Adeg cyhoeddi hwn, mae ymgynghoriad Ofcom ar Fesurau Diogelwch Ychwanegol wedi dod i ben, ac rydym yn ystyried yr ymatebion yn ofalus. Mae'n cynnwys y cynnig i ddefnyddio cyfateb hash canfyddiadol i ganfod cynnwys camddefnyddio delweddau personol sy'n seiliedig ar ddelweddau er mwyn gallu ei waredu (ar gyfer rhai gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr) neu fel y gellir ei gymedroli (ar gyfer darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr). Ymgynghoriad: Diogelwch Ar-lein - Mesurau Diogelwch Ychwanegol - Ofcom.

## Astudiaeth achos 12 (arfer da): Atal cam-drin rhywiol ar sail delweddau ar wasanaethau oedolion

### Senario

Mae ymchwiliad newyddion yn datgelu bod **gwasanaeth pornograffi** gyda chynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr wedi bod yn gwesteio cynnwys **camddefnyddio delweddau personol.** Mae'r darparwr gwasanaeth yn sylweddoli nad yw wedi gwerthuso'n ddigonol y risg o'r niwed hwn ar ei wasanaeth.

Mae darparwyr gwasanaethau pornograffi yn wynebu mwy o risg o westeio cynnwys camddefnyddio delweddau personol oherwydd bod eu gwasanaethau'n caniatáu cynnwys rhywiol.[293]

### Camau i'w cymryd

Mae'r darparwr yn cyflwyno amrywiaeth o fesurau perswadiol i ddefnyddwyr a nodweddion gwaredu ychwanegol i liniaru'r risg hon. Mae'r darparwyr:

- yn cyflwyno dull dilysu defnyddwyr i'r broses lanlwytho ar gyfer cynnwys a uwchlwythir gan grewyr y gwasanaeth, gan ofyn i bob unigolyn sy'n cael ei bortreadu mewn cynnwys sy'n cael ei lanlwytho i'r gwasanaeth ddarparu enw cyfreithiol llawn, dyddiad geni, darn o ID llun cyfatebol a gyhoeddwyd gan y llywodraeth, a gwiriad sganio wyneb byw. Gellid cyfuno cyflwyno'r broses hon â chael gwared ar fideos hanesyddol sy'n dangos unigolion heb eu dilysu.
- yn cyflwyno proses dilysu cydsyniad, lle mae'n rhaid i bob unigolyn sy'n cael ei bortreadu mewn cynnwys wedi'i lanlwytho ardystio ei fod wedi cydsynio i ymddangos.
- yn ychwanegu negeseuon atal at y broses lanlwytho, h.y. negeseuon rhybuddio am anghyfreithlondeb a chanlyniadau camddefnyddio delweddau personol.
- yn cyflwyno dull gwaredu gwell ar gyfer goroeswyr a dioddefwyr, mae'r darparwr hefyd yn ychwanegu dull cyfateb hash,[294] drwy ymuno â menter ar draws y diwydiant, fel StopNCII.org, sy'n caniatáu i oroeswyr a dioddefwyr gynhyrchu hashau o'u delweddau personol. Mae'r hashau hyn yn cael eu rhannu ar draws y darparwyr gwasanaeth sy'n cymryd rhan er mwyn canfod ac atal y delweddau hyn rhag cael eu rhannu heb ganiatâd.

### Ystyriaethau

- Gall darparwyr haenu gwahanol dechnegau i atal cynnwys camddefnyddio delweddau personol. Gall darparwyr gwasanaethau hefyd gyfeirio at yr Egwyddorion Cam-drin Rhywiol sy'n Seiliedig ar Ddelweddau.
- Ar gyfer gwasanaethau pornograffi sy'n caniatáu i stiwdios lanlwytho cynnwys ar raddfa fawr, gall defnyddwyr unigol sy'n lanlwytho cynnwys, gall darparwyr fod â chontractau ar waith sy'n mynnu bod y stiwdio'n cadw dogfennau caniatâd ac ID pob unigolyn sydd yn y cynnwys maen nhw'n ei lanlwytho. Gall gwasanaethau pornograffi hefyd archwilio'r stiwdios yn rheolaidd, gwirio'r dogfennau hyn, a chael cymalau terfynu contractau sy'n ymwneud â thorri'r gofyniad hwn.
- Rhaid i fesurau adnabod a dilysu cydsyniad gydymffurfio â chyfraith diogelu data. Dylai darparwyr gwasanaethau sy'n dewis dilyn y cam hwn sicrhau eu bod yn defnyddio dull diofyn a dull gwarchod data drwy ddylunio ar gyfer prosesu, gan sicrhau bod y mesurau diogelu angenrheidiol yn cael eu hintegreiddio i ddiogelu hawliau a rhyddid defnyddwyr. [295]

---

[293] Cofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon.

[294] Roedd system awtomataidd yn croesgyfeirio cynnwys a uwchlwythwyd yn erbyn cronfa ddata o hashnod ar gyfer delweddau agos-atoch nad oeddent yn gydsyniol ac a adroddwyd yn flaenorol, gyda chyfatebiaethau wedi'u tynnu a'u hatal rhag cael eu rhannu.

[295] Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer eu gwasanaeth cyn penderfynu a yw'r dulliau arfaethedig a nodir yn yr astudiaeth achos yn fodd priodol a chymesur o gymryd y cam arfer da yng nghyd-destun eu gwasanaeth penodol. Byddai hyn yn eu helpu i ddangos bod eu prosesu gwybodaeth bersonol yn angenrheidiol ac yn gymesur. Rhaid i wasanaethau ddilyn egwyddorion allweddol cyfraith diogelu

## Lleihau

4.48 Mae lleihau yn cyfeirio at gyfyngu ar gylchrediad a gwelededd cynnwys yn hytrach na'i ddileu'n llwyr.[296] Er bod camau lleihau yn ymyrryd â mynegiant defnyddwyr yn llai na gwaredu cynnwys, mae cynnwys a gweithgarwch yn llai gweladwy i ddefnyddwyr a gallant achosi problemau o ran atebolrwydd a goruchwyliaeth o'r penderfyniadau hyn.[297]

4.49 Mae darparwyr gwasanaeth yn aml yn defnyddio lleihau ar gyfer cynnwys y mae darparwr gwasanaeth yn credu ei fod yn gamarweiniol, yn sarhaus neu'n beryglus fel arall, ond nad yw'n anghyfreithlon. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i wasanaethau sy'n caniatáu i ddefnyddwyr rannu cynnwys sy'n cael ei gyfryngu gan algorithmau argymell a gwasanaethau chwilio sy'n cyflwyno canlyniadau chwilio i ddefnyddwyr mewn ymateb i ymholiadau gan ddefnyddwyr gyflwyno technegau lleihau.

4.50 Gallai'r cam hwn gynnwys:

a) **Dylunio systemau argymell** sy'n hyrwyddo amrywiaeth cynnwys, a allai gynnwys deunydd sy'n cynnwys safbwyntiau amrywiol. Er enghraifft, gellir dylunio systemau argymell i sicrhau bod defnyddwyr yn dod ar draws amrywiaeth o gynnwys, a all helpu i liniaru'r risg o dyllau cwningod (h.y. effeithiau adborth sy'n sianelu defnyddwyr tuag at gynnwys o ddwysedd thematig cynyddol.) ac atal siambrau adlais/swigod hidlo rhag ffurfio (h.y. cynnwys unffurf thematig neu gynnwys â thema unedig).

b) **Lleihau amlygrwydd cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol ar ffrydiau argymell cynnwys** er mwyn cyfyngu ar ledaenu eang, a'r risg y bydd defnyddwyr yn dod ar draws swm mawr ohono yn organig.[298] Gall asesiadau effaith algorithmig a gwerthusiadau algorithmig eraill (gweler Cam Gweithredu 2) hefyd helpu darparwyr i ddeall sut mae algorithmau argymell yn gweithredu, a'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r risgiau o niwed sy'n deillio o hyrwyddo cynnwys treisgar, camdriniol a chas.

c) **Dileu dolenni** i safleoedd sy'n benodol ar gyfer gwesteio delweddau heb gydsyniad, neu i wasanaethau fel apiau dinoethi a ddefnyddir i gynhyrchu cynnwys personol heb gydsyniad, yn ogystal â gwaredu cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ar safleoedd dinoethi, sy'n gyfystyr â hysbyseb ar gyfer y safleoedd hyn.

d) **Dad-foneteiddio** cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr sy'n hyrwyddo cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol yn groes i delerau gwasanaeth y darparwr, i'w atal rhag ennill incwm hysbysebu.[299]

e) **Lleihau amlygrwydd cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol mewn canlyniadau chwilio**, er enghraifft drwy israddio cynnwys o'r fath neu hyrwyddo cynnwys o ansawdd uchel, ond sy'n berthnasol i'r ymholiad chwilio (gweler **Astudiaeth Achos 10**).

---

data megis cyfyngu at ddibenion, lleihau data, a chyfyngu ar storio. Lle mae darparwyr yn prosesu data categori arbennig (megis sganiau wyneb biometrig i adnabod person yn unigryw), rhaid iddynt gymhwyso'r amddiffyniad ychwanegol sy'n ofynnol gan gyfraith diogelu data – gweler canllawiau'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth ar ddata categori arbennig. Gweler hefyd ganllawiau'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth ar ddiogelu data trwy ddylunio a diofyn.

[296] Gillespie, T., 2022. Do Not Recommend? Reduction as a Form of Content Moderation, *Social Media + Society*, 8 (3). [cyrchwyd 31 Hydref 2025]

[297] Gillespie, T., 2022. Do Not Recommend? Reduction as a Form of Content Moderation, *Social Media + Society*, 8 (3). [cyrchwyd 31 Hydref 2025].

[298] Appelman, N., 2023. Disparate Content Moderation Mapping Social Justice Organisations Perspectives on Unequal Content Moderation Harms and the EU Platform Policy Debate. [cyrchwyd 06 Tachwedd 2025].

[299] Jankowicz, N., Gomez-O'Keefe, I., Hoffman, L. a Vidal Becker A. 2024. It's Everyone's Problem: Mainstreaming Responses to Technology-Facilitated Gender-Based Violence. [cyrchwyd 06 Tachwedd 2025].

f) **Sganio am ddyblygiadau**: Pan fydd rhywun yn gwneud cais llwyddiannus i waredu cynnwys anweddus heb ganiatâd sy'n eu cynnwys nhw o chwiliad, gwneud yn siŵr bod y sganio yn chwilio am unrhyw gopïau dyblyg o'r ddelwedd honno, a’u gwaredu o'r canlyniadau chwilio.

g) **Gwneud cynnwys niweidiol a noethni yn aneglur** drwy ddefnyddio mesurau canfod awtomataidd, gan roi’r dewis i ddefnyddwyr wneud y cynnwys yn eglur os ydynt am ei weld.

h) **Gosod cyfyngiadau cyfradd** (fel terfyn ar faint o sylwadau neu negeseuon y gall defnyddiwr eu gwneud mewn cyfnod penodol o amser) i atal postio torfol mewn ymosodiadau torfol.

i) **Rhannu gwybodaeth** ynghylch pa fathau o bostiadau allai sbarduno israddio, dadflaenoriaethu, neu wahardd er mwyn tryloywder. Dylai darparwyr ystyried yn ofalus fanteision a risgiau rhoi gwybod i ddefnyddwyr unigol pan fydd eu postiadau yn cael eu dadflaenoriaethu neu eu gwahardd: ar y naill law, mae hysbysiadau o'r fath yn gwella tryloywder ac atebolrwydd. Ar y llaw arall, maen nhw'n gallu helpu defnyddwyr maleisus ‘chwarae’r’ system i osgoi mesurau diogelwch.

**4.51** Mae **Astudiaeth achos 13** yn nodi enghreifftiau o sut y gall gwasanaeth chwilio cyffredinol leihau hygyrchedd gwefannau a fforymau sy'n cynnal cynnwys camddefnyddio delweddau personol.

## Astudiaeth achos 13 (arfer da): Gwasanaethau chwilio sy'n sensitif i rywedd

### Senario

Ar ôl cael tystiolaeth am y defnydd cynyddol o apiau dinoethi gan bartneriaid trydydd parti, nod darparwr **gwasanaeth chwilio cyffredinol** yw lleihau hygyrchedd gwefannau a fforymau sy'n cynnal cynnwys **camddefnyddio delweddau personol**, gan gynnwys apiau dinoethi a ffugiadau dwfn rhywiol.

### Camau i’w cymryd

Mae'r darparwr yn penderfynu cyflwyno amrywiaeth o ymyriadau gwahanol i leihau mynediad at gynnwys camddefnyddio delweddau personol. Mae'n gwybod na fydd un ymyriad yn gallu mynd i'r afael â'r holl gynnwys, felly mae'n canolbwyntio ar roi sawl haen o ddiogelwch ar waith. Mae’r darparwr:

- yn dadrestru gwefannau ac URLs o'r fath, gan atal cynnwys camddefnyddio delweddau personol rhag ymddangos mewn canlyniadau chwilio.
- yn israddio URLs gyda chynnwys niweidiol i'w ddadflaenoriaethu mewn canlyniadau chwilio a'u gwneud yn llai amlwg.
- yn cyfeirio at ei systemau adrodd pan fydd defnyddiwr yn gwneud ymholiad perthnasol drwy ddarparu offer clir a hygyrch i ddefnyddwyr roi gwybod am gynnwys camddefnyddio delweddau personol ac yn gofyn am gael gwared arno.
- yn gwerthuso effeithiau eu hymyriadau ymhellach yn barhaus, gan barhau i fonitro cynnwys sy'n ymddangos mewn canlyniadau chwilio i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg ac addasu ymyriadau yn unol â hynny.

### Ystyriaethau

- Dylai darparwyr fonitro am ganlyniadau anfwriadol, fel atal URLs nad oes angen eu cyfyngu o dan y Ddeddf neu bolisïau a osodir gan y darparwr ynghylch sut y gweithredir ar gynnwys chwilio.
- Dylai darparwyr hefyd ddiweddaru polisïau a mesurau diogelwch i ymateb i niwed sy'n esblygu.

4.52 Mae **Astudiaeth achos 14** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr cyfrwng cymdeithasol ddefnyddio dulliau canfod awtomataidd i ganfod ac ymateb i fisogynoir digidol.

**Astudiaeth achos 14 (arfer da):**
**Canfod cynnwys misogynoir yn awtomatig a chanlyniadau**

**Senario**

Mae darparwr gwasanaeth cyfrwng cymdeithasol yn cael tystiolaeth gan sefydliad rheng flaen ei fod yn methu canfod misogynoir digidol, y ffurf groestoriadol o gam-drin ar-lein sy'n effeithio ar fenywod Du sy'n cyfuno hiliaeth a cham-drin misogynistaidd.[300]

Nid yw offer cymedroli awtomatig presennol yn canfod cynnwys sy'n benodol i'r niwed croestoriadol hwn.[301] Gall iaith neu derminoleg ymosodol sydd wedi'u hanelu at fenywod Du gynnwys termau neu iaith sarhaus benodol,[302] sy'n golygu y gall fod bylchau mewn algorithm canfod os nad yw wedi'i raglennu i adnabod y geiriau hyn mewn cyd-destun camdriniol. Mae angen i'r darparwr wella ei systemau canfod er mwyn canfod a mynd i'r afael yn well â'r math hwn o gam-drin.

**Camau i'w cymryd**

Mae'r tîm sy'n gyfrifol am offer canfod awtomataidd yn cael gwybod am y niwed hwn gan y tîm ymddiriedaeth a diogelwch. Mae'n ymchwilio, yn nodi gwendidau allweddol yn yr offer canfod presennol, ac yn ceisio eu gwella:

- Mae'n hyfforddi modelau canfod cynnwys ar setiau data sydd bellach yn adlewyrchu cam-drin croestoriadol, gan gynnwys profiadau hunangofnodedig o fisogynoir fel ei fod yn canfod digwyddiadau'n fwy cywir.
- Mae'n adolygu prosesau labelu cynnwys y gwasanaethau fel bod labelu data yn adlewyrchu gwahaniaethau yn y ffordd y gellir defnyddio iaith mewn gwahanol gymunedau, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o niwed.
- Mae'n cydweithio ymhellach ag ymchwilwyr a sefydliadau eiriolaeth i fireinio dulliau canfod a sicrhau eu bod yn adlewyrchu profiadau bywyd (gweler Astudiaeth Achos 3) yn ogystal â defnyddio arolygon sy'n ystyriol o drawma i gasglu barn ei sylfaen defnyddwyr y mae'r niwed hwn yn effeithio arnynt i lywio newidiadau yn y dyfodol (gweler Astudiaeth Achos 6).

**Ystyriaethau**

- Dylai'r darparwr werthuso effaith newidiadau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn lleihau niwed heb gyflwyno rhagfarnau newydd.
- Dylai'r darparwr werthuso ei offer canfod yn rheolaidd i fynd i'r afael â'r risg o or-rwystro (er enghraifft, rhwystro cynnwys sy'n adrodd profiad goroeswr o drais rhywedd ar-lein) a than-rwystro (er enghraifft, methu camsillafu sarhad yn fwriadol neu gyfeiriadau at drais wedi'u codio).

---

[300]Glitch, 2023. The Digital Misogynoir Report: Online abuse against Black women allowed and enabled to thrive. [cyrchwyd 29 Hydref 2025]; Bailey, M., 2021. Misogynoir Transformed: Black Women's Digital Resistance. [cyrchwyd 28 Hydref 2025].

[301]Mae tystiolaeth wedi canfod bod yr offer canfod awtomataidd presennol yn aneffeithiol o ran canfod misogynoir oherwydd diffyg sensitifrwydd i gyd-destun. Mae'r mater hwn yn debygol pan fydd algorithmau o'r fath yn cael eu hyfforddi ar setiau data sydd wedi'u tagio fel iaith hiliol neu iaith misogynistaidd yn unig, gan golli'r croestoriadau rhwng y ddau. Gall nodiedyddion sy'n labelu iaith casineb, yn ogystal â phobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau mewn darparwyr gwasanaethau, ddylanwadu'n gryf ar effeithiolrwydd yr adnoddau hyn. See Kwarteng, J., 2022. Misogynoir: Challenges in Detecting Intersectional Hate, Social Network Analysis and Mining, 12 (1). [cyrchwyd 20 Hydref 2025].

[302] Glitch, 2023. The Digital Misogynoir Report: Online abuse against Black women allowed and enabled to thrive.[cyrchwyd 29 Hydref 2025]

- Dylai'r darparwr ystyried anghenion ei sylfaen defnyddwyr yn y DU wrth ystyried pa ieithoedd sydd eu hangen i sicrhau bod ei systemau awtomataidd yn canfod cynnwys niweidiol yn gywir.
- Wrth ddefnyddio offer cymedroli cynnwys, rhaid i ddarparwyr hefyd ystyried hawliau preifatrwydd a chydymffurfio â gofynion cyfraith diogelu data.[303]

[303]Gweler Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gymedroli Cynnwys a diogelu data i gael rhagor o wybodaeth.

# 5. Darparu cefnogaeth

## Trosolwg

### Y cyd-destun

5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried sut gall darparwyr gwasanaethau wreiddio diogelwch drwy ddylunio i gefnogi defnyddwyr yn effeithiol a mynd i'r afael â niwed, gan gynnwys pan fydd cynnyrch ar waith. Mae hyn yn cynnwys offer rheoli defnyddwyr sy'n rhoi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr ar eu profiadau, adnoddau cymorth i ddefnyddwyr sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol a hygyrch, a systemau adrodd sy'n cefnogi goroeswyr a dioddefwyr pan fydd niwed yn digwydd.

5.2 Efallai y bydd gan rai gwasanaethau reolaethau defnyddwyr, cymorth i ddefnyddwyr, neu fecanweithiau adrodd elfennol iawn. Efallai fod gan wasanaethau eraill fecanweithiau mwy datblygedig, ond efallai nad ydynt yn rhoi digon o sylw i niwed ar-lein ar sail rhywedd. Er enghraifft, nid yw llawer o wasanaethau'n cynnig offer hawdd eu defnyddio na gwybodaeth glir am sut i'w defnyddio.[304] Canfu astudiaeth Refuge nad oedd 95% o oroeswyr a oedd wedi rhoi gwybod am gam-drin ar-lein i wasanaeth yn fodlon â'r ymateb a gawsant - ac nid oedd dros eu hanner wedi cael ymateb o gwbl.[305]

5.3 Yn y bennod hon, rydym yn nodi camau gweithredu y gall darparwyr gwasanaethau eu cymryd i wella diogelwch ar-lein menywod a merched drwy reolaethau defnyddwyr, cymorth defnyddwyr, a mecanweithiau adrodd. Mae'r camau gweithredu penodol yn cynnwys:

- **Cam Gweithredu 7**: Rhoi gwell rheolaeth i ddefnyddwyr ar eu profiadau.
- **Cam Gweithredu 8**: Galluogi defnyddwyr sy’n profi niwed ar-lein ar sail rhywedd i wneud adroddiadau.
- **Cam Gweithredu 9**: Ymateb yn briodol pan fydd niwed ar-lein ar sail rhywedd yn digwydd.

5.4 Ar gyfer pob cam gweithredu, rydym yn nodi ein disgwyliad o ran sut beth yw llinell sylfaen gadarn o ddiogelwch (‘**camau sylfaenol**’) er mwyn i ddarparwyr gwasanaethau gyflawni eu dyletswyddau i ddiogelu defnyddwyr yn y DU. Mae gennym amrywiaeth o bwerau gorfodi i ddal cwmnïau i gyfrif pan fyddant yn methu â chydymffurfio â’u dyletswyddau.

5.5 Rydym hefyd yn tynnu sylw at **gamau arfer da** ychwanegol i ddangos sut gall darparwyr adeiladu ar y camau sylfaenol i greu profiadau mwy diogel i fenywod a merched, rhoi mwy o ymreolaeth i'w defnyddwyr, a rhoi sicrwydd y gall defnyddwyr geisio iawn priodol am unrhyw niwed sy'n digwydd.

5.6 Offer ymateb i niwed yn arbennig o bwysig gan fod rhai sy'n cyflawni niwed ar-lein ar sail rhywedd â chymhelliant uchel i achosi niwed a byddant yn ceisio osgoi mesurau diogelwch - hyd yn oed os yw'r mesurau wedi cael eu dylunio a'u defnyddio i atal cam-drin.

5.7 Ni ddylai darparwyr gwasanaethau roi gormod o faich ar ddefnyddwyr i fod yn gwbl gyfrifol am eu diogelwch eu hunain ar-lein. Dylai’r offer rheoli, cefnogi defnyddwyr ac offer adrodd a nodir

---

[304] W3C, 2024. Web Content Accessibility Guidelines (WCAG) 2.2. [cyrchwyd 16 Tachwedd 2025].
[305] Refuge, 2022. Marked as Unsafe. [cyrchwyd 16 Tachwedd 2025].

yn y bennod hon gael eu hategu gan waith sylfaenol cryf gan y darparwr i sicrhau nad defnyddwyr y gwasanaeth yn unig sy'n gyfrifol am ddiogelwch defnyddwyr.

## Ein canlyniadau targed

5.8 Dylai menywod a merched gael mwy o reolaeth i siapio eu bywydau ar-lein, a dylid cynnig cymorth priodol i'r rheini sy'n dioddef niwed. Dylai darparwyr gynnig rheolaethau defnyddwyr, cymorth i ddefnyddwyr ac offer ymateb i niwed sy'n ystyried deinameg a chymhlethdodau niwed ar-lein ar sail rhywedd.

5.9 Os bydd darparwyr yn datblygu ac yn defnyddio rheolaethau defnyddwyr ac cymorth i ddefnyddwyr, bydd menywod a merched yn cael mwy o reolaeth dros y cynnwys a'r defnyddwyr maen nhw'n dod ar eu traws ar-lein a bydd gwybodaeth hygyrch ar gael iddynt i wneud dewisiadau gwybodus am risg. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau personol ynghylch sut beth yw diogelwch iddyn nhw - gan gynnwys y gallu i wneud newidiadau os bydd eu hamgylchiadau'n newid.

5.10 Mae ymateb priodol i niwed yn cynnwys darparwyr yn dylunio ac yn gweithredu systemau adrodd sy'n hawdd dod o hyd iddynt, yn hawdd eu defnyddio ac yn addas i'r diben, yn ogystal â chefnogi goroeswyr a dioddefwyr pan fydd niwed yn digwydd. Mae hyn yn cynnwys cymorth arbenigol ar gyfer niwed ar-lein ar sail rhywedd fel stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth.

5.11 Mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran atal niwed ar-lein ar sail rhywedd drwy roi'r sgiliau a'r meddwl beirniadol sydd eu hangen ar ddefnyddwyr i ymgysylltu'n effeithiol â rheolaethau defnyddwyr, cymorth i ddefnyddwyr, ac offer ymateb. Dylid dylunio adnoddau i roi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr a hwyluso adrodd yn unol â'r Egwyddorion Dylunio Arferion Gorau ar gyfer Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau.

# Cam Gweithredu 7: Rhoi gwell rheolaeth i ddefnyddwyr ar eu profiadau

5.12 Mae defnyddwyr yn aml yn teimlo nad oes ganddynt reolaeth ar eu profiadau ar-lein.232F[306] Mae menywod a merched yn aml yn profi ymddygiad digroeso ac yn dod ar draws cynnwys digroeso ar wasanaethau ar-lein.[307] Yn rhy aml, nid yw darparwyr yn defnyddio offer hygyrch a hawdd ei ddefnyddio, ac nid ydynt chwaith yn rhoi gwybodaeth glir i ddefnyddwyr am sut i newid eu cynnwys a'u gosodiadau diogelwch.[308] Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i ddefnyddwyr guradu eu profiadau ar-lein ac yn cynyddu'r risg o niwed.[309]

5.13 Gall darparwyr rymuso defnyddwyr drwy roi mwy o reolaeth a rheolaeth fanylach iddynt ar eu profiadau eu hunain. Mae mwy o opsiynau o ran pwy sy'n cysylltu â nhw, beth maen nhw'n ei weld a pha wybodaeth amdanyn nhw sy'n weladwy yn gallu caniatáu i ddefnyddwyr leihau'r risg

---

[306] Centre for Data Ethics and Innovation, 2020. Online targeting: Final report and recommendations. [cyrchwyd 30 Hydref 2025].
[307] Ofcom, 2024. Profiadau o ddefnyddio gwasanaethau ar-lein.
[308] Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried eu rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth berthnasol arall (er enghraifft, Deddf Cydraddoldeb 2010), yn ogystal â safonau'r diwydiant ac arferion da i sicrhau bod eu gwasanaethau'n diwallu anghenion mynediad defnyddwyr anabl. Gweler hefyd W3C, 2024. Web Content Accessibility Guidelines (WCAG) 2.2. [cyrchwyd 10 Ionawr 2025].
[309] Centre for Data Ethics and Innovation, 2020. Online targeting: Final report and recommendations. [cyrchwyd 30 Hydref 2025]; The Behavioural Insights Team, 2020. Active Online Choices: Designing to Empower Users. [cyrchwyd 30 Hydref 2025].

o brofi neu ddod ar draws niwed ar sail rhywedd a lleihau eu heffaith pan fyddant yn digwydd.236F[310] Mae mwy o reolaeth yn galluogi defnyddwyr i roi adborth ar y cynnwys maen nhw'n ei weld a gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch sut beth yw diogelwch iddyn nhw.

5.14 Gall darparwyr ddefnyddio adnoddau fel bwndeli dewis (gweler Pennod 4) i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr ymgysylltu â mwy o opsiynau ynghylch eu profiadau ar-lein.[311]

## Camau Sylfaenol: Beth yw'r disgwyliadau ar gyfer darparwyr gwasanaethau?

5.15 Mae ein Codau'n nodi'r camau canlynol ar gyfer darparwyr gwasanaethau, ar sail swyddogaethau, risg a maint:[312]

a) **Rhwystro a thewi:** Dylai darparwyr gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr gynnig opsiynau i ddefnyddwyr rwystro2[313] a thewi[314] cyfrifon defnyddwyr eraill.[315] (gweler **Astudiaeth achos 15**).

b) **Analluogi sylwadau**: Dylai darparwyr gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr gynnig nodwedd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr analluogi sylwadau ar eu postiadau eu hunain.[316]

c) **Adborth negyddol:** Dylai darparwyr gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr gynnig nodwedd i blant sy'n eu galluogi i roi adborth negyddol ar gynnwys sy'n cael ei argymell iddynt gan system argymell cynnwys.[317]

d) **Sgyrsiau grŵp:** Dylai darparwyr gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr roi'r opsiwn i blant dderbyn neu wrthod gwahoddiad i sgwrs grŵp.[318]

e) **Gwybodaeth gefnogol:** Dylai darparwyr gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ddarparu gwybodaeth gefnogol i blant i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus am risg. Dylai'r

[310] Grimani, A., Gavine, A. and Moncur, W., 2022. An evidence synthesis of covert online strategies regarding intimate partner violence, *Trauma, Violence, & Abuse*, 23 (2). [cyrchwyd 30 Hydref 2025].

[311] The Behavioural Insights Team, 2021. Active Online Choices: Designing to Empower Users. [cyrchwyd 30 Hydref 2025].

[312] Mae'r 'camau sylfaenol' yn cyfeirio at amrywiaeth o ddisgwyliadau rydym eisoes wedi'u nodi ar gyfer darparwyr gwasanaethau adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn. Mae'r 'camau sylfaenol' yn berthnasol i wahanol wasanaethau ar sail swyddogaeth, risg a maint. Mae gwybodaeth am ba gam sylfaenol sy'n berthnasol i ba wasanaeth wedi'i nodi yn y ddogfen Cipolwg ar y Canllawiau. Mae'r Codau Ymarfer Cynnwys Anghyfreithlon yn berthnasol i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio a reoleiddir, ac mae'r Codau Ymarfer Diogelu Plant yn berthnasol i wasanaethau o'r fath lle mae'n debygol y bydd plant yn eu cyrchu (o fewn ystyr y Ddeddf).

[313] Offeryn defnyddiwr lle: ni all y defnyddiwr/defnyddwyr sydd wedi'u rhwystro anfon negeseuon uniongyrchol at y defnyddiwr sy'n rhwystro; ni fydd y defnyddiwr sy'n rhwystro yn dod ar draws unrhyw gynnwys sydd wedi'i bostio gan ddefnyddiwr/defnyddwyr sydd wedi'u rhwystro ar y gwasanaeth a vive versa; ni fydd y defnyddiwr sy'n rhwystro; a'r defnyddiwr/defnyddwyr sydd wedi'u rhwystro, os oeddent wedi eu cysylltu, yn cael eu cysylltu mwyach.

[314] Offeryn defnyddiwr lle: ni fydd y defnyddiwr sy'n tewi yn dod ar draws unrhyw gynnwys sy'n cael ei bostio gan ddefnyddiwr/defnyddwyr sydd wedi'u tewi ar y gwasanaeth; ac nid yw'r defnyddiwr/defnyddwyr sydd wedi'u tewi yn ymwybodol eu bod wedi cael eu tewi ac maen nhw'n parhau i ddod ar draws cynnwys sy'n cael ei bostio gan y defnyddiwr sy'n tewi.

[315]Cynnwys Anghyfreithlon (ICU J1), Amddiffyn Plant (PCU J1).

[316] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU J2), Amddiffyn Plant (PCU J2).

[317] Amddiffyn Plant (PCU E3).

[318] Amddiffyn Plant (PCU J3). Mae'r mesur hwn hefyd yn ymddangos fel cam sylfaenol ar gyfer 'Cam Gweithredu 5: Gosodiadau rhagosodiadau mwy diogel' gan fod y mesur yn berthnasol ar gyfer atal niwed a darparu cymorth.

darparwr ddarparu gwybodaeth gefnogol i blant pan fyddant yn cyfyngu ar ryngweithio â chynnwys neu gyfrifon defnyddwyr eraill.[319]

f) **Deunyddiau cefnogi**: Dylai darparwyr gwasanaeth ddarparu deunyddiau cymorth sy'n briodol i oedran i blant sy'n egluro'r adnoddau diogelwch defnyddwyr sydd ar gael iddynt ar wasanaeth.[320] Dylai'r gwasanaethau gyfeirio plant at gymorth pan fyddant yn rhoi gwybod am gynnwys, neu pan fyddant yn postio, yn ail-bostio neu'n chwilio am gynnwys niweidiol ar wasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr.[321]

## Camau ymarfer da: Sut gall darparwyr gwasanaethau fynd ymhellach?

5.16 Yn yr adran hon, rydym yn nodi camau arfer da y gall darparwyr gwasanaethau eu cymryd ochr yn ochr â'r camau sylfaenol i gynnig mwy o reolaeth a rheolaeth fanylach i ddefnyddwyr ar eu profiadau. Gall hyn annog defnyddwyr a allai fod mewn mwy o berygl o niwed - er enghraifft, ffigurau cyhoeddus neu'r rheini sy'n cael eu stelcio neu eu rheoli drwy orfodaeth - i guradu sut beth yw diogelwch iddyn nhw.

5.17 Gallai'r adnoddau hyn, ochr yn ochr â'r adnoddau sydd wedi'u hanelu at atal a lleihau cam-drin a drafodir ym Mhennod 4, helpu i fynd i'r afael â 'thawelu' menywod a merched ar wasanaethau ar-lein lle mae eu gallu neu ofn i gymryd rhan mewn trafodaeth rhag ofn y byddant yn derbyn ymatebion camdriniol. Mae'r camau arfer da y gallai darparwyr eu cymryd yn cynnwys:

a) **Gosodiadau gwelededd:** Caniatáu i ddefnyddwyr ddileu neu newid gosodiadau gwelededd y cynnwys maen nhw'n ei lanlwytho, gan gynnwys deunydd sydd wedi cael ei lanlwytho yn y gorffennol.

b) **Rhwystro a thewi:** Rhoi adnoddau i ddefnyddwyr rwystro a thewi mwy nag un cyfrif ar yr un pryd (gweler **Astudiaeth Achos 15**).

c) **Gwirio hunaniaeth:** Caniatáu i ddefnyddwyr hidlo cynnwys oddi wrth bob defnyddiwr sydd heb gwblhau dilysiad hunaniaeth.

d) **Rheolaethau defnyddwyr:** Rhoi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr sy'n oedolion ar ba gynnwys sy'n cael ei argymell iddynt gan systemau argymell cynnwys.

e) **Dewisiadau defnyddwyr:** Caniatáu i ddefnyddwyr nodi pa fath o gynnwys nad ydynt am ei weld, a pha fath o gynnwys maent am weld mwy ohono (gweler **Astudiaeth Achos 16**).

f) **Gwybodaeth gefnogol:** Cyfeirio defnyddwyr at wybodaeth, gan gynnwys adnoddau esboniadol ar yr opsiynau defnyddwyr neu breifatrwydd mwyaf addas ar gyfer eu hanghenion, neu eu cyfeirio at gymorth pan fyddant yn rhoi adborth negyddol ar gynnwys y maent wedi dod ar ei draws. Gallai gwybodaeth ategol hefyd gynnwys adnoddau gan sefydliadau cymorth rheng flaen ar niwed ar sail rhywedd a gwybodaeth am ble a sut i roi gwybod am drosedd.[322]

[319] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU F2). Mae'r mesur hwn hefyd yn ymddangos fel cam sylfaenol ar gyfer 'Cam Gweithredu 5: Gosodiadau rhagosodiadau mwy diogel' gan fod y mesur yn berthnasol ar gyfer atal niwed a darparu cymorth. Amddiffyn Plant (PCU F2).

[320] Amddiffyn Plant (PCU F1, PCS F4).

[321] Amddiffyn Plant (PCU F3**,** PCU F4, PCU F5). Mae'r mesur hwn hefyd yn ymddangos fel cam sylfaenol ar gyfer 'Cam Gweithredu 6: Lleihau cylchrediad cynnwys sy'n dangos, yn hyrwyddo neu'n annog niwed ar-lein ar sail rhywedd' gan fod y mesur yn berthnasol ar gyfer atal niwed a darparu cymorth.

[322] Department for Science, Innovation & Technology and PUBLIC, 2025. Platform Design and the Risk of Online Violence Against Women and Girls. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

5.19 Mae **astudiaeth achos 15** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr gwasanaeth gefnogi menywod sy'n wynebu ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol drwy wella gosodiadau rhwystro a thewi.

**Astudiaeth achos 15 (arfer da):**
**Dewisiadau rhwystro a thewi y gellir eu haddasu**

**Senario:**

Mae **darparwr gwasanaeth cyfrwng cymdeithasol** yn dod yn ymwybodol, drwy sylwadau a wneir yn y cyfryngau gan fenywod sydd yn llygad y cyhoedd, eu bod yn cael trafferth atal **ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol** ar eu gwasanaeth. Mae hyn yn arwain at y menywod hynny'n ymatal rhag postio ar y gwasanaeth neu ei ddefnyddio. Mae rhai yn dweud eu bod wedi derbyn cannoedd o sylwadau, ail-bostiadau a thagiau bygythiol, difrïol a chas o wahanol gyfrifon y maent yn gallu atal hyn. Mae llawer o'r negeseuon yn defnyddio iaith fygythiol union yr un fath.

**Camau i'w cymryd:**

- Mae'r gwasanaeth eisoes yn caniatáu i ddefnyddwyr analluogi sylwadau ar bost yn ystod ymosodiad torfol er mwyn cuddio unrhyw sylwadau sy'n bodoli'n barod ac atal unrhyw sylwadau pellach. Mae'r darparwr gwasanaeth cyfrwng cymdeithasol yn mynd gam ymhellach i roi opsiynau mwy hyblyg i ddefnyddwyr rhwystro a thewi. Mae'r gwasanaeth:
- yn rhoi'r opsiwn i rwystro nid yn unig gyfrif defnyddiwr arall ond hefyd unrhyw gyfrifon eraill sydd gan y defnyddiwr, yn ogystal ag unrhyw gyfrifon newydd y gallai'r defnyddiwr eu creu yn y dyfodol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn caniatáu i ddefnyddwyr rwystro unrhyw gyfrifon cyfredol neu gyfrifon yn y dyfodol sydd wedi'u cysylltu â rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost penodol.
- yn cynnig dewisiadau rhwystro mwy awtomataidd i ddefnyddwyr. Er enghraifft, os bydd defnyddiwr yn gweld post sy'n sarhaus neu'n peri pryder iddo, mae'n cael yr opsiwn i rwystro neu dewi nid yn unig awdur y post ond pob defnyddiwr sydd wedi ail-bostio yn ystod yr ymosodiad torfol.
- yn ychwanegu nodwedd sy'n cyfyngu ar gyfradd, gan atal cyfrifon rhag gwneud cannoedd o bostiadau mewn ychydig eiliadau. Mae hyn yn atal cyfrifon rhag gallu anfon cyfres o negeseuon camdriniol yn gyflym heb unrhyw rwystr.
- yn darparu opsiynau ychwanegol i ddefnyddwyr yn lleihau baich gwaith diogelwch ar oroeswyr a dioddefwyr ac yn eu galluogi i leihau eu risg o ddioddef ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol.

**Ystyriaethau:**

- Mae offer defnyddwyr yn rhan o ddarlun ehangach o'r camau y mae angen i ddefnyddwyr eu cymryd i atal ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol. Os bydd unrhyw bostiadau a dderbynnir yn gyfystyr ag aflonyddu, cam-drin neu gasineb anghyfreithlon, mae'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth o dan y Ddeddf i ddileu'r cynnwys hwn (gweler Pennod 2).
- Canfu ymchwil Ofcom fod gwleidyddion benywaidd yn teimlo bod systemau adrodd symlach a mwy effeithiol yn hanfodol ochr yn ochr ag offer rheoli defnyddwyr i atal cam-drin ar-lein.[323][324]

5.20 Mae astudiaeth achos 16 yn nodi enghreifftiau o sut gall fforwm trafod ddefnyddio hidlyddion cynnwys i alluogi defnyddwyr i optio allan o weld cam-drin misogynistaidd ar-lein.

[323] Ofcom, 2025, Profiadau menywod mewn gwleidyddiaeth o gasineb ar-lein a cham-drin ar-lein

[324] O dan y dyletswyddau grymuso defnyddwyr, bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaeth Categori 1 hefyd gynnig yr opsiwn i ddefnyddwyr sy'n oedolion atal defnyddwyr nad ydynt wedi'u dilysu rhag rhyngweithio â'u cynnwys a lleihau'r tebygolrwydd o ddod ar draws cynnwys y mae defnyddwyr nad ydynt wedi'u dilysu yn ei gynhyrchu neu'n ei rannu.

**Astudiaeth achos 16 (arfer da): Hidlo cynnwys**

**Senario:**

Ar ôl cynnal ymchwil defnyddwyr, mae **fforwm trafod** yn darganfod bod llawer o ddefnyddwyr yn teimlo nad oes ganddynt reolaeth ar y cynnwys yn eu ffrydiau. Mae adborth gan y defnyddwyr yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol a diangen pan fyddant yn defnyddio'r fforwm.

Mae nifer o ddefnyddwyr yn rhoi enghraifft o duedd feirol ddiweddar o bostio cynnwys a oedd yn cynnwys rhai defnyddwyr yn postio **cam-drin misogynistaidd** ar-lein, a sut nad oedd ganddynt unrhyw ffordd o optio allan o weld y cynnwys hwn, ar wahân i flocio'r defnyddwyr a'i bostiodd. Mae'r fforwm trafod yn ystyried y ffordd orau o roi mwy o ymreolaeth i ddefnyddwyr ar eu profiad ar eu gwasanaeth.

**Camau i'w cymryd:**

- Mae'r fforwm trafod yn ychwanegu opsiwn i ddefnyddwyr ddefnyddio hidlyddion cynnwys.[325] Mae offer hidlo cynnwys yn caniatáu i ddefnyddwyr nodi pynciau nad ydynt am ymgysylltu â nhw drwy nodi tagiau, allweddeiriau ac ymadroddion penodol nad ydynt am eu gweld. Nid yw hidlyddion cynnwys fel arfer yn gwahaniaethu rhwng llythrennau bach a mawr, a dylai hidlyddion allweddeiriau hefyd weithio ar unrhyw dermau sy'n cynnwys yr allweddair.
- Gall defnyddwyr ddefnyddio hidlydd ar gyfer yr hashnodau a'r allweddeiriau sy'n benodol i'r duedd y maent am ei hosgoi. Maen nhw wedyn yn peidio â gweld postiadau sy'n gysylltiedig â'r duedd yn eu ffrydiau.
- Mae'r adnodd yn galluogi defnyddwyr i siapio eu profiad ar-lein ac osgoi deunydd sy'n cynnwys geiriau a phynciau sy'n debygol o beri tramgwydd, aflonyddwch neu ofid iddynt.

**Ystyriaethau:**

- Nid yw hidlyddion yn disodli dyletswyddau darparwyr gwasanaethau i ddileu cynnwys sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer cynnwys anghyfreithlon, gan gynnwys bygythiadau anghyfreithlon, cam-drin a chasineb (gweler Pennod 2).[326]

## Cam Gweithredu 8: Galluogi defnyddwyr sy'n profi niwed ar-lein ar sail rhywedd i wneud adroddiadau

5.21 Gall defnyddwyr sy'n profi neu'n dod ar draws niwed ar-lein ar sail rhywedd wynebu heriau wrth roi gwybod i ddarparwyr am hyn.[327] Pan nad yw systemau adrodd yn rhoi cyfrif effeithiol

[325] Mae ymchwil Ofcom yn awgrymu y gallai hidlyddion cynnwys wneud i ddefnyddwyr deimlo bod ganddyn nhw fwy o reolaeth ar eu profiad ar gyfryngau cymdeithasol. Mae hefyd yn awgrymu y gallai'r ffordd y mae darparwyr gwasanaethau'n cyfleu canlyniad defnyddio offer rheoli cynnwys i ddefnyddwyr, a dylid profion trylwyr ar nodweddion i ddeall hyn. Grymuso Defnyddwyr - Adroddiad technegol
[326] O dan y dyletswyddau grymuso defnyddwyr, bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaeth Categori 1 hefyd gynnig nodweddion i'w defnyddwyr sy'n oedolion y gallant eu defnyddio i leihau eu tebygolrwydd o ddod ar draws categorïau penodol o gynnwys, gan gynnwys casineb a cham-drin cyfreithiol.
[327] Department for Science, Innovation & Technology and PUBLIC, 2025. Platform Design and the Risk of Online Violence Against Women and Girls. [cyrchwyd 29 Hydref 2025].

am niwed fel stelcio, rheolaeth drwy orfodaeth a cham-drin rhywiol sy'n seiliedig ar ddelweddau, gall goroeswyr a dioddefwyr brofi annilysrwydd ac ail-drawmateiddio yn sgil methiant darparwyr i gydnabod y niwed maen nhw wedi'i ddioddef, yn ogystal â rhwystredigaeth a achosir gan ddiffyg gweithredu i fynd i'r afael â'r niwed.[328]

5.22 Mae profiadau gwael o systemau riportio yn erydu ymddiriedaeth ymysg defnyddwyr ac mae llawer o oroeswyr a dioddefwyr yn rhoi'r gorau i roi gwybod i ddarparwyr am niwed ar-lein sy'n seiliedig ar rywedd o ganlyniad i hynny[329]. Mae'n bwysig bod darparwyr yn cydnabod bod adrodd gan defnyddwyr yn dibynnu ar oroeswyr a dioddefwyr niwed ar-lein ar sail rhywedd, a bod prosesau adrodd yn cymryd llawer o amser ac yn peri risg o ail-drawmateiddio goroeswyr a dioddefwyr.

5.23 Mae gwella systemau adrodd yn hanfodol, gan y bydd hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr roi gwybod i ddarparwyr pan fydd niwed yn digwydd er mwyn i ddarparwyr allu cymryd camau pellach lle bo hynny'n briodol. Mae hyn yn cynnwys caniatáu i ddefnyddwyr allu ychwanegu cyd-destun perthnasol at eu hadroddiad lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer niwed penodol fel stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth.[330] Dylai darparwyr hefyd ystyried wrth ddylunio systemau adrodd y gall systemau gael eu camddefnyddio gan adroddiadau ffug torfol i dargedu menywod a merched yn ystod ymosodiadau torfol.[331]

5.24 Gall darparwyr annog a galluogi defnyddwyr i wneud adroddiadau drwy ddylunio systemau adrodd sy'n hygyrch, yn dryloyw, yn hawdd eu defnyddio, ac sy'n rhoi cyfrif am ddeinameg benodol niwed ar-lein ar sail rhywedd. Mae dull diogelwch drwy ddylunio yn cymell darparwyr i annog a galluogi defnyddwyr i adrodd am niwed ar-lein ar sail rhywedd. Er enghraifft, gallant ddylunio systemau adrodd sy'n ystyriol o drawma sy'n ystyried anghenion a gofynion penodol goroeswyr a dioddefwyr.[332]

5.25 Pan fydd defnyddiwr yn ymgysylltu â darparwr gwasanaeth fel rhan o'r broses adrodd, gallai'r defnyddiwr arfer ei hawliau diogelu data o dan GDPR y DU ar yr un pryd.[333]

## Camau Sylfaenol: Beth yw'r disgwyliadau ar gyfer darparwyr gwasanaethau?

5.26 Mae ein Codau'n nodi'r camau canlynol ar gyfer darparwyr gwasanaethau, ar sail swyddogaethau, risg a maint:[334]

---

[328] Refuge, 2021. Unsocial Spaces. [Cyrchwyd 5 Medi 2025]; The Open University (Jurasz, O.), 2024. Online violence against women: a Four Nations study. [cyrchwyd 30 Hydref 2025].
[329] Victims Commissioner (Storry, M. a Poppleton, S.), 2022. The Impact of Online Abuse: Hearing the Victims' Voice. [Cyrchwyd 30 Hydref 2025]; PEN America (Vilk, V. and Lo, K.), 2023. Shouting into the Void. [cyrchwyd 30 Hydref 2025].
[330] Refuge, 2021. Unsocial Spaces. [cyrchwyd 5 Medi 2025]; Flynn, A., Powell, A., Scott, A. and Cama, E. [cyrchwyd 10 Awst 2025].
[331] International Center for Journalists (Posetti, J. and Shabbir, N.), 2022. The Chilling: A global study of online violence against women journalists. [cyrchwyd 01 Hydref 2025]
[332] Chayn (Hussain, H.), 2021. Chayn's trauma-informed design principles. [cyrchwyd 10 Tachwedd 2025].
[333]Rydym yn annog darparwyr i ddarllen canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ofynion GDPR y DU. Gweler Canllaw i hawliau unigol | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
[334]Mae'r 'camau sylfaenol' yn cyfeirio at amrywiaeth o ddisgwyliadau rydym eisoes wedi'u nodi ar gyfer darparwyr gwasanaethau adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn. Mae'r 'camau sylfaenol' yn berthnasol i wahanol wasanaethau ar sail swyddogaeth, risg a maint. Mae gwybodaeth am ba gam sylfaenol sy'n berthnasol i ba wasanaeth wedi'i nodi yn y ddogfen Cipolwg ar y Canllawiau. Mae'r Codau Ymarfer Cynnwys Anghyfreithlon yn berthnasol i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio a reoleiddir, ac mae'r Codau Ymarfer Diogelu

a) **Prosesau cwyno**: Dylai prosesau cwyno darparwyr gwasanaethau alluogi defnyddwyr, pobl yr effeithir arnynt, a phobl sydd â diddordeb i wneud cwynion perthnasol2[335] (gweler **Astudiaeth Achos 17** ac **Astudiaeth Achos 20**).

b) **Systemau cwyno:** Mae systemau cwyno darparwyr gwasanaethau yn hawdd dod o hyd iddynt, yn hawdd cael gafael arnynt, ac yn hawdd eu defnyddio ac yn caniatáu i ddefnyddwyr ychwanegu gwybodaeth ategol at eu cwynion.[336]

c) **Cyfathrebu ynghylch cwynion**: Mae systemau cwyno darparwyr gwasanaethau yn cydnabod derbyn cwynion, yn darparu amserlenni dangosol[337], ac yn nodi gwybodaeth am sut bydd y gŵyn yn cael ei thrin261F[338] (gan gynnwys rhoi'r opsiwn i ddefnyddwyr optio allan o gyfathrebiadau gan wasanaeth).[339]

d) **Chwilio rhagfynegol**: Dylai darparwyr gwasanaethau chwilio roi modd i ddefnyddwyr roi gwybod yn hawdd am awgrymiadau chwilio rhagfynegol, ac ni ddylai'r rheini y mae'r darparwr yn penderfynu sy'n peri risg glir a sylweddol i ddefnyddwyr ddod ar draws cynnwys anghyfreithlon neu gynnwys sy'n niweidiol i blant gael eu cyflwyno i ddefnyddwyr mwyach.[340]

5.27 Mae **astudiaeth achos 17** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr gwasanaeth cynnwys i oedolion alluogi rhywun nad yw'n ddefnyddiwr i roi gwybod am gamddefnyddio delweddau personol ar ei wasanaeth.

**Astudiaeth achos 17 (sylfaenol): Riportio fel rhywun nad yw'n ddefnyddiwr**

**Senario:**

Mae **darparwr gwasanaeth** pornograffi yn dod yn ymwybodol drwy sefydliad trydydd parti na all goroeswyr a dioddefwyr **camddefnyddio delweddau personol** gysylltu â nhw i dynnu delwedd i lawr heb gofrestru ar gyfer eu gwasanaeth.

Ochr yn ochr â'r dioddefwr a ddangosir yn y ddelwedd, efallai y bydd yr achos o gamddefnyddio delweddau personol yn effeithio ar eraill hefyd, a'u bod yn wynebu'r un rhwystrau â'r rheini nad ydynt yn ddefnyddwyr. Gallai hyn gynnwys rhiant neu oedolyn sy'n gyfrifol am blentyn, neu oedolyn sy'n rhoi cymorth i oedolyn arall sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**Camau i'w cymryd:**

- Mae'r darparwr yn galluogi ei system adrodd i ganiatáu **adroddiadau allanol** am gamddefnyddio delweddau personol, heb i ddefnyddiwr orfod mynd drwy'r broses o greu cyfrif.
- Yna, mae gan ddioddefwr camddefnyddio delweddau personol yr opsiwn i ofyn i unigolyn arall roi gwybod am ddelweddau ar ei ran. Gall hyn leihau'r risg o ail-drawmateiddio.

**Ystyriaethau:**

- Gallai'r darparwr gwasanaeth fynd gam ymhellach i ymgorffori'r cam arfer da mewn cyfateb hash ar gyfer camddefnyddio delweddau personol (gweler camau gweithredu 6). Byddai hyn yn golygu y byddai'r ddelwedd yn cael ei chanfod a'i thynnu i lawr yn awtomatig, gan arbed rhagor o ymdrech a gofid i oroeswyr a dioddefwyr pe bai'n cael ei lanlwytho eto

---

Plant yn berthnasol i wasanaethau o'r fath lle mae'n debygol y bydd plant yn eu cyrchu (o fewn ystyr y Ddeddf).

[335]Cynnwys Anghyfreithlon (ICU D1, ICS D1), Amddiffyn Plant (PCU D1, PCS D1).

[336] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU D2, ICS D2), Amddiffyn Plant (PCU D2, PCS D2).

[337] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU D4, ICS D3), Amddiffyn Plant (PCU D4, PCS D4).

[338] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU D5, ICS D4), Amddiffyn Plant (PCU D5, PCS D5).

[339] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU D6, ICS D5), Amddiffyn Plant (PCU D6, PCS D6).

[340]Cynnwys Anghyfreithlon (ICS F1), Amddiffyn Plant (PCS F1).

- Gallai hefyd dynnu i lawr neu guddio delweddau yr adroddwyd amdanynt drwy sianeli riportio delweddau personol penodol ar unwaith, tra bo'r adroddiad yn aros am adolygiad gan gymedrolwyr.
- Gallai hefyd weithio mewn partneriaeth â sefydliad rheng flaen sydd ag arbenigedd mewn camddefnyddio delweddau personol i ddarparu rhagor o gymorth arbenigol i goroeswyr a ddioddefwyr (gweler **Astudiaeth Achos 21** ar fflagwyr dibynadwy).

## Camau ymarfer da: Sut gall darparwyr gwasanaethau fynd ymhellach?

5.28 Yn yr adran hon, rydym yn nodi camau arfer da y gall darparwyr gwasanaethau eu cymryd ochr yn ochr â'r camau sylfaenol i gryfhau eu systemau adrodd ymhellach a chreu proses wedi'i theilwra sy'n seiliedig ar drawma ar gyfer adrodd am niwed ar-lein ar sail rhywedd. Gallai hyn annog mwy o ddefnyddwyr i roi gwybod am gynnwys a helpu defnyddwyr i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar wasanaeth i wneud penderfyniad priodol. Byddai hyn yn arwain at well profiadau i fenywod a merched, yn ogystal â rhoi gwell darlun i ddarparwyr gwasanaethau o sut mae niwed yn dod i'r amlwg ar eu gwasanaeth.

5.29 Mae'r camau arfer da y gallai darparwyr eu cymryd yn cynnwys:

a) **Botymau gadael:** Darparu 'botwm gadael cyflym' drwy gydol y broses adrodd sy'n tynnu'r defnyddiwr o'r system adrodd ar unwaith. Gall hyn ddiogelu preifatrwydd defnyddwyr sydd mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin.[341]

b) **Olrhain adroddiadau:** Caniatáu i ddefnyddwyr olrhain a rheoli eu hadroddiadau a theilwra eu profiad drwy gydol y broses gwyno. Gallai hyn gynnwys yr opsiwn i ddefnyddwyr rannu eu hadroddiadau'n haws, er mwyn iddynt allu rhannu'r wybodaeth yn yr adroddiad eu hunain â thrydydd partïon, gan gynnwys sefydliadau cymorth rheng flaen neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith os ydynt yn dymuno. (gweler **Astudiaeth achos 19** ac **Astudiaeth achos 20**)

c) **Adborth gan ddefnyddwyr:** Caniatáu i ddefnyddwyr roi adborth i'r darparwr gwasanaeth ar ei broses adrodd.[342]

d) **Fflagwyr dibynadwy:** Sefydlu rhaglen fflagwyr dibynadwy mewn partneriaeth â sefydliadau sydd ag arbenigedd mewn niwed ar-lein sy'n seiliedig ar rywedd.[343] (gweler **Astudiaeth achos 21**).

e) **Rhoi gwybod am ddigwyddiadau:** Caniatáu i ddefnyddwyr roi gwybod am achosion o gam-drin gyda'r cyd-destun priodol, fel gallu cynnwys nifer o bostiadau neu ryngweithiadau mewn un adroddiad, a chynnwys cam-drin a ddigwyddodd ar wasanaeth arall neu all-lein. Gall darparwyr gwasanaethau fynd ati mewn sawl ffordd i ymateb i'r adroddiadau hyn (gweler **Astudiaeth Achos 22**).[344]

f) **Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau:** Mabwysiadu'r egwyddorion ynghylch dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac ymyriadau amserol ar gyfer gwybodaeth gefnogol yn Egwyddorion Dylunio Arfer Gorau ar gyfer Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Ofcom.

[341] I gael rhagor o wybodaeth am sut mae datblygu botymau gadael a sut maen nhw'n gweithio, ewch i: Exit a page quickly – GOV.UK Design System [cyrchwyd 25 Awst 2025].

[342] Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried anghenion eu sylfaen defnyddwyr yn y DU wrth ystyried pa ieithoedd sydd eu hangen wrth gynllunio eu proses adrodd.

[343] Refuge response to the 2023 Illegal Harms Consultation, t.12; Suzy Lamplugh response to the 2023 Illegal Harms Consultation, t.21; SWGfL response to the 2023 Illegal Harms Consultation, t.15; UCL Gender and Tech response to the 2023 Illegal Harms Consultation, t.10; VAWG Sector Experts response to the 2024 Protection of Children Consultation, t.13; Impact of social media and screen-use on young people's health - Science and Technology Committee - House of Commons

[344] Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried anghenion eu sylfaen defnyddwyr yn y DU wrth ystyried pa ieithoedd sydd eu hangen wrth gynllunio eu proses adrodd am ddigwyddiadau oddi ar y gwasanaeth.

g) **Cymorth yn ystod y broses adrodd:** Cyfeirio at ddeunyddiau ategol perthnasol pan fydd adroddiadau'n cael eu gwneud am niwed ar sail rhywedd, fel stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth neu gam-drin rhywiol ar sail delweddau. Gallai'r deunyddiau hyn gynnwys gwybodaeth am sefydliadau cymorth rheng flaen a gwybodaeth am sut i roi gwybod am drosedd, lle bo hynny'n briodol. [345]

5.30 Mae **astudiaeth achos 18** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr gemau gefnogi defnyddwyr sy'n cael eu haflonyddu drwy wella ei opsiynau adrodd.

### Astudiaeth achos 18 (arfer da): Dewisiadau adrodd

#### Senario:

Mae **darparwr gwasanaeth gemau** yn dod yn ymwybodol drwy gynnwys sy'n cael ei bostio gan fenywod sy'n chwarae gemau ar-lein eu bod yn cael eu **cam-drin yn fisogynistaidd** ar y gwasanaeth. Mae'r chwaraewyr gemau yn dweud eu bod yn wynebu rhwystrau wrth roi gwybod am y cam-drin hwn, oherwydd ei fod yn digwydd drwy sgyrsiau sain yn y gêm a mannau realiti rhithwir, a bod system riportio'r gwasanaeth yn caniatáu adroddiadau am sgyrsiau ysgrifenedig yn unig.

Nid yw aflonyddu bob amser yn digwydd drwy gyfathrebu ysgrifenedig a gweledol fel delweddau, sylwadau a negeseuon uniongyrchol y gellir eu cofnodi a'u riportio yn hawdd.

#### Camau i'w cymryd:

Mae'r darparwr gwasanaeth gemau yn cynnig dull **riportio hygyrch** ar gyfer pob math o gynnwys a rhyngweithio a gefnogir ar y gwasanaeth. Mae hyn yn atal cyflawnwyr rhag osgoi systemau gorfodi'r darparwr drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu anysgrifenedig neu weledol. Mae'r darparwyr:

- yn caniatáu i'r defnyddiwr roi gwybod am y cam-drin a ddigwyddodd yn ystod sgwrs lafar yn y gêm.
- yn caniatáu i'r defnyddiwr roi gwybod bod y cyflawnwr wedi aflonyddu'n rhywiol arni ac wedi tarfu ar ei gofod ffisegol ar ei lwyfan realiti rhithwir.
- yn mynd i'r afael â thactegau cyflawnwyr, mae'r darparwr yn diweddaru ei systemau adrodd pan fydd yn gwneud unrhyw newidiadau i'w wasanaeth, gan gynnwys nodweddion rhyngweithio defnyddwyr newydd.

#### Ystyriaethau:

Gallai ychwanegu opsiynau adrodd ychwanegol gynyddu nifer a math yr adroddiadau a dderbynnir. Dylai darparwyr ystyried darparu adnoddau a hyfforddiant priodol i dimau cymedroli fel eu bod yn barod i ymateb i hyn.

**5.31** Mae **astudiaeth achos 19** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr gwasanaeth cyfrwng cymdeithasol wella ymddiriedaeth defnyddwyr o systemau adrodd drwy fod yn fwy tryloyw.

---

[345] Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried anghenion eu sylfaen defnyddwyr yn y DU wrth ystyried pa ieithoedd sydd eu hangen ar gyfer gwybodaeth gefnogol.

## Astudiaeth achos 19 (arfer da): Proses adrodd dryloyw

### Senario:

Mae **darparwr gwasanaeth cyfrwng cymdeithasol** yn dod yn ymwybodol drwy brofion defnyddwyr bod hyder yn ei system adrodd yn isel.

Mae goroeswyr a dioddefwyr yn dweud eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael digon o wybodaeth am broses y darparwr o asesu'r adroddiad, y camau y gallai eu cymryd, pwy fydd yn cael gwybod a pha mor hir y bydd y broses yn ei chymryd.[346] Gall hyn fod yn arbennig o ofidus pan fydd dioddefwr yn rhoi gwybod am **gyflawnwr mynych**, oherwydd efallai na fydd yn gwybod a fydd adrodd yn arwain at roi gwybod i'r cyflawnwr am yr adroddiad.[347]

### Camau i'w cymryd:

Mae tîm yn y darparwr gwasanaeth yn gyfrifol am wella'r broses adrodd. I wneud hyn, mae'n defnyddio adborth defnyddwyr ac ymchwil allanol i gyflwyno'r newidiadau canlynol, gyda thryloywder mewn golwg. Mae'r darparwr

- yn ychwanegu cyfnodau amcangyfrifiedig realistig ar gyfer ymateb i adroddiadau lle bo hynny'n bosibl, fel bod y defnyddiwr yn gwybod pryd i ddisgwyl ymateb.[348] Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer adroddiadau defnyddwyr risg uchel.
- yn cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau posibl camau gorfodi sy'n cyfateb i wahanol achosion o dorri polisi yn ystod y broses adrodd, er mwyn i'r defnyddiwr ddeall yn glir beth allai ddigwydd, pwy allai gael gwybod am yr adroddiad a sut gallai defnyddiwr sy'n cael ei riportio gael ei gosbi.
- yn cynnig opsiynau adborth i ddefnyddwyr yn ystod sawl cam o'r broses adrodd. Defnyddir adborth y defnyddwyr i lywio diweddariadau i'r system adrodd yn y dyfodol, gan sicrhau bod lleisiau goroeswyr a dioddefwyr yn cael eu clywed a bod y system yn cael ei gwella yn y dyfodol.

### Ystyriaethau:

- Gall proses adrodd hygyrch a thryloyw feithrin ymddiriedaeth a rheoli disgwyliadau'n well rhwng defnyddwyr a darparwyr.[349] Gan fod prosesau adrodd yn debygol o gynnwys prosesu data personol, gall sicrhau bod darparwyr yn dryloyw ynghylch sut mae data defnyddwyr yn cael ei ddefnyddio hefyd gefnogi darparwyr i gydymffurfio â'u gofynion o dan gyfraith diogelu data.[350]
- Dylai darparwyr gydbwyso tryloywder wrth adrodd ag ymwybyddiaeth o ymddygiad cyflawnwyr, gan sicrhau nad yw gwybodaeth am ei brosesau adrodd neu sancsiynau yn cael ei defnyddio gan gyflawnwyr neu ddrwgweithredwyr i osgoi camau gorfodi (gweler **Astudiaeth achos 7** ar brofi camddefnyddioldeb cynnyrch).
- Dylai arolygon adborth defnyddwyr fod yn ystyriol o drawma (gweler **Astudiaeth achos 6**).

---

[346] Refuge, 2021. Unsocial Spaces. [cyrchwyd 05 Medi 2025].
[347]Ymatebion i'n hymgynghoriad ym mis Chwefror 2025: Refuge.
[348] Chayn (Hussain, H.), 2021. Chayn's trauma-informed design principles. [cyrchwyd 30 Hydref 2025].
[349] World Wide Web Foundation, 2021. Tech Policy Design Lab: Online Gender-Based Violence and Abuse. [cyrchwyd 02 Awst 2025].
[350] Rydym yn annog darparwyr i ymgynghori â chanllawiau ac adnoddau GDPR Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y DU: canllawiau ac adnoddau GDPR Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y DU, yn benodol canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar yr hawl i gael gwybod a thryloywder.

**5.32** Mae **Astudiaeth achos 20** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr gwasanaeth cyfrwng cymdeithasol sicrhau bod ei broses adrodd yn effeithiol ar gyfer goroeswyr a dioddefwyr rheolaeth drwy orfodaeth.

### Astudiaeth achos 20 (arfer da): Olrhain a rheoli adroddiadau

#### Senario:

Mae sefydliad cam-drin domestig rheng flaen yn rhoi gwybod i **ddarparwr gwasanaeth cyfrwng cymdeithasol** bod goroeswyr a dioddefwyr rheolaeth drwy orfodaeth yn wynebu problemau o ran olrhain adroddiadau maen nhw wedi'u gwneud i'r gwasanaeth. Mae profiadau o niwed ar-lein ar sail rhywedd yn aml yn gymhleth ac yn gyd-destunol iawn ac yn aml yn cynnwys nifer o ryngweithiadau neu ddarnau o gynnwys. Mae adrodd hefyd yn cymryd llawer o amser a gall achosi aildrawmateiddio i oroeswyr a dioddefwyr.[351]

Gall goroeswyr a dioddefwyr wynebu rhwystrau o ran gallu rhannu eu hadroddiadau â thrydydd partïon.[352]

#### Camau i'w cymryd:

Mae'r darparwr yn penderfynu darparu **dangosfwrdd adroddiadau** i'w ddefnyddwyr.

- Mae'r darparwr yn dangos holl adroddiadau blaenorol defnyddiwr mewn un lle. Yna gall y defnyddiwr wirio statws eu hadroddiadau'n hawdd, yn hytrach na gorfod cysylltu â'r darparwr am statws pob adroddiad yn unigol.
- Mae'r darparwr yn ychwanegu'r swyddogaeth i lawrlwytho neu rannu copïau o'r adroddiadau. Mae hyn yn caniatáu i ddefnyddiwr rannu gwybodaeth â thrydydd parti, fel gwasanaeth cymorth rheng flaen neu wasanaeth gorfodi'r gyfraith.
- Mae'r darparwr hefyd yn rhoi'r opsiwn i'r defnyddiwr wahodd cyswllt y gelir ymddiried ynddo i'w gefnogi gyda'r broses adrodd.
- Gall rhoi mwy o ddewis ynghylch y broses adrodd roi mwy o awdurdod a thryloywder i oroeswyr a dioddefwyr rheolaeth drwy orfodaeth ar y broses a meithrin ymddiriedaeth rhwng y defnyddiwr a'r darparwr.[353]

#### Ystyriaethau:

- Datblygodd Labordy Dylunio Polisi Technoleg y Web Foundation brototeip ar gyfer dangosfwrdd adrodd sy'n galluogi defnyddwyr i weld eu hadroddiadau a gweld pan fydd adroddiadau'n cael eu datrys, gan ystyried osgoi ail-drawmateiddio.[354] Gallai'r dangosfwrdd hefyd ganiatáu i ddefnyddwyr ychwanegu cyd-destun ychwanegol at eu hadroddiadau a chasglu ac archifo tystiolaeth o gynnwys niweidiol.
- Dylai swyddogaethau sy'n cefnogi defnyddiwr i lawrlwytho neu rannu adroddiad gydymffurfio â chyfreithiau preifatrwydd data. Dylai darparwyr edrych ar ganllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.[355]

---

[351] Chayn (Hussain, H.), 2021. Chayn's trauma-informed design principles. [cyrchwyd 30 Hydref 2025]. Refuge, 2021. Unsocial Spaces. [cyrchwyd 5 Medi 2025]
[352] Refuge, 2021. Unsocial Spaces. [cyrchwyd 05 Medi 2025]
[353] PEN America (Vilk, V. and Lo, K.), 2023. Shouting into the Void. [cyrchwyd 30 Hydref 2025].
[354] World Wide Web Foundation, 2021. Tech Policy Design Lab: Online Gender-Based Violence and Abuse. [cyrchwyd 30 Hydref 2025].
[355] Mae gan ddefnyddwyr hawl i gael mynediad at eu gwybodaeth bersonol o dan gyfraith diogelu data. Gweler canllawiau'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar geisiadau mynediad gan bwnc am ragor o wybodaeth. Am

**5.33** Mae astudiaeth achos 21 yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr gwasanaeth rhannu delweddau sefydlu rhaglen fflagwyr dibynadwy i fynd i'r afael â chamddefnyddio delweddau personol.

### Astudiaeth achos 21 (arfer da): Fflagwyr dibynadwy

#### Senario:

Mae **darparwr gwasanaeth rhannu delweddau** yn cael gwybod gan sefydliad rheng flaen sydd ag arbenigedd mewn **camddefnyddio delweddau personol** bod y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio gan gyflawnwyr i rannu cynnwys camddefnyddio delweddau personol, ac mae'r sefydliad yn wynebu rhwystrau wrth geisio tynnu'r delweddau i lawr.

Ar ôl dod i wybod bod delweddau personol ohonyn nhw eu hunain wedi cael eu postio ar-lein, efallai y bydd goroeswr neu ddioddefwr camddefnyddio delweddau personol yn gofyn am help yn gyntaf gan sefydliad rheng flaen dibynadwy i lywio drwy'r sefyllfa, yn hytrach na chysylltu â'r darparwr yn gyntaf.

#### Camau i'w cymryd:

Mae'r darparwr yn sefydlu **rhaglen fflagwyr dibynadwy**, lle mae'n gweithio mewn partneriaeth â'r sefydliad camddefnyddio delweddau personol rheng flaen. Gall rhaglenni fflagwyr dibynadwy helpu goroeswyr a dioddefwyr drwy feithrin perthynas rhwng darparwyr gwasanaethau a sefydliadau sydd ag arbenigedd mewn niwed, fel stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth neu gamddefnyddio delweddau personol.[356]

- Gall y fflagiwr dibynadwy godi achosion gyda'r darparwr ar ran goroeswyr a dioddefwyr ac gall darparwr sicrhau bod yr achosion yn cael eu blaenoriaethu, gan leihau'r siawns y bydd ail-drawmateiddio a sicrhau bod cynnwys yn cael ei dynnu i lawr yn gyflym.
- Gall fflagiwr dibynadwy ddarparu cymorth ychwanegol i'r goroeswr a'r dioddefwr drwy gydol eu profiad.
- Mae'r fflagiwr dibynadwy hefyd yn gallu defnyddio'r berthynas hon i dynnu sylw'r darparwr at fathau newydd o niwed, neu ffyrdd newydd y mae'r gwasanaeth yn cael ei gamddefnyddio gan gyflawnwyr.

#### Ystyriaethau:

- Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd, dylai darparwyr nodi meini prawf clir ar gyfer pa gynnwys y gall sefydliadau fflagwyr dibynadwy roi gwybod amdano a darparu llwybr uwchgyfeirio penodol os nad yw darparwyr yn ymateb i adroddiadau fflagwyr dibynadwy.
- Dylai fflagwyr dibynadwy gael eu trin yn deg fel partneriaid a chael yr adnoddau a'r gefnogaeth angenrheidiol.[357]

---

ragor o wybodaeth gweler canllawiau ac adnoddau GDPR y DU Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. [cyrchwyd 05 Medi 2025]

[356] Gweithdy Rhanddeiliaid 2 Ofcom ar Ddiogelwch Menywod a Merched Ar-lein , 19 Tachwedd 2024.

[357] Mae 'Cod Ymarfer Trais yn erbyn Menywod a Merched' a ddatblygwyd ar gyfer y diwydiant gan gynghrair cymdeithas sifil yn argymell bod darparwyr yn nodi meini prawf clir ar gyfer pa gynnwys y gall sefydliadau fflagwyr dibynadwy roi gwybod amdano ac yn darparu llwybr penodol ar gyfer uwchgyfeirio os nad yw darparwyr

5.34 Mae **Astudiaeth achos 22** yn nodi enghreifftiau o sut gall gwasanaeth ffrydio byw gefnogi goroeswyr a dioddefwyr stelcio drwy gyflwyno polisi ar adrodd am ymddygiad niweidiol oddi ar wasanaethau.

## Astudiaeth achos 22 (arfer da): Adrodd am ymddygiad oddi ar wasanaethau

### Senario:

Mae **darparwr gwasanaeth ffrydio byw** yn cael adroddiadau gan grewyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth bod cyflawnwyr **stelcio** yn gallu aflonyddu arnynt drwy ei swyddogaethau rhoi sylwadau a negeseuon ar ffrydiau byw.

Mae niwed fel stelcio yn cael ei nodweddu gan batrwm ymddygiad ehangach, ar-lein ac all-lein.

### Camau i'w cymryd:

Gan adeiladu ar ei bolisïau presennol, mae'r darparwr gwasanaeth yn cyflwyno polisi ychwanegol sy'n galluogi defnyddwyr i roi gwybod am **ymddygiad niweidiol oddi ar y gwasanaeth** (gweler **Astudiaeth Achos 1** ynghylch cofnodi stelcio mewn telerau gwasanaeth). Mae hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr y gwasanaeth sydd wedi profi stelcio all-lein roi gwybod i'r darparwr.

- Mae'r darparwr yn gwerthuso'r adroddiad ac, os yw'n fodlon bod digon o dystiolaeth y gellir ei dilysu wedi cael ei rhoi, mae'r darparwr yn cymryd camau gorfodi.
- Mae camau gorfodi'n cynnwys atal y cyflawnwr rhag rhyngweithio â'r goroeswr a'r dioddefwr ar y gwasanaeth i atal unrhyw ymddygiad camdriniol yn y dyfodol.
- Mae rhoi cyfrif am achosion oddi ar y gwasanaeth o niwed ar sail rhywedd, fel stelcio, yn helpu i fynd i'r afael â phatrymau ymddygiad niweidiol ac yn galluogi darparwyr i gymryd camau rhagweithiol i atal niwed ar-lein ar sail rhywedd ar eu gwasanaeth.

### Ystyriaethau:

- Wrth drin ac asesu adroddiadau oddi ar y gwasanaeth, dylai darparwyr gydymffurfio â chyfraith diogelu data lle mae hyn yn cynnwys prosesu data personol.[358] Dylai gwasanaethau fabwysiadu dull diogelu data trwy ddylunio a sicrhau bod y mesurau diogelwch angenrheidiol yn cael eu hintegreiddio i amddiffyn hawliau a rhyddid defnyddwyr.[359] Dylai darparwyr sicrhau tegwch wrth brosesu data, yn enwedig os defnyddir systemau awtomataidd i ddadansoddi adroddiadau neu i bennu camau gorfodi. Rhaid i unrhyw ddefnydd o dechnoleg at y diben hwn fod yn dryloyw ac yn rhydd o ragfarn.[360]

---

yn ymateb i adroddiadau fflagwyr dibynadwy. Mae'r gynghrair hefyd yn pwysleisio y dylai sefydliadau fflagwyr dibynadwy gael yr adnoddau a'r gefnogaeth angenrheidiol wrth wneud gwaith ychwanegol i wneud gwasanaeth yn fwy diogel.

[358] Dylai darparwyr ystyried Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar egwyddorion diogelu data. Yn dibynnu ar natur y data a adroddir, efallai y bydd darparwyr gwasanaethau'n prosesu data troseddau. Lle mae hyn yn wir, dylai gwasanaethau ymgynghori â chanllawiau'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddata troseddau.

[359] Gweler canllawiau'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddiogelu data trwy ddylunio a diofyn.

[360] Dylai darparwyr ymgynghori â Chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar wneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio a deallusrwydd artiffisial a diogelu data.

## Cam Gweithredu 9: Ymateb yn briodol pan fydd niwed ar-lein ar sail rhywedd yn digwydd

5.35 Pan na fydd darparwyr yn dyrannu digon o adnoddau ac arbenigedd i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd pan fydd defnyddwyr yn profi neu'n dod ar draws niwed ar-lein ar sail rhywedd ar eu gwasanaethau, gall achosi rhagor o drallod i oroeswyr a dioddefwyr. Heb ddigon o adnoddau ac arbenigedd, efallai na fydd darparwyr yn ymateb i adroddiadau defnyddwyr, ac efallai na fydd eu systemau cymedroli cynnwys a chwilio yn dod o hyd i gynnwys niweidiol. Mewn achosion eraill, mae darparwyr yn gweithredu ond heb ystyried yn benodol natur gynnil niwed ar sail rhywedd a phwysigrwydd gweithrediad goroeswyr a dioddefwyr.[361]

5.36 Mae niwed ar-lein ar sail rhywedd yn aml yn gyd-destunol iawn. Efallai na fydd niwed fel camddefnyddio delweddau personol, stelcio neu reolaeth drwy orfodaeth yn cael ei adnabod ar unwaith drwy gymedroli cynnwys neu chwilio. Mae'r dystiolaeth bresennol yn dangos cyfraddau ymateb arbennig o wael ar gyfer adroddiadau am gamddefnyddio delweddau personol.[362]

5.37 Gall darparwyr leihau effaith niwed ar-lein ar sail rhywedd drwy gymryd camau priodol pan fydd yn digwydd ar eu gwasanaeth. Mae cymedroli cynnwys a chwilio sy'n ystyried niwed fel camddefnyddio delweddau personol, stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth yn galluogi darparwyr i nodi patrymau ymddygiad niweidiol. Mae gwella ymatebion i adroddiadau defnyddwyr yn caniatáu i ddarparwyr gefnogi menywod a merched sydd wedi profi niwed ar-lein ar sail rhywedd yn well.

## Camau Sylfaenol: Beth yw'r disgwyliadau ar gyfer darparwyr gwasanaethau?

5.38 Mae ein Codau'n nodi'r camau canlynol ar gyfer darparwyr gwasanaethau, ar sail swyddogaethau, risg a maint:[363]

a) **Gweithredu**: Dylai darparwyr gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr gael swyddogaeth cymedroli cynnwys sy'n caniatáu i gynnwys anghyfreithlon a nodwyd gael ei dynnu i lawr yn gyflym a gweithredu'n gyflym yn erbyn cynnwys a nodwyd sy'n niweidiol i blant.[364]

b) **Targedau perfformiad**: Dylai darparwyr gwasanaethau osod a chofnodi targedau ar gyfer swyddogaethau cymedroli chwilio a chynnwys.[365]

c) **Blaenoriaethu**: Dylai darparwyr gwasanaethau baratoi a gweithredu polisïau ar flaenoriaethu cynnwys i'w adolygu.[366]

---

[361] Refuge, 2021. Unsocial Spaces. [Cyrchwyd 5 Medi 2025]; Refuge response to the 2023 Illegal Harms Consultation, p.4; Glitch response to the 2023 Illegal Harms Consultation, p.6.

[362] Qiwei, L., Zhang, S., Kasper, A., Ashkinaze, J., Eaton, A., Schoenebeck, S. a Gilbert, E., 2024. Reporting Non-Consensual Intimate Media: An Audit Study of Deepfakes. [cyrchwyd 30 Hydref 2025].

[363] Mae'r 'camau sylfaenol' yn cyfeirio at amrywiaeth o ddisgwyliadau rydym eisoes wedi'u nodi ar gyfer darparwyr gwasanaethau adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn. Mae'r 'camau sylfaenol' yn berthnasol i wahanol wasanaethau ar sail swyddogaeth, risg a maint. Mae gwybodaeth am ba gam sylfaenol sy'n berthnasol i ba wasanaeth wedi'i nodi yn y ddogfen Cipolwg ar y Canllawiau. Mae'r Codau Ymarfer Cynnwys Anghyfreithlon yn berthnasol i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio a reoleiddir, ac mae'r Codau Ymarfer Diogelu Plant yn berthnasol i wasanaethau o'r fath lle mae'n debygol y bydd plant yn eu cyrchu (o fewn ystyr y Ddeddf).

[364] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU C2), Amddiffyn Plant (PCU C2).

[365] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU C4, ICS C3), Amddiffyn Plant (PCU C4, PCS C4).

[366] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU C5, ICS C4), Amddiffyn Plant (PCU C5, PCS C5).

d) **Timau cymedroli**: Dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau bod gan swyddogaethau cymedroli chwilio a chynnwys adnoddau[367] a bod unigolion sy'n gweithio fel cymedrolwyr yn cael hyfforddiant a deunyddiau (gweler Cam Gweithredu 1).[368]

e) **Cwynion**: Dylai darparwyr gwasanaethau ddelio â chwynion am gynnwys yr amheuir ei fod yn anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant yn unol â phrosesau blaenoriaethu cynnwys.[369]

f) **Apeliadau**: Dylai darparwyr gwasanaethau benderfynu ar apeliadau'n brydlon neu yn unol â thargedau perfformiad,[370] yn dibynnu ar y darparwr. Dylai cwynion, cyn belled ag y bo'n briodol ac yn bosib, gael eu hadfer i'r sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na bai'r penderfyniad wedi cael ei wneud, yn dilyn apeliadau a gadarnhawyd.[371]

## Camau ymarfer da: Sut gall darparwyr gwasanaethau fynd ymhellach?

5.39 Yn yr adran hon, rydym yn nodi camau arfer da y gall darparwyr gwasanaethau eu cymryd ochr yn ochr â'r camau sylfaenol i wreiddio dealltwriaeth o niwed ar sail rhywedd ar-lein ymhellach yn eu systemau a'u prosesau. Bydd hyn yn eu galluogi i ymateb i niwed mewn ffordd sy'n cefnogi goroeswyr a dioddefwyr, ar yr un pryd â lleihau'r risg o ymddygiad niweidiol a chynnwys yn cylchredeg ar eu gwasanaethau yn y dyfodol.

5.40 Mae'r camau arfer da y gallai darparwyr eu cymryd yn cynnwys:

a) **Camau gorfodi:** Cymryd camau cyson a chyfleu'n glir yn erbyn defnyddwyr sy'n torri telerau gwasanaeth gwasanaeth (gweler **Astudiaeth Achos 24**). Er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd gorau posibl, dylai gwasanaethau, lle bo'n bosibl, gymryd camau i ganfod ac atal cyflawnwyr rhag creu cyfrifon newydd a allai fod yn gwneud hynny i osgoi sancsiwn neu waharddiad.[372]

b) **Gwirio ffeithiau a labelu:** Gall ychwanegu proses wirio ffeithiau a labelu cynnwys fod yn adnodd defnyddiol i fynd i'r afael â thwyllwybodaeth ar sail rhywedd, y gellir ei ddefnyddio mewn ymgyrchoedd aflonyddu cydlynol yn erbyn menywod a merched mewn bywyd cyhoeddus.[373] [374]

---

[367] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU C6, ICS C5), Amddiffyn Plant (PCU C6, PCS C6).
[368] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU C7, ICS C6), Amddiffyn Plant (PCU C7, PCS C7).
[369] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU D7, ICS D6), Amddiffyn Plant (PCU D7, PCS D7).
[370] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU D8, ICS D7, ICU D9, ICS D8), Amddiffyn Plant (PCU D8, PCS D8, PCU D9, PCS D9)
[371] Cynnwys Anghyfreithlon (ICU D10, ICS D9), Amddiffyn Plant (PCU D10, PCS D10).
[372]Adeg cyhoeddi hwn, mae ymgynghoriad Ofcom ar Fesurau Diogelwch Ychwanegol wedi dod i ben, ac rydym yn ystyried yr ymatebion yn ofalus. Mae'n cynnwys cynigion ychwanegol i lwyfannau gymryd mwy o gamau ynghylch gwaharddiadau a sancsiynau i ddefnyddwyr. Mae'n cynnwys y *cynnig i 'wahardd defnyddwyr sy'n rhannu, yn cynhyrchu neu'n lanlwytho CSEA, a'r rheini sy'n derbyn CSAM, a chymryd camau i'w hatal rhag dychwelyd i'r gwasanaeth drwy gydol y gwaharddiad'. Mae hefyd yn cynnig y 'dylai darparwyr baratoi a defnyddio polisi sancsiynau mewn perthynas â defnyddwyr yn y DU sy'n cynhyrchu, lanlwytho neu rannu cynnwys anghyfreithlon/cynnwys sy'n niweidiol i blant a/neu brocsi cynnwys anghyfreithlon/cynnwys sy'n niweidiol i blant, gyda'r nod o atal cynnwys anghyfreithlon rhag cael ei ledaenu yn y dyfodol.'* Ymgynghoriad: Diogelwch Ar-lein - Mesurau Diogelwch Ychwanegol - Ofcom.
[373] Internet Governance Forum, 2021. Best Practice Forum on Gender and Digital Rights: Exploring the concept of gendered disinformation. [cyrchwyd 30 Hydref 2025]; National Democratic Institute, 2021. Addressing Online Misogyny and Gender Disinformation: A How-To Guide. [cyrchwyd 30 Hydref 2025].
[374]Dylai darparwyr ystyried y math o gynnwys a chyd-destun wrth benderfynu sut i gyflwyno gwybodaeth a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial. Labelling AI-generated media online | PNAS Nexus | Oxford Academic [cyrchwyd 15 Awst 2025]

c) **Dyfrnodau a metadata:** Gall ychwanegu dyfrnodau a metadata tarddiad at gynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial ddangos ble a sut y cafodd ei greu neu ei olygu. Gallai hyn helpu goroeswyr a dioddefwyr i olrhain tarddiad deunydd camddefnyddio ffugiadau dwfn o ddelweddau personol.[375]

d) **Adolygiad gan gymedrolwyr:** Anfon adroddiadau o niwed ar sail rhywedd gan ddefnyddwyr sy'n rhai risg uchel a chyd-destunol iawn i'w hadolygu gan gymedrolwyr sydd wedi'u hyfforddi'n benodol[376] (gweler **Astudiaeth Achos 23**).

e) **Cuddio cynnwys:** Gall cuddio cynnwys a allai fod yn niweidiol wrth iddo gael ei asesu yn y broses cymedroli cynnwys, fel camddefnyddio delweddau personol posibl, leihau niwed i oroeswyr a dioddefwyr wrth i'r asesiad gael ei gwblhau.

f) **Sianeli adrodd:** Creu sianeli adrodd ac adolygu pwrpasol ar gyfer niwed ar sail rhywedd ar-lein.[377]

5.41 Mae **Astudiaeth achos 23** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr gwasanaeth cyfrwng cymdeithasol hyfforddi ei dîm cymedroli cynnwys i wella ei ymateb i ymddygiad rheolaeth drwy orfodaeth.

**Astudiaeth achos 23 (arfer da): Hyfforddiant ar reolaeth drwy orfodaeth**

**Senario:**

Nid yw tîm cymedroli mewn **darparwr gwasanaeth cyfrwng cymdeithasol**, sy'n gyfrifol am asesu adroddiadau defnyddwyr o reolaeth drwy orfodaeth sy'n digwydd drwy ei nodweddion negeseuon a phostio, yn ymwybodol o'r niwed hwn yn benodol.[378] Drwy fecanwaith adborth ar ei system adrodd, mae'n nodi rhwystredigaeth gynyddol gan oroeswyr a dioddefwyr nad yw eu hadroddiadau'n cael eu gwerthuso'n gywir, ac nad oes camau'n cael eu cymryd.

Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn cael ei chyflawni mewn ffyrdd cymhleth a phersonol iawn, ac mae rheolaeth drwy orfodaeth ar-lein yn aml yn atgynhyrchu ac yn ymestyn yr un ddeinameg â rheolaeth drwy orfodaeth all-lein.[379] Wrth adolygu adroddiadau, mae'r tîm yn colli'r ffaith bod y cam-drin yn gyd-destunol ac y gall fod yn batrwm niweidiol o ymddygiad yn hytrach nag un rhyngweithiad neu ddarn o gynnwys.[380]

**Camau i'w cymryd:**

Mae'r darparwr gwasanaeth yn darparu hyfforddiant penodol i'w dimau cymedroli cynnwys ar reolaeth drwy orfodaeth. Mae hyn yn galluogi cymedrolwyr i nodi achosion o'r niwed hwn yn well ac ymateb i adroddiadau defnyddwyr.

---

[375] Ni fydd mesurau priodoli sy'n dangos a yw cynnwys yn synthetig, ar eu pen eu hunain, yn mynd i'r afael â'r niwed a achosir gan gamddefnyddio ffugiadau dwfn o ddelweddau personol, ond gall helpu i olrhain tarddiad delwedd yn ôl i'w ffynhonnell. Deepfake Defences 2 - The Attribution Toolkit, Ofcom 2025.

[376] Gall offer cymedroli cynnwys awtomataidd fod yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod darparwyr gwasanaethau'n cydnabod bod rhai adroddiadau gan ddefnyddwyr am drais ar sail rhywedd ar-lein yn gynnil eu natur ac yn gyd-destunol iawn ac felly mae cymedrolwyr dynol sydd wedi cael hyfforddiant penodol yn debygol o fod yn effeithiol iawn o ran mynd i'r afael â'r rhain.

[377] Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried anghenion eu sylfaen defnyddwyr yn y DU wrth ystyried pa ieithoedd sydd eu hangen wrth ddylunio eu sianeli adrodd ac adolygu penodol ar gyfer niwed ar sail rhywedd ar-lein.

[378] Woodlock, D., McKenzie, M., Western, D. a Harris, B., 2020. Technology as a Weapon in Domestic Violence: Responding to Digital Coercive Control, *Australian Social Work,* 73 (3). [cyrchwyd 14 Mawrth 2025].

[379] Woodlock, D., McKenzie, M., Western, D. a Harris, B., 2020. Technology as a Weapon in Domestic Violence: Responding to Digital Coercive Control, *Australian Social Work,* 73 (3). [cyrchwyd 14 Mawrth 2025].

[380] Refuge, 2021. Unsocial Spaces. [cyrchwyd 05 Medi 2025].

- Mae'r timau cymedroli hyfforddedig bellach yn ystyried pethau fel sut mae ymateb i adroddiadau defnyddwyr yn briodol heb waethygu risgiau all-lein i oroeswyr a dioddefwyr.
- Mae'r timau'n gwella eu dealltwriaeth o reolaeth drwy orfodaeth a sut mae'n digwydd ar y gwasanaeth drwy bartneriaethau â sefydliadau sydd â phrofiad ac arbenigedd rheng flaen (gweler **Astudiaeth Achos 21** ar fflagwyr dibynadwy).

**Ystyriaethau:**

- Mae angen i gymedrolwyr cynnwys gael digon o gefnogaeth gan ddarparwyr i gael hyfforddiant a chyflawni'r gwaith hwn.
- Fel y nodwyd yng Ngham Gweithredu 8, mae'n hanfodol bod goroeswyr a dioddefwyr rheolaeth drwy orfodaeth yn gallu rhoi cyd-destun digonol i'w hadroddiadau.

5.42 Mae **Astudiaeth achos 24** yn nodi enghreifftiau o sut gall darparwr gwasanaeth negeseuon wella ei ymateb i gyflawnwyr sy'n aflonyddu'n barhaus ar fenywod a merched ar ei wasanaeth.

**Astudiaeth achos 24 (arfer da): Camau gweithredu yn erbyn cyflawnwyr mynych**

**Senario:**

Mae **gwasanaeth cyfrwng cymdeithasol** yn cynnig nodwedd GenAI y gellir ei hychwanegu at sgwrs rhwng defnyddwyr. Gellir defnyddio'r nodwedd i gynhyrchu testun y gall defnyddwyr ei anfon at ei gilydd.

Mae ei dîm cymedroli yn sylwi bod un cyflawnwyr yn cael eu riportio gan lawer o ddefnyddwyr ac mae'n nodi patrwm o ymddygiad tuag at fenywod a merched, lle mae'r cyflawnwyr yn **aflonyddu** arnynt gyda llawer iawn o gynnwys rhywiol amlwg mae'n ei gynhyrchu gan ddefnyddio'r nodwedd GenAI.[381]

Mae nifer fach o ddefnyddwyr yn aml yn gyfrifol am lawer iawn o niwed ar-lein ar sail rhywedd, yn enwedig mewn achosion o aflonyddu cydlynol.[382]

**Camau i'w cymryd:**

Mae'r darparwr yn cyflwyno **system orfodi ar sail rhybuddion**, lle mae defnyddiwr yn cael 'rhybudd' yn erbyn ei gyfrif am gamddefnyddio'r gwasanaeth.

- Pan fydd defnyddiwr yn ceisio cynhyrchu cynnwys niweidiol drwy'r nodwedd GenAI drwy ysgogiadau rhywiol amlwg, mae'n derbyn rhybudd yn erbyn ei gyfrif.
- Os bydd defnyddiwr yn cael rhybuddion lluosog, bydd ei fynediad at y nodwedd GenAI yn cael ei wahardd am gyfnod penodol. Os bydd cyflawnwr yn parhau i gamddefnyddio'r gwasanaeth, mae rhybuddion dro ar ôl tro yn arwain at wahardd cyfrif.
- Pan fydd defnyddiwr yn derbyn streic, cânt wybod pam eu bod yn ei derbyn a beth yw'r canlyniadau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnwys y swyddogaeth i ddefnyddwyr apelio yn erbyn streiciau a chamau gorfodi cysylltiedig.
- Mae hyn yn atal troseddwyr rhag cyrraedd y cam lle gallant rannu cynnwys niweidiol, trwy ymyrryd yn gynnar. O'u cymhwyso'n effeithiol, gall systemau gorfodi sy'n seiliedig ar rybuddion weithredu fel math o ymddygiad camdriniol rhag dod yn batrwm.[383]

---

[381] Wilson Center (Jankowicz, N., Hunchak, J., Pavliuc, A., Davies, C., Pierson, S. a Kaufmann, Z.), 2021. Malign Creativity: How gender, sex, and lies are weaponized against women online. [cyrchwyd 29 Rhagfyr 2025].

[382] Gweithdy Rhanddeiliaid 2 Ofcom ar Ddiogelwch Menywod a Merched Ar-lein , 19 Tachwedd 2024.

[383] Canfu astudiaeth yn 2021 fod postio negeseuon rhybudd i ddefnyddwyr y credir eu bod mewn perygl o gael eu hatal dros dro yn gallu lleihau'r defnydd o iaith casineb ar rai rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol. Yildirim, M.M. et al. (2023) ) 'Short of Suspension: How Suspension Warnings Can Reduce Hate Speech on Twitter', Perspectives on Politics, 21(2), tt. 651–663.

**Ystyriaethau:**

- Mae cymedroli cynnwys ac offer sy'n asesu ymddygiad defnyddwyr yn debygol o gynnwys prosesu data personol. Mae hyn yn cynnwys camau cymedroli sy'n berthnasol i gyfrif defnyddiwr (fel rhybudd, cyfyngu gwasanaeth neu waharddiad). Rydym yn annog darparwyr gwasanaethau i ymgynghori â chanllawiau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n berthnasol i bob math a dull cymedroli.[384]
- Efallai y bydd darparwyr gwasanaeth yn dymuno ystyried a yw'r cyfrif yn perthyn i blentyn neu oedolyn, lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol i natur y drosedd.

[384] Gweler canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gymedroli cynnwys a diogelu data ac Offer proffilio ar gyfer diogelwch ar-lein

# A1. Geirfa

A1.1 Mae'r eirfa hon yn nodi diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y Canllawiau drwyddi draw.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Profion/gwerthusiadau camddefnyddioldeb** | Mae gwerthusiadau neu brofion camddefnyddioldeb yn defnyddio'r cysyniad o 'ddefnyddioldeb' sy'n cael ei ddefnyddio i werthuso pa mor hawdd yw hi i ddefnyddwyr lywio drwy wefan neu ddyfais i gyflawni eu nodau. I'r gwrthwyneb, mae gwerthusiadau camddefnyddioldeb yn profi pa mor hawdd yw camddefnyddio offeryn neu nodwedd ar gyfer niwed, ac felly'n tynnu sylw at ffyrdd o leihau camddefnyddioldeb. |
| **Cam gweithredu** | Bwriad camau gweithredu yw helpu defnyddwyr-i-ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau chwilio i ddylunio, profi, defnyddio a gweithredu eu gwasanaethau mewn ffordd sy'n cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch menywod a merched ar eu gwasanaethau. |
| **Rhwystro** | Cymryd camau a fydd yn golygu na fydd y defnyddiwr sy'n rhwystro na'r defnyddiwr sy'n cael ei rwystro yn gallu anfon negeseuon uniongyrchol at ei gilydd na dod ar draws cynnwys ei gilydd, a'u datgysylltu os oeddent wedi'u cysylltu'n flaenorol.[385] |
| **Effaith iasol** | Mae'n disgrifio sut mae unigolion yn cyfyngu ar hunanfynegiant oherwydd ofnau o gosbau cyfreithiol neu adlach cymdeithasol, hyd yn oed heb fygythiadau uniongyrchol. |
| **Pensaernïaeth dewis** | Y ffordd y mae dewisiadau (fel safleoedd neu ragosodiadau) yn cael eu cyflwyno i unigolion. Gall pensaernïaeth dewis gael effaith sylweddol ar y dewis y mae defnyddwyr yn ei wneud.[386] |
| **Rheolaeth drwy orfodaeth** | Mae hyn yn cwmpasu'r drosedd o ymddygiad rheoli neu orfodol mewn perthynas agos neu deuluol.[387] At ddibenion helpu darparwyr gwasanaethau i ddeall y math o gynnwys a gweithgaredd sy'n debygol o fod wedi'u cynnwys, mae hwn yn fath o ymddygiad ailadroddus neu barhaus sy'n aml yn gysylltiedig â cham-drin domestig. |

[385] Ceir diffiniad manylach ym mharagraff ICU J1.3 o Argymhelliad ICU J1 (rhwystro a thewi defnyddwyr) yn y Codau Ymarfer ar gynnwys anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr.

[386]Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) wedi disgrifio tacsonomeg o 21 o arferion pensaernïaeth dewis ar-lein sy'n dylanwadu ar ddefnyddwyr drwy'r ffordd mae dewisiadau'n cael eu cyflwyno (fel rhagosodiadau a safleoedd), yr wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno (fel fframio a chymhlethdod iaith), a'r pwysau sy'n cael ei roi ar ddewisiadau defnyddwyr (fel nodiadau atgoffa a honiadau ynghylch prinder). Gweler CMA, 2022, Online Choice Architecture – How digital design can harm competition and consumers, [cyrchwyd 19 Hydref 2025].

[387] Trosedd o dan adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 (ymddygiad rheoli neu orfodol mewn perthynas agos neu deuluol). Am ragor o wybodaeth am y risgiau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad rheoli neu orfodol, gweler adran 5 o'r Gofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Rhestr gysylltiadau** | Nodwedd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddod o hyd i ddefnyddwyr eraill nad ydynt wedi cysylltu â nhw'n barod. Weithiau gall y llwyfan awgrymu'r rhestr hon ar sail diddordebau defnyddwyr a chysylltiadau presennol. |
| **Caniatâd** | Cytundeb drwy ddewis, lle mae gan berson y rhyddid a'r gallu i wneud y dewis hwnnw. |
| **Cyfethol** | Yng nghyd-destun y ddogfen hon, rydym yn defnyddio'r term hwn i gyfeirio at ddefnyddio nwydd neu wasanaeth mewn ffordd sy'n wahanol i'r diben arferol neu'r diben a fwriadwyd. |
| **Systemau argymell cynnwys** | System algorithmig sy'n pennu safle cymharol cronfa o gynnwys a nodwyd (cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr ac sy'n cael ei reoleiddio wedi'i gynnwys) gan ddefnyddwyr lluosog ar ffrydiau cynnwys. Argymhellir cynnwys ar sail ffactorau y mae wedi'i raglennu i roi cyfrif amdanynt, fel poblogrwydd cynnwys, nodweddion defnyddiwr, neu ymgysylltiad a ragwelir. Nid yw cyfeiriadau at systemau argymell cynnwys yn cynnwys system argymell cynnwys a ddefnyddir yn unig i weithredu swyddogaeth chwilio sy'n awgrymu cynnwys i ddefnyddwyr mewn ymateb uniongyrchol i ymholiad chwilio, systemau argymell cynnyrch neu systemau argymell rhwydwaith. |
| **Gwrth-fynegiant** | Yr arfer o ymateb i fynegiant sy'n ymddangos yn niweidiol neu'n dramgwyddus. Gall fod ar sawl ffurf fel herio, chwalu neu feirniadu iaith niweidiol, ehangu safbwyntiau amgen, darparu gwybodaeth gywir, a meithrin empathi a dealltwriaeth. |
| **Seiberfflachio** | Mae hyn yn cyfeirio at y drosedd o anfon delwedd o organau cenhedlu, gyda'r bwriad o achosi braw, gofid neu gywilydd, neu i gael boddhad rhywiol heb ystyried a yw braw, gofid neu gywilydd yn cael ei achosi.[388] Gall anfon delweddau rhywiol digymell heb ganiatâd y derbynnydd fod yn gyfystyr â fflachio seiber. |
| **Ffugiad dwfn** | Mathau o gynnwys clyweledol sydd wedi cael eu cynhyrchu neu eu trin gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, sy'n camgynrychioli rhywun neu rywbeth. Mae'n drosedd ac yn fath o gamddefnyddio delweddau personol i greu, neu ofyn am greu, delweddau personol ffugiad dwfn heb ganiatâd yr unigolyn sy'n cael ei bortreadu.[389] |
| **Docsio** | Datgelu gwybodaeth breifat neu sensitif am unigolyn yn gyhoeddus heb ganiatâd, fel ei leoliad, ei rif ffôn neu ei gyfeiriad e-bost.[390] Mae docsio'n gallu digwydd yng nghyd-destun aflonyddu cydlynol neu reolaeth drwy orfodaeth. |

[388] Mae'r diffiniad o'r drosedd o seiberfflachio wedi'i gynnwys yn adran A4 y Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon.
[389]Trosedd o dan adran 66E-66H Deddf Tramgwyddau Rhywiol 2003.
[390]Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn darparu diffiniad tebyg, gweler: CPS, 2024. Cybercrime – prosecution guidance. [cyrchwyd 10 Tachwedd 2025].

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Dyletswyddau** | Mae'r dyletswyddau cyfreithiol perthnasol y mae'n rhaid i ni ganolbwyntio arnynt at ddibenion yCcanllawiau hyn o dan adran 54 y Ddeddf wedi'u nodi yn Rhannau 3 a 4 y Ddeddf ac maent yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau Rhan 3 (gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr). Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau sy'n mynnu bod darparwyr yn nodi, yn lliniaru ac yn rheoli'r risgiau o niwed o ganlyniad i gynnwys a gweithgarwch anghyfreithlon a chynnwys a gweithgarwch sy'n niweidiol i blant. Nodir rhai dyletswyddau ychwanegol yn Rhan 4 y Ddeddf, gan gynnwys rhai sy'n berthnasol i wasanaethau wedi'u categoreiddio yn unig. |
| **Cam(au) sylfaenol** | Disgwyliadau rydym eisoes wedi'u nodi ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n berthnasol i gyflawni cam gweithredu. Mae hyn yn cynnwys camau y gall darparwyr gwasanaethau eu cymryd i'w helpu i gydymffurfio â'u dyletswyddau sy'n ymwneud ag asesiadau risg a thryloywder, ac wrth geisio rhoi mesurau a nodir yn y Codau Ymarfer ar waith, yng nghyd-destun diogelu menywod a merched. |
| **Gasleitio** | Dylanwadu ar unigolyn yn seicolegol fel arfer dros gyfnod estynedig o amser sy'n achosi i'r dioddefwr gwestiynu dilysrwydd ei feddyliau, ei ganfyddiad o realiti, neu atgofion, ac fel arfer mae'n arwain at ddryswch, colli hyder a hunan-barch, ansicrwydd ynghylch ei sefydlogrwydd emosiynol neu feddyliol ei hun, a dibyniaeth ar y cyflawnwr. |
| **Twyllwybodaeth ar sail rhywedd** | Cam-drin ar sail rhywedd ar-lein sy'n defnyddio naratifau camarweiniol neu ffug ar sail rhywedd yn erbyn menywod a'u cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus. Mae'n gyfuniad o gamwybodaeth ar-lein trwy anwiredd ac iaith wedi'i chodio i osgoi cymedroli, canfod a chydlynu. |
| **Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol neu GenAI** | Mae'n cyfeirio'n fras at fodelau dysgu peirianyddol sy'n gallu creu cynnwys newydd. Mae modelau yn creu amrywiaeth eang o allbynnau gan gynnwys testun, delweddau, fideo a sain. |
| **Camau ymarfer da** | Rhagor o wybodaeth am sut gall gwasanaethau fynd i'r afael â niwed ar-lein ar sail rhywedd sy'n adeiladu ar y disgwyliadau rydym wedi'u nodi yn y camau sylfaenol. |
| **Atal niwed** | Mae'n cyfeirio at systemau sy'n ceisio rhagweld a lliniaru risg cyn i niwed ddigwydd. Yng nghyd-destun datblygu cynnyrch, gall gynnwys profi i ganfod llwybrau posibl ar gyfer cam-drin, ac i ganiatáu ar gyfer newidiadau mewn nodweddion a swyddogaethau i atal niwed. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Ymateb i niwed** | Mae'n cyfeirio at systemau sy'n mynd i'r afael â niwed ac yn lleihau ei effeithiau, gan arwain at gymorth neu iawndal i'r sawl sydd wedi dioddef niwed. Yng nghyd-destun niwed ar-lein ar sail rhywedd y mae defnyddwyr yn ei brofi neu'n dod ar ei draws ar wasanaeth, mae hyn yn cynnwys systemau adrodd sy'n hawdd dod o hyd iddynt, yn hawdd eu defnyddio, ac yn addas i'r diben, a chymryd camau priodol i fynd i'r afael ag effaith niwed. |
| **Cyfateb hash** | Mae hashio yn derm cyffredinol ar gyfer technegau sy'n creu 'ôl bys' o ddarn penodol o gynnwys. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu defnyddio algorithm i ddadansoddi cynnwys a chreu 'hash' sy'n gallu ei gynrychioli. Mae hashau wedyn yn cael eu storio mewn cronfa ddata y gall nifer o bartïon gael mynediad ati yn ôl yr angen. Yng nghyd-destun diogelwch ar-lein, gall llwyfannau ar-lein ddefnyddio hashio i roi gwybod i lwyfannau eraill am gynnwys anghyfreithlon neu niweidiol maen nhw wedi'i nodi, a vice versa. Mae cronfeydd data hashio yn bodoli ar gyfer CSAM, cynnwys terfysgol, a delweddau personol heb gydsyniad. |
| **Cam-drin rhywiol ar sail delweddau** | At ddibenion y Canllawiau hyn, mae hyn yn cynnwys camddefnyddio delweddau personol (gweler y diffiniad), delweddau anweddus a gynhyrchir gan yr unigolyn (gweler y diffiniad) a seiberfflachio (gweler y diffiniad). |
| **Camddefnyddio delweddau personol** | Mae hyn yn cynnwys yr holl droseddau o gam-drin delweddau personol, sy'n amrywio ychydig ar draws y DU.[391] Mae'r troseddau hyn tua rhannu neu fygwth rhannu delweddau personol heb ganiatâd y sawl sy'n cael ei bortreadu. Mae termau eraill ar gyfer hyn yn cynnwys camddefnyddio delweddau personol heb ganiatâd (y cyfeirir ato yn gyffredin fel "NCII") a "phornograffi dial". |
| **Croestoriadedd** | Natur gydgysylltiedig categorïau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhywedd, yr ystyrir eu bod yn creu systemau gwahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd ac yn rhyngddibynnol; dull damcaniaethol sy'n seiliedig ar gynsail o'r fath. Bathwyd y term yn 1989 gan Kimberlé Crenshaw, sy'n disgrifio sut mae theori ffeministaidd draddodiadol a pholisïau gwrth-hiliol yn eithrio menywod Du sy'n wynebu gwahaniaethu sy'n gorgyffwrdd ac sy'n unigryw iddyn nhw.[392] |
| **Creadigrwydd niweidiol** | Defnyddio iaith wedi'i chodio, memynnau gweledol a thestunol ailadroddol sy'n seiliedig ar gyd-destun; a thactegau eraill i osgoi cael eu canfod ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. |

[391] Mae'r diffiniad o drosedd camddefnyddio delweddau personol wedi'i gynnwys yn Adran A11 y Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon.
[392] Crenshaw, K., 1989. Demarginalizing the Intersection of Race and Sex: A Black Feminist Critique of Antidiscrimination Doctrine, Feminist Theory and Antiracist Politics, *University of Chicago Legal Forum*, 1989(1). [Cyrchwyd 29 Hydref 2025].

| Term | Diffiniad |
| --- | --- |
| **Llythrennedd yn y cyfryngau** | Y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau ar draws nifer o fformatau a gwasanaethau. Mae gan Ofcom ddyletswyddau penodol ynghylch ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fel y nodir ym Mhennod 2 y ddogfen hon. |
| **Cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol** | Cynnwys a gweithgarwch sy'n normaleiddio, yn annog neu'n atgyfnerthu agweddau ac ymddygiadau sy'n hyrwyddo cam-drin, trais neu gasineb wedi'i dargedu at fenywod a merched.[393] |
| **Monitro a sicrwydd** | Swyddogaeth i roi sicrwydd annibynnol bod y mesurau a gymerir i liniaru ac i reoli'r risgiau o niwed i unigolion a nodir yn yr asesiad risg yn effeithiol yn barhaus. Dylai'r swyddogaeth hon adrodd i, a dylai ei chanfyddiadau gael eu hystyried gan, naill ai: a) y corff sy'n gyfrifol am lywodraethu cyffredinol a chyfeiriad strategol gwasanaeth; neu b) pwyllgor archwilio. |
| **Tewi** | Cymryd camau a fydd yn golygu na fydd y defnyddiwr sy'n tewi yn dod ar draws cynnwys y defnyddiwr sydd wedi cael ei dewi oni bai fod y defnyddiwr sy'n tewi yn ymweld â phroffil defnyddiwr y defnyddiwr sydd wedi cael ei dewi.[394] |
| **Cynnwys heb ei ddynodi** | Categori o gynnwys sy'n niweidiol i blant a ddiffinnir yn y Ddeddf, fel cynnwys nad yw'n gynnwys prif flaenoriaeth nac yn gynnwys blaenoriaeth, o fath sy'n peri risg sylweddol o niwed sylweddol i nifer sylweddol o blant yn y Deyrnas Unedig.[395] |
| **Negeseuon procio** | Nodweddion dylunio sy'n arwain neu'n annog defnyddwyr i ddilyn y llwybrau mae'r dylunydd yn eu ffafrio ym mhenderfyniadau'r defnyddiwr. |
| **Niwed ar sail rhywedd ar-lein** | Cynnwys a gweithgarwch niweidiol a chamdriniol sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. At ddibenion y Canllawiau, rydym yn canolbwyntio ar bedwar math o niwed sy'n gorgyffwrdd: cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol, ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol, stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth, a cham-drin rhywiol sy'n seiliedig ar ddelweddau. |
| **Cyflawnwr** | Defnyddiwr, unigolyn neu grŵp sy'n ymddwyn ac yn cymryd rhan mewn niwed ar-lein ar sail rhywedd. |

[393]Gall cam-drin misogynistaidd a thrais rhywiol gwmpasu troseddau sy'n cynnwys bygythiadau, cam-drin ac aflonyddu (gan gynnwys casineb) fel y'u diffinnir yn adran A4 y Canllawiau ar Farnu Cynnwys Anghyfreithlon. Gall hefyd gynnwys y mathau canlynol o ddeunydd niweidiol sydd wedi'u diffinio yn y Canllawiau ar gynnwys sy'n niweidiol i blant: cynnwys pornograffig (adran 2), cynnwys difrïol a chasineb (adran 6) a chynnwys treisgar (adran 8).
[394]Ceir diffiniad manylach ym mharagraff ICU J1.3 o Argymhelliad ICU J1 (rhwystro a thewi defnyddwyr) yn y Codau Ymarfer ar gynnwys anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr.
[395] Adran 60(2)(c) o'r Ddeddf.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol** | Cynnwys a gweithgarwch sy'n golygu bod llawer o ddefnyddwyr yn targedu dioddefwr unigol neu grŵp bach o ddioddefwyr gyda chynnwys camdriniol, cas neu fygythiol, yn aml yn ailadroddus neu ar raddfa fawr.[396] |
| **Cynnyrch** | Term hollgynhwysol sy'n cynnwys unrhyw swyddogaeth, nodwedd, offeryn neu bolisi y mae gwasanaeth yn eu darparu i alluogi defnyddwyr i ryngweithio â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio |
| **Cynnwys prif flaenoriaeth** | Categori o gynnwys sy'n niweidiol i blant, fel y'i diffinnir yn adran 61 y Ddeddf.[397] Mae hyn yn cynnwys pornograffi, hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta. |
| **Cynnwys blaenoriaeth** | Categori o gynnwys sy'n niweidiol i blant, fel y'i diffinnir yn adran 62 y Ddeddf.[398] Mae hyn yn cynnwys iaith casineb ac iaith gamdriniol. |
| **Ymarfer tîm coch** | Math o ddull gwerthuso sy'n ceisio dod o hyd i wendidau mewn modelau GenAI. |
| **Cyflawnwyr mynych** | Defnyddiwr, unigolyn neu grŵp sy'n ymddwyn ac yn cymryd rhan mewn niwed ar-lein ar sail rhywedd dro ar ôl tro. Mewn llawer o achosion, daw'r rhan fwyaf o niwed ar-lein sy'n seiliedig ar rywedd gan gyfran gymharol fach o sylfaen defnyddwyr gwasanaethau, sy'n llawn cymhelliant i barhau â'r patrwm ymddygiad hwn. |
| **Lleihau** | Cyfyngu ar gylchrediad ac amlygrwydd camarweiniol neu niweidiol o gynnwys yn hytrach na'i ddileu'n llwyr. |
| **Ail-drawmateiddio** | Ail-brofi meddyliau neu deimladau a brofir ar adeg digwyddiad neu amgylchiad trawmatig yng ngorffennol person. Gall hyn gael ei sbarduno, er enghraifft, dod ar draws arogl neu sŵn sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad trawmatig, neu drwy gael eich rhoi mewn sefyllfa neu brofiad tebyg. |
| **Diogelwch drwy ddylunio** | Dull rhagweithiol o integreiddio ystyriaethau diogelwch i'r gwaith o ddylunio a datblygu cynnyrch, systemau neu brosesau. |

[396]Gall ymosodiadau torfol ac aflonyddu cydlynol gwmpasu troseddau sy'n cynnwys bygythiadau, cam-drin ac aflonyddu (gan gynnwys casineb) fel y'u diffinnir yn adran A4 y Canllawiau ar Farnu Cynnwys Anghyfreithlon. Gall hefyd gynnwys y mathau canlynol o ddeunydd niweidiol sydd wedi'u diffinio yn y Canllawiau ar gynnwys sy'n niweidiol i blant: cynnwys difrïol a chasineb (adran 6) a chynnwys treisgar (adran 8).
[397]Yn nodweddiadol, rydym wedi grwpio'r gwahanol fathau o gynnwys prif flaenoriaeth fel a ganlyn: cynnwys pornograffig, cynnwys hunanladdiad a hunan-niweidio, cynnwys anhwylderau bwyta.
[398]Yn nodweddiadol, rydym wedi grwpio'r gwahanol fathau o gynnwys blaenoriaeth fel a ganlyn: cynnwys cam-drin a chasineb, cynnwys bwlio, cynnwys treisgar, cynnwys sylweddau niweidiol, styntiau peryglus a chynnwys heriau.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Gwaith diogelwch** | Strategaethau ar-lein ac all-lein y mae menywod yn eu defnyddio i ymateb i drais ar sail rhywedd, ei osgoi ac ymdopi ag ef. Gall hyn gynnwys osgoi rhai gweithredoedd (fel postio ar-lein neu gerdded ar eich pen eich hun yn ystod y nos), treulio amser yn meddwl neu'n cynllunio ynghylch risgiau diogelwch, neu gymedroli sut maent yn gwisgo neu'n cyflwyno eu hunain ar-lein er mwyn osgoi profi trais. Mae gwaith diogelwch yn faich annheg sy'n cyfyngu ar le menywod i weithredu a mynegi eu hunain, ac mae'n eu gwneud yn gyfrifol am atal trais. |
| **Gwasanaeth chwilio** | Gwasanaeth rhyngrwyd sy'n beiriant chwilio, neu sy'n cynnwys peiriant chwilio. At ddibenion y Canllawiau hyn, rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar “wasanaethau chwilio cyffredinol” sy'n wasanaethau sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio'r rhyngrwyd drwy fewnbynnu ceisiadau chwilio. Mae'n cyrchu canlyniadau chwilio o fynegai chwilio sylfaenol (a ddatblygwyd naill ai gan ddarparwr y gwasanaeth neu gan drydydd parti). Cyflwynir canlyniadau chwilio gan ddefnyddio algorithmau sy'n eu graddio ar sail perthnasedd i gais chwilio (ymhlith ffactorau eraill). Y rheswm am hyn yw nad oes gennym dystiolaeth sylweddol am risgiau niwed ar-lein ar sail rhywedd ar wasanaethau chwilio fertigol.[399] |
| **Delweddau anweddus a gynhyrchwyd ganddyn nhw eu hunain** | Deunydd cam-drin rhywiol plant a grëwyd gan y plentyn a ddarlunnir yn y ddelwedd[400] |
| **Delweddau o semen** | Delweddau neu fideos lle mae semen yn cael ei ddarlunio ar ben delwedd nad yw'n bersonol. |
| **Darparwr gwasanaeth** | Rydym yn cyfeirio at blatfform fel ‘gwasanaeth’, a’r endid cyfreithiol sy’n darparu’r gwasanaeth fel ‘darparwr’ neu ‘ddarparwr gwasanaeth’. Mewn geiriau eraill, gallai gwefan fod y ‘gwasanaeth’, a’r cwmni sy’n berchen arni ac yn ei rhedeg fyddai’r ‘darparwr’. |
| **Blacmel rhywiol** | At ddibenion y Canllaw hwn, mae hyn yn cyfeirio at fath o gam-drin delweddau agos sy'n cynnwys rhannu, neu fygwth rhannu, delweddau agos. Gall hyn fod i orfodi arian neu orfodi'r dioddefwr i wneud rhywbeth yn erbyn ei ewyllys. Yn aml, cymerir neu gwneir delweddau heb i'r dioddefwr sylweddoli na chydsynio. |
| **Gwybodaeth gefnogol** | Cyfeirir at hyn hefyd fel Gwybodaeth Atal Argyfwng. Mae'n cyfeirio at wybodaeth a ddarperir gan wasanaeth chwilio mewn canlyniadau chwilio sydd fel arfer yn cynnwys manylion cyswllt llinellau cymorth a/neu linellau cymorth a dolenni at wybodaeth ddibynadwy a chefnogol a ddarperir yn rhad ac am ddim gan sefydliad dibynadwy sydd ag enw da. |

[399] I gael rhagor o wybodaeth am wasanaethau chwilio fertigol, ewch i: Diogelu pobl rhag niwed anghyfreithlon ar-lein: Atodiad 3. Geirfa.

[400] Am ragor o wybodaeth am ddelweddau anweddus a gynhyrchwyd gan y cyhoedd, gweler paragraffau 2.27-2.28 yn y Gofrestr Risg Niwed Anghyfreithlon. Mae diffiniad y drosedd o gamfanteisio a cham-drin plant yn rhywiol wedi'i gynnwys yn adrannau A5 ac A6 o'r Canllawiau ar Farnau ynghylch Cynnwys Anghyfreithlon.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Goroeswr a dioddefwr** | Person sydd wedi profi niwed ar sail rhywedd ar-lein. |
| **Stelcio** | Mae hyn yn cwmpasu troseddau stelcio, y mae fersiynau ohonynt yn bodoli ledled y DU.[401] Er mwyn helpu darparwyr gwasanaethau i ddeall y math o gynnwys a gweithgaredd sy'n debygol o fod wedi'u cynnwys, dyma math o aflonyddu, a nodweddir gan batrwm o ymddygiad obsesiynol, ailadroddus ac sy’n ymddygiad ymwthiol. |
| **Dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma** | Dull sy'n cydnabod (i) pa mor gyffredin yw trawma; (ii) sut mae trawma'n effeithio ar bob unigolyn sy'n ymwneud â'r rhaglen, y sefydliad neu'r system, gan gynnwys ei weithlu ei hun; (iii) ac sy’n ymateb drwy roi'r wybodaeth hon ar waith. Mae hyn yn aml yn cynnwys pwyslais ar gydsyniad gwybodus yn ogystal â rhybuddion cynnwys. Mae enghreifftiau'n cynnwys dylunio sy'n ystyriol o drawma a systemau adrodd sy'n ystyriol o drawma. |
| **Defnyddioldeb** | Yr ansawdd, neu'r cyflwr o fod yn gyfleus ac yn ymarferol ar gyfer defnyddio. Yng nghyd-destun dylunio cynnyrch, mae'n fesur o ba mor dda y gall defnyddiwr penodol mewn cyd-destun penodol ddefnyddio cynnyrch/dyluniad i gyflawni nod diffiniedig yn effeithiol, yn effeithlon ac yn foddhaol. |
| **Dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr** | Mae'n cyfeirio at broses ddylunio sy'n ei hanfod yn ailadroddol ac sy'n rhoi anghenion defnyddwyr wrth galon pob cam o'r broses hon, er mwyn creu cynhyrchion cynhwysol sy’n hawdd iawn eu defnyddio. |
| **Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr** | Gwasanaeth rhyngrwyd lle bydd cynnwys sy’n cael ei gynhyrchu’n uniongyrchol ar y gwasanaeth gan ddefnyddiwr y gwasanaeth, neu’n cael ei lwytho i fyny neu ei rannu ar y gwasanaeth gan ddefnyddiwr y gwasanaeth, yn gallu cael ei weld gan ddefnyddiwr arall, neu ddefnyddwyr eraill, y gwasanaeth. |
| **Rheolaethau defnyddwyr a chymorth i ddefnyddwyr** | Mae'n cyfeirio at offer sy'n rhoi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr ar y cynnwys, y defnyddwyr a'r profiadau maen nhw'n dod ar eu traws ar-lein a gwybodaeth hygyrch i wneud dewisiadau gwybodus am risg. |
| **Beio dioddefwyr** | Nodi neu awgrymu'n glir mai'r dioddefwr sydd ar fai am y gamdriniaeth y mae wedi'i phrofi. Mae'n aml yn canolbwyntio ar gamau y gallai dioddefwr fod wedi'u cymryd (neu heb eu cymryd) i osgoi cael ei gam-drin. |
| **Feirol** | Darn o gynnwys - fel post, delwedd neu fideo - sy'n dod yn boblogaidd iawn drwy gael ei rannu'n gyflym ac yn eang ar-lein, yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol. |

[401] Mae'r diffiniad o'r drosedd o stelcio wedi'i gynnwys yn adran A4 y Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Feirysedd** | I ba raddau y mae cynnwys ar-lein yn lledaenu'n hawdd a/neu'n gyflym ar draws llawer o ddefnyddwyr ar-lein, ochr yn ochr â faint o ymgysylltiad a/neu faint sy’n gweld darn o gynnwys (fel 'shares', 'likes', a 'view', ac ati). |